Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GSR

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:
48/2021
DYDDIAD CYHOEDDI:
13/07/2021

# Dadansoddiad o'r Gwariant ar Addasiadau Tai yng Nghymru

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-90195-560-7

Dadansoddiad o'r Gwariant ar Addasiadau Tai yng Nghymru

Adroddiad gan Opinion Research Services

Lock, K., Baker, T., Davies, A. (2021). *Dadansoddiad o'r Gwariant ar Addasiadau Tai yng Nghymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth 48/2021
Ar gael yn: https://llyw.cymru/dadansoddiad-or-gwariant-ar-addasiadau-i-dai-yng-nghymru

Safbwyntiau'r ymchwilwyr sy'n cael eu mynegi yn yr adroddiad hwn, ac nid o reidrwydd safbwyntiau Llywodraeth Cymru

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:
Katy Addison
Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 03000 256292
E-bost: YmchwilDyfodolCynaliadwy@llyw.cymru

**Tabl cynnwys**

1. Cyflwyniad a chefndir ........................................ 9
2. Methodoleg ........................................ 13
3. Canfyddiadau: Adolygiad llenyddiaeth ........................................ 20
4. Canfyddiadau: Dadansoddiad o'r gwariant ........................................ 33
5. Canfyddiadau: Dadansoddiad o’r canlyniadau yn ôl y ffrwd gyllido ........................................ 64
6. Canfyddiadau: Gweithdai rhanddeiliaid ........................................ 73
7. Canfyddiadau: Cyfweliadau manwl â defnyddwyr gwasanaethau ........................................ 88
8. Casgliadau ........................................ 96

Atodiad A: Llyfryddiaeth ........................................ 110
Atodiad B: Adroddiad ar ganfyddiadau o'r cyfweliadau â rhanddeiliaid ........................................ 112
Atodiad C: Canllawiau testun cyfweliadau ........................................ 130
Atodiad D: Cyfranogwyr rhanddeiliaid ........................................ 141
Atodiad E: Newidynnau a ddefnyddir ar gyfer dadansoddi data ........................................ 142
Atodiad F: Diffinio ardaloedd awdurdodau lleol ........................................ 143
Atodiad G: Asesiad cryno o ba mor dda y mae ffrydiau cyllido yn cyflawni eu nodau ... 146
Atodiad H: Dadansoddiad o'r costau yn ôl y ffrwd gyllido a maint yr addasiad ........................................ 150

**Rhestr o dablau**

Tabl 4.1: Nifer yr addasiadau a chyfanswm y gost yn ôl y ffrwd gyllido ........................... 44
Tabl 4.2: Cyfartaleddau ac ystod y gost yn ôl y ffrwd gyllido ........................................... 47
Tabl 4.3: Costau yn ôl y ffrwd gyllido yn ôl categori maint (efallai na fydd y cyfansymiau'n cyfateb yn union oherwydd talgrynnu) ................................................................ 53
Tabl 4.4: Canran y ffrwd gyllido yn ôl darparwr (yn ôl nifer yr addasiadau: ...................... 54
Tabl 4.5: Addasiadau a ddarperir yn ôl grŵp oedran yn ôl y ffrwd gyllido......................... 56
Tabl 4.6: Nifer y diwrnodau rhwng i'r angen am yr addasiad gael ei nodi ac i'r addasiad fod yn barod i'w ddefnyddio yn ôl y ffrwd gyllido ............................................... 61
Tabl 4.7: Amser mewn blynyddoedd rhwng i'r angen am yr addasiad gael ei nodi ac i'r addasiad fod yn barod i'w ddefnyddio yn ôl y ffrwd gyllido (nifer yr addasiadau)........................................................................................ 62
Tabl 4.8: Amser mewn blynyddoedd rhwng i'r angen am yr addasiad gael ei nodi ac i'r addasiad fod yn barod i'w ddefnyddio yn ôl y ffrwd gyllido (canran yr addasiadau)...................................................................................... 63
Tabl 5.1: Dychweliadau o holiaduron bodlonrwydd yn ôl y ffrwd gyllido ........................... 67
Tabl 1 (Atodiad F): Ardaloedd awdurdod lleol diffiniedig ............................................... 143
Tabl 2 (Atodiad F): Cymdeithasau tai heb eu neilltuo.................................................... 145

Siart 1: Cyfanswm y gost fesul 1,000 o'r boblogaeth wedi'i safoni yn ôl oedran ............. 39
Siart 2: Cyfanswm y gost fesul 1,000 o'r boblogaeth wedi'i safoni yn ôl oedran (canran 41
Siart 3: Costau ar gyfer cyllid Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl fesul 1,000 o'r boblogaeth wedi'u safoni yn ôl oedran .......................................................................... 42
Siart 4: A Costau wedi'u safoni yn ôl oedran – Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl (canran) 43
Siart 5: Cyfanswm cost yr addasiadau yn ôl y ffrwd gyllido ............................................ 45
Siart 6: Canran yr addasiadau ym mhob band cost yn ôl y ffrwd gyllido .......................... 49
Siart 7: Cyllid yn ôl categori maint (nifer yr addasiadau) ................................................ 50
Siart 8: Cyllid yn ôl categori maint (cost addasiadau)..................................................... 52
Siart 9: Cost yn ôl y ffrwd gyllido yn ôl categori maint (£) ............................................... 53
Siart 10: Addasiadau a ddarperir yn ôl y ffrwd gyllido yn ôl grŵp oedran ........................ 55
Siart 11: Addasiadau a ddarperir yn ôl grŵp oedran yn ôl y ffrwd gyllido ........................ 57
Siart 12: Addasiadau yn ôl maint yn ôl grŵp oedran ...................................................... 58
Siart 13: Cost gymedrig addasiadau yn ôl deiliadaeth.................................................... 59

Siart 14: Y canolrif a'r mwyafrif o ddiwrnodau rhwng i’r angen am yr addasiad gael ei nodi ac i’r addasiad fod yn barod i'w ddefnyddio ........................................................ 61
Siart 15: Canlyniadau a ragwelir yn ôl y ffrwd gyllido ........................................................ 65
Siart 16: Cyfraniad pob ffrwd gyllido at y canlyniadau a ragwelir (nifer yr addasiadau)... 66
Siart 17: A yw gosod eich addasiad wedi rhoi mwy o annibyniaeth i chi? ........................ 68
Siart 18: A yw gosod eich addasiad wedi gwella'ch llesiant? ............................................ 69
Siart 19: A yw gosod eich addasiad wedi lleihau eich angen am ofalwr? ......................... 70
Siart 20: Bodlonrwydd cwsmeriaid ........................................................................... 72

**Rhestr termau**

| *Acronym / gair allweddol* | *Diffiniad* |
|---|---|
| Cofrestrau eiddo wedi'u haddasu | Cofrestrau sy'n helpu i baru unigolion sy'n byw yn y sectorau cymdeithasol a phreifat ag eiddo a addaswyd sy'n addas i'w hanghenion. |
| Wedi safoni yn ôl oedran | Techneg ystadegol sy'n caniatáu cymharu data am ddwy boblogaeth pan fydd gan y poblogaethau strwythurau oedran gwahanol. Fe'i defnyddir yn yr astudiaeth hon oherwydd bod ardaloedd â phoblogaeth hŷn yn debygol o fod â mwy o addasiadau nag ardaloedd â phoblogaeth iau. |
| Gofal a Thrwsio Cymru | Mae Gofal a Thrwsio Cymru yn gorff elusennol cenedlaethol ac mae'n gweithio’n rhagweithiol i sicrhau bod gan bob person hŷn gartrefi sy'n ddiogel ac yn briodol i'w hanghenion. Mae'n darparu gwasanaethau i rwydwaith o asiantaethau Gofal a Thrwsio ledled Cymru. |
| Cartrefi Cymunedol Cymru | Mae Cartrefi Cymunedol Cymru yn cynrychioli mwy na 70 o gymdeithasau tai nid-er-elw a chwmnïau cydfuddiannol yng Nghymru. |
| Cyllid craidd ar gyfer asiantaethau Gofal a Thrwsio | Mae Llywodraeth Cymru yn cyfrannu at gyllid craidd asiantaethau Gofal a Thrwsio unigol bob chwarter yn unol ag argymhellion Gofal a Thrwsio Cymru, sy'n gyfrifol am waith craffu. |
| Grant Cyfleusterau i'r Anabl | Grantiau prawf modd gorfodol sydd ar gael i berchen-feddianwyr, tenantiaid (yn y sectorau cymdeithasol a phreifat) a thrwyddedigion i helpu gyda chostau gwaith angenrheidiol i helpu meddianwyr anabl i fynd i mewn ac allan o'u cartref, ac i symud o’i gwmpas.[1] |

[1] Senedd Ymchwil, 2019.Addasiadau yn y cartref yng Nghymru – canllaw i etholwyr

| | |
|---|---|
| HWYLUSO – Cymorth i Fyw'n Annibynnol | Daeth menter Llywodraeth Cymru HWYLUSO – Cymorth i Fyw'n Annibynnol â nifer o raglenni ynghyd a oedd eisoes ar waith ar gyfer cyflwyno addasiadau tai. Mae'r rhain wedi parhau i raddau helaeth fel o'r blaen, ond cynlluniwyd HWYLUSO i'w symleiddio o dan un 'brand'. Y rhaglenni a'r darpariaethau eraill sy'n unedig o dan HWYLUSO yw'r canlynol: darpariaeth gyffredinol o addasiadau bach gan adrannau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol; Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl; pwerau disgresiwn ychwanegol y gall awdurdodau lleol eu defnyddio wrth ddarparu addasiadau; y Rhaglen Addasiadau Brys; a Grantiau Addasiadau Ffisegol ar gyfer eiddo tai cymdeithasol.[2] Mae Hwyluso hefyd yn grant penodol i awdurdodau lleol ddarparu addasiadau bach a chanolig yn gyflymach ac yn fwy hyblyg heb fod angen troi at brosesau Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl. |
| Cronfa Gofal Integredig | Sefydlwyd y Gronfa Gofal Integredig yn 2014-15 i gynorthwyo pobl hŷn i gynnal eu hannibyniaeth, i osgoi cael eu derbyn i'r ysbyty, ac i atal oedi cyn cael eu rhyddhau. Mae hefyd yn anelu at yrru gweithio mewn partneriaeth a darparu gwasanaethau integredig ar draws iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, tai a'r trydydd sector trwy Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Mae'r Gronfa Gofal Integredig yn cynnwys rhaglenni refeniw a chyfalaf. Mae gan Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol ddisgresiwn i ddefnyddio peth o'r cyllid cyfalaf ar gyfer cymhorthion ac addasiadau. |
| Dangosyddion perfformiad allweddol | Gwerthoedd mesuradwy sy'n dangos pa mor effeithiol y mae sefydliad yn cyflawni amcanion allweddol. |

[2] Age Cymru, 2019. Cael cyfarpar anabledd ac addasiadau i'r cartref yng Nghymru

| | |
|---|---|
| Trosglwyddo Gwirfoddol ar Raddfa Fawr | Trosglwyddo stoc dai awdurdod tai lleol, neu ran sylweddol ohoni, i ddarparwr tai cymdeithasol cofrestredig preifat. |
| Cyllid Trosglwyddo Gwirfoddol ar Raddfa Fawr | Addasiadau a ariennir gan Drosglwyddo Gwirfoddol ar Raddfa Fawr |
| Canolrif | Un o’r tri math o gyfartaledd neu ‘fesurau tuedd ganolog’. Y canolrif yw'r gwerth canol mewn rhestr o'r holl werthoedd a roddir mewn trefn o'r lleiaf i'r mwyaf.<br>Yn yr adroddiad hwn, y canolrif yn gyffredinol yw'r mwyaf priodol o'r tri chyfartaledd i'w defnyddio gan fod ychydig o werthoedd bach neu fawr iawn yn effeithio llai arno. |
| Cymedr | Un o’r tri math o gyfartaledd neu ‘fesurau tuedd ganolog’. Cyfrifir y cymedr trwy ychwanegu'r holl werthoedd a rhannu â nifer y gwerthoedd. |
| Profion modd | Mae prawf modd yn penderfynu a yw unigolyn neu aelwyd yn gymwys i dderbyn rhyw fath o fudd-dal, taliad neu ymyrraeth. |
| Modd neu foddol | Un o’r tri math o gyfartaledd neu ‘fesurau tuedd ganolog’. Y modd yw'r gwerth mwyaf cyffredin mewn set ddata. |
| Therapydd galwedigaethol | Mae therapydd galwedigaethol yn helpu pobl o bob oedran i oresgyn effeithiau anableddau a achosir gan salwch, heneiddio neu ddamwain fel y gallant gyflawni tasgau neu alwedigaethau bob dydd. Bydd therapydd galwedigaethol yn ystyried holl anghenion y claf – yn gorfforol, yn seicolegol, yn gymdeithasol ac yn amgylcheddol. |
| Grant Addasiadau Ffisegol | Mae cymdeithasau tai traddodiadol yn cyflwyno addasiadau trwy broses Grantiau Addasiadau Ffisegol. Ariennir Grantiau Addasiadau Ffisegol gan Lywodraeth Cymru. Rhaid dilyn canllawiau ar Grantiau Addasiadau Ffisegol. |

| | |
|---|---|
| Rhaglen Addasiadau Brys | Mae asiantaethau Gofal a Thrwsio yn cyflwyno'r Rhaglen Addasiadau Brys gyda chyllid gan Lywodraeth Cymru. Mae ar gael i berchen-feddianwyr a thenantiaid preifat i gyllido mân addasiadau, fel ganllawiau, i alluogi pobl i ddychwelyd o'r ysbyty i'w cartrefi eu hunain, neu lle mae angen gwaith ataliol cyflym, er enghraifft i atal llithro a chwympo. |
| Landlord cymdeithasol cofrestredig | Darparwyr tai nid-er-elw wedi'u cymeradwyo a'u rheoleiddio gan y llywodraeth. Gelwir mwyafrif helaeth o'r landlordiaid cymdeithasol cofrestredig hefyd yn gymdeithasau tai. |
| Addasiadau bach/canolig/mawr | Addasiadau bach: eitemau rhad y gellir eu darparu'n gyflym iawn. Yn gyffredinol, byddai'n gweddu i'r disgrifiad o 'atal cwympiadau ar unwaith' neu 'waith brys i ryddhau o'r ysbyty' a gellir ei asesu a'i osod o fewn dyddiau neu'r un diwrnod os yw'n fater brys. Gellir ei nodi gan nifer o staff iechyd, staff gwasanaethau cymdeithasol, neu staff eraill sydd wedi'u hyfforddi'n briodol, e.e. staff y landlord cymdeithasol cofrestredig, staff Gofal a Thrwsio. Ymhlith yr enghreifftiau y mae'r canlynol: canllawiau cydio; canllawiau ar gyfer grisiau; rampiau bach; tapiau hygyrch; blychau cadw allweddi'n ddiogel; canllawiau coes mop; canllawiau y tu allan; goleuadau allanol / ar risiau; a socedi trydanol ychwanegol.[3]<br>Addasiadau canolig: unrhyw beth nad yw'n cael ei ystyried yn addasiad bach neu fawr. Ymhlith yr enghreifftiau y mae'r canlynol: cawod heb ris i fynd i mewn iddi; lifftiau grisiau; rampiau mawr; neu gyfuniad o addasiadau a gyflawnir yn rhan o un prosiect.[4] |

[3] Llywodraeth Cymru, 2019. Safonau Gwasanaeth ar gyfer Addasiadau Tai
[4] Fel yr uchod

| | |
|---|---|
| | Addasiadau mawr: mae'r rhain yn waith a fydd yn gofyn am asesiadau arbenigol ac addasiadau mawr i eiddo. Bydd angen asesiad gan therapydd galwedigaethol, ac mae'n bosibl y bydd angen caniatâd cynllunio. Ymhlith yr enghreifftiau y mae'r canlynol: codi estyniad er mwyn darparu ystafell wely a/neu ystafell ymolchi i lawr y grisiau; lifft sy'n mynd o'r naill lawr i'r llall; neu addasiadau strwythurol mewnol sy'n sylweddol, e.e. symud ystafell ymolchi neu gegin.[5] |
| Cyllid landlord cymdeithasol cofrestredig traddodiadol | Addasiadau a ariennir gan landlordiaid cymdeithasol cofrestredig 'traddodiadol'; unrhyw landlord cymdeithasol cofrestredig nad yw'n ganlyniad Trosglwyddo Gwirfoddol ar Raddfa Fawr. |
| Safonau Gwasanaeth Llywodraeth Cymru | Safonau sy'n nodi lefel y gwasanaeth a ddisgwylir ar gyfer cyflwyno a gosod addasiad tai y gall defnyddwyr gwasanaethau, waeth beth yw eu lleoliad daearyddol a'u deiliadaeth, ei disgwyl. |
| LlC | Llywodraeth Cymru |

[5] Fel yr uchod

# 1. Cyflwyniad a chefndir

## Cyd-destun yr ymchwil

1.1 Mae addasiadau tai yn chwarae rhan allweddol wrth ganiatáu i bobl anabl a phobl hŷn fyw'n ddiogel ac yn annibynnol. Maent yn cefnogi'r ddarpariaeth o ofal yn agos at y cartref, yn lleihau'r pwysau ar wasanaethau rheng flaen fel iechyd a gofal cymdeithasol, ac yn gwella llesiant yr unigolyn a'i deulu. Yn wir, mae darparu addasiadau tai yn adlewyrchu egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015[6] a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, ynghyd â'r amcanion a nodir yn Ffyniant i Bawb[7] a Cymru Iachach.[8]

1.2 Mae'r system gyllido gyfredol ar gyfer darparu addasiadau tai yng Nghymru yn gymhleth. Mae hyn yn adlewyrchiad o esblygiad deddfwriaeth, amrywiaeth y cyfundrefnau cyllido dros gyfnod hir, ac ymglymiad sawl rhanddeiliad yn nhrefniadau gofal a chymorth pobl anabl a phobl hŷn. Amcangyfrifir bod tua 70 o sefydliadau yn cyflwyno addasiadau yng Nghymru, yn gwario bron i £60 miliwn ac yn cynorthwyo dros 32,000 o bobl.[9] Yn ogystal â hyn, nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys yr addasiadau tai sy'n cael eu cyllido gan unigolion eu hunain ledled Cymru.

1.3 Ers 2005, bu chwe adolygiad yng Nghymru sydd wedi ymdrin neu nodi sylwadau ar addasiadau tai:

- Jones, C. (2005). *Adolygiad o Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl ac Addasiadau.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru[10]
- Cynulliad Cenedlaethol Cymru. (2009). *Yn Dal i Aros:Gwasanaethau Addasu a Chynnal a Chadw Cartrefi i Bobl Hŷn yng Nghymru.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru[11]

---

[6] Llywodraeth Cymru | Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

[7] Llywodraeth Cymru, 2017. Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol

[8] Llywodraeth Cymru, 2019. Cymru Iachach: ein Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol

[9] Swyddfa Archwilio Cymru, 2018.Addasiadau Tai

[10] C. Jones, 2005. Adolygiad o addasiadau tai gan gynnwys Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl – Cymru.

[11] Pwyllgor Cyfle Cyfartal Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2009.Yn Dal i Aros: Gwasanaethau Addasu a Chynnal a Chadw Cartrefi i Bobl Hŷn yng Nghymru.

- Bibbings, J., Boniface, G., Campbell, J., Findlay, G., Reeves-McAll, E., Zhang, M. a Zhou, P. (2015). *Adolygiad o addasiadau ar gyfer byw'n annibynnol.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru[12]
- Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. (2018). *Tai a phobl anabl: argyfwng cudd Cymru*Llundain: Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol[13]
- Swyddfa Archwilio Cymru. (2018). *Addasiadau Tai* Caerdydd: Swyddfa Archwilio Cymru[14]
- Grŵp Arbenigol Llywodraeth Cymru ar Ddarparu Tai ar gyfer Poblogaeth sy'n Heneiddio yng Nghymru. (2017). *Tai i'r dyfodol:diwallu dyheadau pobl hŷn Cymru.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru[15]

1.4 Nododd pob adroddiad faterion yn ymwneud â chymhlethdod cyllido a'r trefniadau heriol ar gyfer cyrchu gwasanaethau ledled Cymru. Yn benodol, nododd Swyddfa Archwilio Cymru[16] fod nifer o sefydliadau a ffrydiau cyllido sy'n cyfrannu at ddarparu addasiadau tai wedi arwain at system rhy gymhleth. Mae consensws eang o'r adolygiadau hyn y byddai'r system bresennol yn elwa o gael ei symleiddio i sicrhau ei bod yn addas at y diben ac yn gallu bodloni gofynion a phwysau cynyddol.

### Nodau'r prosiect

1.5 Mae tri phrif fater sy'n peri pryder yn ymwneud â darparu addasiadau tai sy'n arwain at system annheg o ddarparu addasiadau:

- Mae grantiau ac agweddau eraill ar addasiadau tai wedi bod yn destun *"loteri cod post"* ers amser maith, yn bennaf o ganlyniad i wahanol awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn cymhwyso gwahanol reolau;

---

[12] Bibbings ac eraill, 2015. *Adolygiad o addasiadau ar gyfer byw'n annibynnol.*
[13] Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, 2018. Tai a phobl anabl:argyfwng cudd Cymru.
[14] Swyddfa Archwilio Cymru, 2018.Addasiadau Tai
[15] Llywodraeth Cymru, 2017. Tai i'r dyfodol:diwallu dyheadau pobl hŷn Cymru.
[16] Swyddfa Archwilio Cymru, 2018. Addasiadau Tai

- Y drefn gyllido gymhleth, gyda gwahanol lwybrau cyllido ar gael yn dibynnu ar ddeiliadaeth (y pum prif lwybr yw'r Grant Cyfleusterau i'r Anabl, y Rhaglen Addasiadau Brys, y Grant Addasiadau Ffisegol, cyllid HWYLUSO ar gyfer awdurdodau lleol, a chyllid craidd ar gyfer asiantaethau Gofal a Thrwsio); ac
- Mae'r ystod o wahanol sefydliadau sy'n darparu mynediad at addasiadau yn cymhlethu'r system ymhellach ac yn ei gwneud hi'n anodd gweithredu a mesur cyflawniad yn erbyn safonau.

1.6 Yng ngoleuni hyn i gyd, comisiynwyd Opinion Research Services (ORS) – cwmni ymchwil gymdeithasol annibynnol – gan Lywodraeth Cymru i wneud ymchwil i'r gwaith o ddyrannu grantiau a sut y maent yn cael eu cyrchu / eu gwario ar addasiadau tai i gefnogi pobl anabl a phobl hŷn i fyw'n ddiogel ac yn annibynnol yng Nghymru. Yn y bôn, cynlluniwyd y prosiect i ddeall dyrannu cyllid a sut mae'n adlewyrchu anghenion y boblogaeth – ac, yn benodol, a yw'n seiliedig ar ffactorau fel deiliadaeth ac ardal/sefydliad yn hytrach nag angen.

1.7 Ochr yn ochr â chefnogi nod cyffredinol cydraddoldeb i bobl anabl, cynlluniwyd yr ymchwil i lywio'r broses o ddarparu system ddaearyddol a chymdeithasol deg i bobl sydd angen addasiadau i'w cartrefi a darpariaeth addasiadau fwy cyfartal ledled Cymru i gefnogi systemau iechyd a gofal cymdeithasol lleol.

**Manyleb yr ymchwil**

1.8 Fel rhan o'r prosiect, cynhaliodd ORS bedwar maes ymchwil:

- Adolygiad o'r data/llenyddiaeth berthnasol i roi mewnwelediad pellach i danategu canlyniadau'r astudiaeth hon a darparu ffocws ar gyfer cynnwys y cwestiynau yn y cyfweliadau ansoddol;
- Cwmpasu cyfweliadau â chwe sefydliad allweddol i ddeall y darlun cyfredol ledled Cymru;
- Cyfweliadau ffôn manwl â'r rhai sy'n derbyn cymhorthion ac addasiadau tai er mwyn casglu barn ar y broses o'u cyrchu a sut y gallai fod wedi'i gwella; a

- Dau weithdy â rhanddeiliaid i archwilio'r themâu ymchwil allweddol a thrafod dangosyddion posibl ar gyfer proses ddyrannu ar gyfer addasiadau tai a sut y gallai'r rhain fod yn gysylltiedig â Safonau Gwasanaeth Llywodraeth Cymru.

1.9 Ymdrinnir â'r pedwar maes ymchwil hyn yn fanwl yn y penodau sy'n dilyn, y daw'r canfyddiadau allweddol ohonynt ynghyd mewn pennod olaf.

# 2. Methodoleg

**Adolygiad cwmpasu**

Adolygiad llenyddiaeth/polisi

2.1 Er mwyn rhoi cyd-destun i'r ymchwil ac archwilio'r prif faterion a'r heriau allweddol o ran cyflwyno addasiadau tai yng Nghymru, adolygwyd y polisïau a'r adolygiadau a restrir yn y llyfryddiaeth yn Atodiad A (tudalen xx) i nodi themâu allweddol. Mae'r adolygiad hwn wedi canolbwyntio ar lenyddiaeth fwy diweddar, ond lle bo hynny'n bosibl rydym wedi cymharu canfyddiadau'r rhain â dau adolygiad amlwg blaenorol i nodi naill ai lle gwnaed cynnydd, neu lle mae heriau'n parhau i fodoli. Dyma'r ddau adolygiad cynharach:

- Jones, C. (2005). Adolygiad o Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl ac Addasiadau Tai. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.
- Cynulliad Cenedlaethol Cymru. (2009). Yn Dal i Aros: Gwasanaethau Addasu a Chynnal a Chadw Cartrefi i Bobl Hŷn yng Nghymru. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Cyfweliadau â rhanddeiliaid

2.2 I archwilio a yw'r materion sy'n codi o'r adolygiad llenyddiaeth yn berthnasol ‘ar lawr gwlad’ ac i lywio'r canllawiau pwnc ar gyfer y cyfweliadau â defnyddwyr gwasanaethau a’r gweithdai rhanddeiliaid, cynhaliwyd chwe chyfweliad â rhanddeiliaid allweddol i gasglu eu safbwyntiau ar y darlun cyfredol mewn perthynas â dyrannu addasiadau tai ledled Cymru.

2.3 Dewiswyd y rhanddeiliaid gan Lywodraeth Cymru am eu gwybodaeth am wahanol agweddau ar y systemau a phrosesau addasu ledled Cymru, ac roeddent yn cynnwys y canlynol:

- Cynrychiolwyr tri awdurdod lleol (sy'n rheoli grantiau cyfleusterau i'r anabl gorfodol yn unol â rheoliadau tai a deddfwriaeth cydraddoldeb). Siaradodd dau o safbwynt cyllido, a'r llall o safbwynt gwasanaethau cymdeithasol;
- Cynrychiolydd landlord cymdeithasol cofrestredig;

- Cynrychiolydd elusen dai; a
- Chynrychiolydd Asiantaeth Gwella Cartrefi annibynnol.

2.4 Parhaodd y cyfweliadau rhwng 45 a 75 munud, ac roeddent yn ymdrin â'r meysydd allweddol canlynol:

- Y system bresennol ar gyfer dyrannu cyllid ar gyfer addasiadau tai – ac a yw hon wedi'i chynllunio'n ddigonol i ddiwallu anghenion pobl hŷn ac anabl yng Nghymru;
- Safonau Gwasanaeth Llywodraeth Cymru;
- Y prosesau ymgeisio, asesu a dyrannu;
- Y dull o gyflawni'r addasiadau;
- Effaith cyllid ar gyfer addasiadau tai ar ddiwallu anghenion pobl oedrannus ac anabl yng Nghymru;
- Y systemau sydd ar waith i fesur a gwerthuso effaith y cyllid hwn; a
- Dulliau cydweithredol ac arfer da ym maes addasiadau tai.

2.5 Gan mai prif fwriad canfyddiadau'r cyfweliadau hyn oedd llywio dyluniad camau diweddarach yr ymchwil, maent wedi'u cynnwys yn Atodiad B. Mae'r canllaw trafod hefyd wedi'i atgynhyrchu yn Atodiad C.

**Dadansoddiad o'r gwariant yn ôl ffrwd gyllido**

2.6 Cynhaliwyd ymarfer dadansoddi data i asesu lefelau gwariant cyfredol pob rhaglen gyllido addasu tai ac i nodi sut mae pob rhaglen yn cefnogi cyflwyno addasiadau tai yng Nghymru. Bwriad yr elfen hon o'r prosiect oedd cryfhau dealltwriaeth o ddyraniad cyllid a sut mae'n adlewyrchu angen y boblogaeth ym mhob awdurdod lleol.

2.7 Archwiliodd y dadansoddiad y rhaglenni cyllido cyfalaf canlynol:

- Grant Cyfleusterau i'r Anabl;
- Rhaglen Addasiadau Brys;
- Grant Addasiadau Ffisegol;

- Cyllid HWYLUSO ar gyfer awdurdodau lleol; a
- Chyllid craidd ar gyfer asiantaethau Gofal a Thrwsio.

2.8 Yn ogystal â hyn, roedd yn ystyried y canlynol:

- Y Gronfa Gofal Integredig;
- Cyllid traddodiadol cymdeithasau tai; a
- Chyllido addasiadau trwy Drosglwyddo Gwirfoddol ar Raddfa Fawr.

2.9 Dosberthir addasiadau fel un o dri chategori at ddibenion dadansoddi:[17]

- Bach, e.e. gosod canllawiau cydio neu ganllawiau ar gyfer grisiau.
- Canolig, e.e. cawodydd heb ris i fynd i mewn iddynt, lifftiau grisiau, rampiau.
- Mawr, e.e. newidiadau strwythurol mawr i eiddo, gan gynnwys estyniadau.

2.10 Mae'r dadansoddiad yn seiliedig ar ffurflenni monitro gan asiantaethau Gofal a Thrwsio, cymdeithasau tai, gan gynnwys y cymdeithasau tai Trosglwyddo Gwirfoddol ar Raddfa Fawr, ac awdurdodau lleol. Roedd y set ddata lân yn cynnwys 30,236 o gofnodion a newidynnau, gan gynnwys y canlynol: demograffeg y derbynwyr; darparwr yr addasiad, y math, a'r gost/cyllid; amserlenni; canlyniadau a ragwelir; a boddhad cwsmeriaid.

2.11 Yn ychwanegol at y dadansoddiad yn ôl y ffrwd gyllido, dadansoddwyd y data yn ôl daearyddiaeth. Nid oedd yn bosibl cynnal y dadansoddiad daearyddol yn ôl ardal awdurdod lleol oherwydd bylchau yn y data a defnyddiwyd yr ardaloedd yr oedd cynlluniau Gofal a Thrwsio yn gweithio ynddynt yn lle.

2.12 Roedd sawl problem ynghlwm wrth y data, yn gyffredinol mewn perthynas â data coll, ac, yn arbennig, ni chafodd unrhyw ddata ei ddychwelyd gan gynghorau Pen-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudful a Wrecsam. Roedd yn bosibl cynnwys ardal awdurdod lleol Pen-y-bont ar Ogwr yn y dadansoddiad oherwydd bod data gan asiantaeth Gofal a Thrwsio a chymdeithasau tai ar gael ar gyfer Pen-y-bont ar

[17] Llywodraeth Cymru, 2020. Dadansoddiad Data Lefel Uchel ar addasiadau tai 2018-19

Ogwr, ond mae Merthyr Tudful a Wrecsam yn cael eu hepgor yn llwyr. O ganlyniad, mae hyn yn gyfyngiad ar y dadansoddiad yn ôl ardal awdurdod lleol ac yn ôl y ffrwd gyllido; bydd yn effeithio'n arbennig ar unrhyw ddadansoddiad sy'n cynnwys data ar ffrydiau cyllido Awdurdod Lleol (Grant Cyfleusterau i'r Anabl Gorfodol) ac Awdurdod Lleol (Arall).

2.13 Y gwelliant pwysicaf yn y data fyddai mynd i'r afael â bylchau yn y data. Y bwlch mwyaf arwyddocaol yw'r bwlch daearyddol; nid yw set ddata 2018/19 yn cynnwys maes ar gyfer lleoliad yr eiddo wedi'i addasu.

2.14 Nid oes unrhyw ffordd o fesur anabledd y gellir ei chymharu ag ystadegau'r Cyfrifiad ar gyfer problem iechyd neu anabledd hirdymor. Byddai cael ffordd addas o fesur anabledd yn caniatáu dadansoddiad cwbl gymaradwy o wariant yn ôl ardal awdurdod lleol, gan ddefnyddio cyfraddau anabledd safonol.

2.15 Yn yr un modd, nid oes data ar ethnigrwydd ar gael. O ystyried bod rhai cymunedau lleiafrifol yn cael eu cydnabod fel rhai sy'n cael eu heffeithio'n anghymesur gan ddiffyg mynediad at wasanaethau, byddai'n ddefnyddiol cymharu gwariant ar draws ethnigrwydd.

2.16 Yn ogystal â hyn, ni nodwyd ardaloedd trefol a gwledig i ganiatáu dadansoddiad cymharol o wariant yn ôl poblogaeth mewn ardaloedd gwledig a threfol. Byddai dadansoddiad o'r fath, gan ddefnyddio, er enghraifft, setiau data dienw a ddarperir gan LIC wedi'u codio i ardaloedd trefol neu wledig yn seiliedig ar godau post, yn helpu i nodi a oes unrhyw anghydraddoldeb o ran mynediad neu ddarparu addasiadau rhwng ardaloedd gwledig a threfol.

**Cyfweliadau manwl â defnyddwyr gwasanaethau**

2.17 Cynhaliwyd deunaw cyfweliad â defnyddwyr gwasanaethau i ddeall eu profiadau byw o gael addasiad tai. Y bwriad gwreiddiol oedd cynnal 20 cyfweliad, ond cwtogwyd ar yr elfen hon o'r ymchwil gan y pandemig COVID-19 wrth iddi ddod yn fwyfwy anodd i sefydliadau porth (megis TPAS Cymru, Anabledd Cymru a sefydliadau sy'n cynrychioli gofalwyr) gynnig cymorth gyda recriwtio.

2.18 Y bwriad gwreiddiol oedd rhoi 'cwotâu' ar y broses recriwtio er mwyn sicrhau cymysgedd union o gyfranogwyr ar draws y math o addasiad, y ffrwd gyllido, oedran a lleoliad daearyddol. Fodd bynnag, roedd sefyllfa COVID-19 yn golygu

bod hyn yn amhosibl ac felly dim ond y rhai a oedd yn gallu cymryd rhan y gallai'r tîm ymchwil eu cyfweld. Serch hynny, fel y dengys y tabl isod, roedd defnyddwyr gwasanaethau yn cynnwys cymysgedd o berchnogion tai, rhentwyr preifat a thenantiaid cyngor / landlord cymdeithasol cofrestredig wedi'u gwasgaru ledled Cymru. Roeddent yn amrywio o ran oedran a statws symudedd ac wedi derbyn cymysgedd o addasiadau bach, canolig a mawr.

| Nodwedd | Categori | Nifer y cyfranogwyr |
|---|---|---:|
| Math o addasiad | Bach | 6 |
| | Canolig | 7 |
| | Mawr | 5 |
| Ffrwd gyllido a ddefnyddiwyd | Grant Cyfleusterau i'r Anabl | 4 |
| | Grant Addasiadau Ffisegol | 3 |
| | Rhaglen Addasiadau Brys | 3 |
| | HWYLUSO | 3 |
| Oedran | 18-55 | 6 |
| | 56-64 | 3 |
| | 65-74 | 3 |
| | 75+ | 6 |
| Deiliadaeth | Yn eiddo i berchen-feddianwyr | 6 |
| | Tai rhent cymdeithasol (awdurdod lleol) | 5 |
| | Tai rhent cymdeithasol (landlord cymdeithasol cofrestredig) | 6 |
| | Tai rhent preifat | 1 |
| Lleoliad daearyddol | Canolbarth Cymru | 4 |
| | Gogledd Cymru | 6 |
| | De Cymru | 8 |

2.19 Parhaodd y cyfweliadau oddeutu 30 munud, a cheisiwyd casglu barn pobl am y canlynol:

- Gwneud cais am addasiad;
- Unrhyw grantiau a gawsant i osod yr addasiad;
- Y cymorth (os o gwbl) a gawsant trwy'r broses – ac unrhyw broblemau a gawsant wrth gyrchu'r cymorth hwnnw;
- Cael yr addasiad wedi'i osod;
- P'un a yw'r addasiad wedi helpu; a
- Sut, os o gwbl, y gallai'r broses o gael addasiad fod wedi'i gwella?

2.20 Atgynhyrchir y canllaw trafod yn Atodiad C.

**Gweithdai gyda rhanddeiliaid**

2.21 Er mwyn sicrhau bod yr ymchwil yn canolbwyntio ar atebion ac yn darparu awgrymiadau clir a gweithredadwy o ddangosyddion ar gyfer proses ddyrannu, cynhaliwyd dau weithdy gyda rhanddeiliaid i wirio synnwyr y themâu allweddol a'r cynigion ar gyfer dangosyddion i ddod i'r amlwg o'r ymchwil.

2.22 O ystyried y sefyllfa o ran COVID-19, cynhaliwyd y gweithdai ar-lein. Mynychodd deg y gweithdy cyntaf, a mynychodd deuddeg yr ail weithdy, o bob rhan o'r sefydliadau a restrir yn Atodiad D. Sicrhawyd y mynychwyr eu bod yn gwbl anhysbys.

2.23 Defnyddir dyfyniadau gair am air drwyddi draw, mewn llythrennau italig wedi'u mewnoli, am eu bywiogrwydd wrth nodi safbwyntiau. Gall y farn a fynegir gan gyfranogwyr gael ei chefnogi gan y dystiolaeth sydd ar gael ai peidio. Ni all y tîm ymchwil benderfynu ar gywirdeb barn pobl wrth ei hadrodd neu fel arall.

**Cynrychioldeb**

2.24 Dylid nodi na ellir ardystio dulliau ansoddol fel samplau barn sy'n gynrychioliadol yn ystadegol. Felly dylid ystyried canlyniadau'r cyfweliadau a'r gweithdai yr adroddir arnynt yma fel enghreifftiau o fyfyrdodau a barn ystod o bobl wybodus ar addasiadau tai yng Nghymru.

**Nodyn ar COVID-19**

2.25 Mae effaith y pandemig COVID-19 ar rai agweddau ar yr ymchwil hon, yn enwedig yr amserlen arfaethedig, wedi bod yn sylweddol.

2.26 Cyflwynwyd cyfyngiadau symud yn y Deyrnas Unedig ar 23 Mawrth 2020, ac erbyn y dyddiad hwn roedd ORS wedi cwblhau'r cam cwmpasu (yr adolygiad llenyddiaeth a'r cyfweliadau â rhanddeiliaid) ac wedi dechrau recriwtio ar gyfer y cyfweliadau â defnyddwyr gwasanaethau. Daeth y cam olaf, yn anffodus, yn amhosibl am sawl mis gan nad oedd yr asiantaethau porth yr oedd ORS yn dibynnu arnynt i ddarparu cyfranogwyr yn gallu cynorthwyo oherwydd pwysau ar adnoddau – ac fe ganslwyd sawl digwyddiad i hyrwyddo'r prosiect.

2.27 At hynny, er bod recriwtio wedi ailddechrau erbyn diwedd yr haf, roedd yr asiantaethau porth, yn ddealladwy, yn dal i fethu â chynnig cymaint o gymorth ag y byddent mewn amseroedd cyffredin, ac roedd y cwotâu defnyddwyr gwasanaethau penodol yr oedd ORS yn anelu atynt (o ran math o addasiad, ffrwd gyllido, oedran a lleoliad daearyddol) yn anghyraeddadwy. Serch hynny, fel y dangoswyd yn gynharach yn y bennod hon, roedd cymysgedd da o ddefnyddwyr gwasanaethau yn gallu cymryd rhan.

2.28 Nid oedd meysydd eraill yr ymchwil (y dadansoddiad o'r data a'r gweithdai rhanddeiliaid) yn cael eu heffeithio i raddau helaeth o safbwynt y fethodoleg, er bod rhaid cynnal yr olaf yn rhithiol yn hytrach nag wyneb yn wyneb fel y bwriadwyd yn wreiddiol. Roedd y brif effaith unwaith eto ar yr amserlen, yn enwedig gan mai bwriad y gweithdai oedd 'gwirio synnwyr' canfyddiadau'r ymchwil – ac felly roedd yn anochel bod oedi am fod i rannau eraill o'r prosiect, a oedd yn golygu bod y rhain yn cael eu cynnal yn llawer hwyrach na'r bwriad.

# 3. Canfyddiadau: Adolygiad llenyddiaeth

### Y prif ganfyddiadau

<u>Mae'r system bresennol ar gyfer dyrannu cyllid yn gymhleth ac yn annheg</u>

3.1 Mae consensws ar draws y llenyddiaeth a adolygwyd bod y system addasiadau tai yn gymhleth, yn adweithiol, yn aneffeithlon ac yn annheg. Cyfeirir yn benodol at y gwahanol bwyntiau mynediad trwy amrywiol ffrydiau cyllido (a meini prawf a safonau gwasanaeth cysylltiedig), sy'n arwain at bobl ag anghenion tebyg yn derbyn gwahanol safonau gwasanaeth oherwydd ble maent yn byw a phwy sy'n darparu'r addasiad – y 'loteri cod post' y cyfeirir ato'n aml.

3.2 Fodd bynnag, cynigir safbwynt arall gan Bibbings ac eraill, (2015), a awgrymasant, wrth amlinellu cymhlethdod y system aml-ffrwd, fod hyn yn adlewyrchiad anochel o'r ffaith bod tai a'r ffordd y mae'r sector yn cael ei gyllido yn gynhenid gymhleth. Mae'r awduron hefyd yn nodi bod bodolaeth ffrydiau cyllido niferus yn fuddiol gan ei bod yn lleddfu pwysau ar draws y system addasu.

<u>Ystyrir mai'r Grant Cyfleusterau i'r Anabl yw'r ffrwd gyllido fwyaf problemus</u>

3.3 Ymddengys mai'r Grant Cyfleusterau i'r Anabl yw'r ffrwd gyllido mwyaf problemus: fe'i disgrifir fel "*proses hir a chymhleth*" (Bibbings ac eraill, 2015, t.43). Nodir biwrocratiaeth ormodol ac amserlenni hir fel problemau penodol (Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, 2018; Bibbings ac eraill, 2015) – ac, mewn rhai achosion, mae oedi yn cael ei achosi gan y terfyn o £36,000 ar gyfer Grant Cyfleusterau i'r Anabl, gan fod rhaid i unigolion ddod o hyd i gyllid ychwanegol ar gyfer addasiadau mawr (Swyddfa Archwilio Cymru, 2018). Mae'n werth nodi i'r materion hyn gael eu codi 15 mlynedd yn ôl yn Adolygiad Jones (2005), lle disgrifiwyd y ddeddfwriaeth ynghylch y Grant Cyfleusterau i'r Anabl a'r prosesau a systemau gweinyddol sy'n deillio ohoni fel "*cymhleth iawn*".

3.4 Mae sawl ffynhonnell yn awgrymu y byddai proses y Grant Cyfleusterau i'r Anabl yn gweithio'n fwy effeithiol ac effeithlon pe bai'n cael ei modelu'n fwy ar system 'garlam' y Grant Addasiadau Ffisegol. Yn wir, disgrifir y Grant Addasiadau Ffisegol fel grant syml, cyflym, ymatebol ac effeithiol sy'n canolbwyntio ar yr

unigolyn (Bibbings ac eraill, 2015) – er bod Swyddfa Archwilio Cymru (2018) yn nodi rhai problemau gyda phrosesau cymeradwyo Llywodraeth Cymru yn gohirio cymdeithasau tai sy'n cyflwyno Grantiau Addasiadau Ffisegol, yn enwedig ar gyfer gwaith mwy, y mae angen ei gymeradwyo cyn dechrau'r gwaith.

3.5 O ran ffrydiau cyllido eraill, disgrifiodd 'Adolygiad Jones' 2005 y Rhaglen Addasiadau Brys fel un "*hynod lwyddiannus*" wrth ddarparu mân addasiadau ac atgyweiriadau bach yn gyflym ac yn effeithiol, gan arwain at y canlynol: pobl yn dychwelyd adref o'r ysbyty ac o ofal yn amserol; atal derbyniadau ac aildderbyniadau; a hwyluso gwaith partneriaeth agosach rhwng darparwyr gwasanaeth yn y gwahanol sectorau hyn (Jones, 2005). Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod y rhain yn addasiadau gwerth cymharol isel ac felly na ellir eu cymharu'n uniongyrchol â Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl neu'r mwyafrif o Grantiau Addasiadau Ffisegol.

3.6 Yn galonogol, mae'r system Rhaglen Addasiadau Brys yn dal i gael ei hystyried yn syml, yn effeithiol, yn un sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn gyflym iawn, gyda gwaith bach yn cael ei gwblhau mewn hyd at wyth diwrnod trwy'r cynllun llwybr carlam – ac amcangyfrifir y bydd yn arwain at £7.50 mewn arbedion ar gyfer y GIG a gwasanaethau gofal cymdeithasol am bob £1 sy'n cael ei wario (Bibbings ac eraill, 2015).

<u>Mae'r prif anghydraddoldebau yn ôl deiliadaeth, ond mae gwahaniaethau daearyddol hefyd</u>

3.7 Mae anghysondebau sylweddol o ran mynediad at addasiadau tai a'u cyflawniad rhwng asiantaethau ac ardaloedd daearyddol (Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru,[18] 2018; Zhou, 2019). Er enghraifft, mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (2018) yn nodi ystod eang o arferion ymhlith awdurdodau lleol ar sut mae addasiadau cost mawr a bach yn cael eu cyflwyno i denantiaid, gan arwain at wahanol lefelau o wasanaeth rhwng ardaloedd.

3.8 Cyfeirir yn benodol, serch hynny, at annhegwch yn ôl deiliadaeth yn y llenyddiaeth. Yn benodol, mae'n ymddangos bod gan denantiaid landlordiaid

[18] Cyfeirir ato heddiw fel Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Senedd.

cymdeithasol cofrestredig fynediad llawer haws at gyllid, costau is, ac amseroedd aros cryn dipyn yn fyrrach na'r rheini mewn perchen-feddiannaeth, llety awdurdodau lleol, ac, yn enwedig, y sector rhentu preifat (Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, 2018; Swyddfa Archwilio Cymru, 2018; Bibbings ac eraill, 2015; Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2009; Jones, 2005).

3.9 Yn wir, mae'r sector rhentu preifat yn fater penodol: mae tenantiaid yn amharod i ofyn i landlordiaid am addasiadau oherwydd diffyg gwybodaeth ar y ddwy ochr am gyllid a phrosesau, dryswch ynghylch pwy sy'n gyfrifol am gynnal yr addasiad, hyblygrwydd yr awdurdod lleol o gwmpas meini prawf asesu'r Grant Cyfleusterau i'r Anabl, ac ofn dros gael eu hystyried yn denant 'trafferthus' (Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, 2018). Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (2018) yn awgrymu bod cyfle i fynd i'r afael â hyn yng Nghymru trwy'r cynllun trwyddedu sector preifat,[19] lle gellid hyrwyddo'r cynlluniau cyllido ar gyfer addasiadau a'u buddion i landlordiaid.

3.10 Mae'r llenyddiaeth hefyd yn amlinellu anghydraddoldebau pellach i denantiaid Trosglwyddo Gwirfoddol ar Raddfa Fawr, gan fod eu anghymhwystra i gael cyllid Grant Addasiadau Ffisegol yn golygu bod rhaid iddynt ddibynnu naill ai ar gyllid eu landlordiaid eu hunain neu wneud cais am Grant Cyfleusterau i'r Anabl (Bibbings ac eraill, 2015; Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2009), ac mae Swyddfa Archwilio Cymru (2018) yn adrodd anghysondebau a bylchau yn yr ystod, y manylder, ac yn ansawdd y wybodaeth a'r cyngor, yn enwedig o ran hawl a newidiadau i'r meini prawf cymhwysedd, sydd ar gael iddynt.

3.11 At hynny, nid yw cymdeithasau tai Trosglwyddo Gwirfoddol ar Raddfa Fawr wedi'u cynnwys yng ngwaith adolygu HWYLUSO hyd yma (sy'n ceisio gwella goruchwyliaeth ar berfformiad a gwariant awdurdodau lleol a chymdeithasau tai), gan atgyfnerthu anghysondebau ac arwain at safonau gwasanaeth gwahanol, fel arfer yn dlotach, ar gyfer tenantiaid Trosglwyddo Gwirfoddol ar Raddfa Fawr (Swyddfa Archwilio Cymru, 2018; Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2018).

[19] Rhentu Doeth Cymru

Mae anghydraddoldeb ar sail deiliadaeth yn cael ei gymhlethu trwy gynnal prawf modd (neu 'brawf adnoddau') – ond mae barn gymysg ynghylch a ddylid ei ddileu

3.12 Mae'r ffaith bod cyllid y Grant Cyfleusterau i'r Anabl yn destun prawf modd (gyda therfyn grant uchaf o £36,000), ond nad yw'r Grant Addasiadau Ffisegol, yn golygu bod y rhai ag anghenion tebyg yn derbyn ymatebion gwahanol yn dibynnu ar eu deiliadaeth (Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, 2018). Yn y bôn, mae cynnwys prawf modd ym mhroses y Grant Cyfleusterau i'r Anabl yn rhoi'r rheini sy'n gwneud cais ar hyd y llwybr hwn dan anfantais o'u cymharu â'r rhai sy'n defnyddio'r opsiynau cyllido eraill sydd ar gael (Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2018). At hynny, mae'r cymhlethdod, y natur ymwthiol, a'r oedi sy'n gysylltiedig â'r broses profi modd ei hun unwaith eto yn gosod y rhai sy'n gwneud cais am Grant Cyfleusterau i'r Anabl dan anfantais o'u cymharu â'r rhai sy'n cyrchu ffrydiau cyllido eraill nad ydynt yn cynnwys cynnal prawf modd (Swyddfa Archwilio Cymru, 2018; Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2018; Bibbings ac eraill, 2015).

3.13 Gall cynnal profion modd hefyd fod yn aneffeithiol o ran y gost gan fod diffyg cysondeb ymhlith darparwyr o ran yr hyn sy'n cael ei ddosbarthu fel addasiad bach neu fawr. O'r herwydd, mae rhai addasiadau llai yn cael eu cyflawni trwy broses y Grant Cyfleusterau i'r Anabl, ac felly maent yn destun prawf modd (sy'n ddrud i'w weinyddu) ac oedi (Bibbings ac eraill, 2015; Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2018).

3.14 Er hyn, mae Bibbings ac eraill, (2015) yn tynnu sylw at rywfaint o wahaniaeth barn ynghylch diddymu'r prawf modd ar gyfer Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl. Mae rhai'n credu y byddai'n well gwario gwariant Grant Cyfleusterau i'r Anabl ar gyflawni addasiadau yn hytrach na thalu'r costau gweinyddu, ac y byddai dileu'r prawf modd yn arwain at ganlyniadau tecach ar draws pob math o ddeiliadaeth. Mae Bibbings ac eraill (2015) hefyd yn tynnu sylw at bryderon ynghylch cynnydd posibl yn y galw a phwysau cyllidebol dilynol.

3.15 Serch hynny, mae cytundeb cyffredinol y dylai addasiadau bach a allai fod ar lefel ganolig fod ar gael heb fod angen cynnal prawf modd, y dylid ei gadw ar

gyfer gwaith cymhleth fel addasiadau – awgrym a wnaed gyntaf yn Adolygiad Jones 2005. At hynny, lle mae profion modd yn parhau, cytunir y dylid adolygu a mireinio'r broses yn ofalus i fynd i'r afael â'i gor-gymhlethdod a sicrhau ei bod yn ystyried costau byw yn ychwanegol at asedau ac incwm (Munro, 2019; Bibbings ac eraill, 2015).

3.16 Yn wir, mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn adroddiad Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol 2018, a chan Lywodraeth Cymru yn ei hawgrym sy'n nodi, lle mae angen addasiadau, y dylai darparwyr gwasanaethau sicrhau eu bod yn addas at y diben trwy gynnwys y defnyddiwr terfynol yn y broses ddylunio a'r broses gwneud penderfyniadau (Llywodraeth Cymru, 2019).

Mae ailgynllunio'r system ar y gweill – ond mae safbwyntiau cymysg ar ffrwd gyllido sengl

3.17 O ran lleihau'r fiwrocratiaeth sy'n gysylltiedig â chyrchu addasiadau bach yn benodol, mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn ei bod yn bosibl ymgymryd ag addasiadau ar raddfa fach a chanolig heb greu prosesau cymeradwyo cymhleth a rhy fiwrocrataidd (Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2018) – ac mae gwaith ar y gweill trwy raglen HWYLUSO Llywodraeth Cymru i gyflwyno safonau ac amseroedd aros mwy teg yn seiliedig ar lefel yr addasu yn hytrach na'r grant sydd ei angen.

3.18 Er bod cymorth mewn rhai mannau i ddatblygu cyllideb gyfun sengl ar gyfer addasiadau tai ledled Cymru i fynd i'r afael â'r materion yr adroddwyd arnynt uchod, mae Bibbings ac eraill, (2015) yn nodi, er y gallai hyn ymddangos fel yr ateb symlaf, ei bod yn debygol y byddai'n ymgymeriad cymhleth a drud ac yn un na fyddai'n arwain at ganlyniadau gwell i ddefnyddwyr gwasanaethau. Yn hytrach, byddai tebygolrwydd cryf o 'atalfeydd', amseroedd aros hirach i lawer (tenantiaid landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn benodol), a chyllidebau is i rai darparwyr.

3.19 Mae pryder hefyd y gallai newidiadau o'r natur hon gael effaith negyddol ar y rhannau hynny o'r system gyffredinol sy'n gweithio'n dda ar hyn o bryd. Er enghraifft, gallai creu system sengl gynnwys gorfodi profion modd ar addasiadau a gyrchir trwy'r Grant Addasiadau Ffisegol ar hyn o bryd (oni bai fod y prawf

modd yn cael ei ddiddymu'n llwyr, ac mae'n bosib na fydd awdurdodau lleol yn croesawu hynny). Yn wir, mae'n bryder y gallai unrhyw system unedig newydd adlewyrchu proses y Grant Cyfleusterau i'r Anabl, yn hytrach na'r Grant Addasiadau Ffisegol, sy'n ymddangos yn fwy ymatebol (Bibbings ac eraill, 2015).

Mae Safonau Gwasanaeth Llywodraeth Cymru yn gyflwyniad i'w groesawu

3.20 Mae'r materion yr adroddir arnynt yn y bennod hon yn rhai hirsefydlog nad yw Llywodraeth Cymru a chyrff cyflenwi wedi mynd i'r afael â hwy eto (Swyddfa Archwilio Cymru, 2018). Fodd bynnag, gwnaed rhywfaint o gynnydd yn ddiweddar: er enghraifft, awgrymodd adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru 2018 ac ymchwiliad Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'w ganfyddiadau y byddai safonau gwasanaeth cenedlaethol yn helpu i oresgyn rhai o'r amrywiadau a amlinellir uchod, ac y byddai'n sicrhau bod pobl anabl a phobl hŷn yn derbyn yr un safon o wasanaeth waeth ble maen nhw'n byw, pwy yw eu landlord, a ph'un ai ydyn nhw'n berchen ar eu cartref eu hunain ai peidio. Cyflwynwyd y rhain gan Lywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2019,[20] a gwelwyd bod ganddynt y potensial i sefydlu fframwaith cadarn, tryloyw a mesuradwy ar gyfer cyflwyno addasiadau (Munro, 2019).

3.21 Mae adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru (2018) yn trafod y mater o ddangosyddion perfformiad allweddol yn ehangach ac yn eithaf manwl. Mae'n awgrymu mai bodolaeth ystod fach yn unig o ddangosyddion cenedlaethol yr adroddir arnynt yn gyhoeddus sy'n cwmpasu gwaith awdurdodau lleol wrth ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl (yn benodol, yr amser a gymerir ar gyfartaledd, nifer y Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl a gwblhawyd yn ôl deiliadaeth, a'r swm a dreuliwyd yn y flwyddyn ariannol) yn cyflwyno darlun rhannol yn unig o wariant a pherfformiad – sy'n golygu nad yw'n bosibl gwerthuso a deall perfformiad neu effeithiolrwydd asiantaethau unigol yn llawn, nac effeithlonrwydd ac effaith y system addasu 'gyfan'. Er enghraifft, nid oes unrhyw ddangosyddion perfformiad a adroddir yn genedlaethol ar gymdeithasau tai ar gyfer cyflawni Grantiau Addasiadau Ffisegol, ac er bod Llywodraeth Cymru yn derbyn

[20] Llywodraeth Cymru, 2019. Safonau Gwasanaeth ar gyfer Addasiadau Tai.

gwybodaeth am berfformiad asiantaethau Gofal a Thrwsio mewn perthynas â'r Rhaglen Addasiadau Brys, ni chyhoeddir y wybodaeth hon. Yn y bôn, mae cael y dangosyddion perfformiad cywir ac adrodd ar berfformiad yn eu herbyn yn rheolaidd yn bwysig i gyrff cyhoeddus reoli perfformiad gweithredol, nodi meysydd i'w gwella, a gwerthuso effaith gadarnhaol addasiadau ar fywydau buddiolwyr (Swyddfa Archwilio Cymru, 2018).

3.22 Un mater olaf i'w nodi o ran dangosyddion perfformiad yw'r un a godwyd gan Bibbings ac eraill, (2015), sy'n dweud bod y ffordd y mae'r amser a gymerir i gwblhau proses addasu yn cael ei fesur yn wahanol rhwng ardaloedd, sy'n arwain at amseroedd aros amrywiol iawn. Yr amrywiad mwyaf cyffredin yw rhwng mannau cychwyn, gyda rhai darparwyr yn nodi cychwyn y gwaith adeg yr ymholiad cyntaf (yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru) ac eraill ond yn gwneud hynny ar ôl derbyn argymhelliad gan y therapydd galwedigaethol. Wrth wneud yr olaf o’r ddau, mae’r oedi a berir gan therapyddion galwedigaethol yn cael ei guddio ac mae'r amseroedd cyflawni yn edrych yn well nag y maent mewn gwirionedd.

Mae'n ymddangos bod y ddarpariaeth wybodaeth ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau yn wael

3.23 Disgrifiodd ‘Adolygiad Jones’ 2005 ac adroddiad ‘Yn Dal i Aros’ Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2009 ansawdd y wybodaeth a’r cyngor a gynigir i ddefnyddwyr gwasanaethau am addasiadau a sut i lywio’r system fel darpariaeth “*wael*”. Mae sawl ffynhonnell fwy diweddar yn adrodd yr un diffyg gwybodaeth ynghylch prosesau asesu, cymhwysedd, amseroedd aros ac ati. (Munro, 2019; Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol, 2019; Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, 2018; Bibbings ac eraill, 2015). Yn bwysig, gall y diffyg gwybodaeth hwn wneud i bobl beidio gwneud cais am gymorth gan eu bod yn tybio ‘nad oes arian’ ar gael ar gyfer yr help sydd ei angen arnynt (Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, 2018).

3.24 Problemau penodol yw bod y wybodaeth sydd ar gael yn gwyro tuag at bobl hŷn neu'r rheini ag anabledd corfforol amlwg (gan awgrymu nad yw pobl iau a'r rheini â nam/anableddau ‘cudd’ neu faterion iechyd meddwl yn cael eu hystyried yn

fuddiolwyr posib), ac yn aml mae'r wybodaeth yn gymhleth ac yn anhygyrch i'r rhai nad ydyn nhw'n adnabod ‘y system’ (Bibbings ac eraill, 2015). Ar ben hynny, ymddengys bod diffyg cymorth cyfathrebu neu wybodaeth a chyngor mewn fformatau amgen (ar gyfer y rhai â nam ar y synhwyrau, er enghraifft) yn brin (Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, 2018; Swyddfa Archwilio Cymru, 2018).

3.25 O ran ymarferoldeb gwneud cais, ystyrir bod y ffurflenni ar gyfer gwneud hynny'n gymhleth, mater y cyfeirir ato'n arbennig yn adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru 2018, sy'n nodi amrywiaeth eang o systemau a phrosesau, nad yw llawer ohonynt yn diwallu anghenion.

<u>Mae oediadau i brosesau yn gyffredin oherwydd pwysau ar adnoddau, ond mae rhywfaint o arfer da yn bodoli</u>

3.26 Yn aml, mae oedi wrth dderbyn addasiadau tai, yn bennaf oherwydd pwysau ar therapyddion galwedigaethol, sy'n arwain at arosiadau hir am asesiadau (Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol, 2019; Swyddfa Archwilio Cymru, 2018; Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, 2018; Bibbings ac eraill, 2015). Mae'r sefyllfa hon wedi codi'n rhannol oherwydd bod deddfwriaeth sy'n ymwneud â chyllido addasiadau mawr wedi'i chamddehongli fel un sy'n ddibynnol ar asesiad ac argymhelliad gan therapydd galwedigaethol (Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol, 2019).

3.27 Gellid goresgyn y mater hwn trwy sgrinio'r defnyddwyr gwasanaethau ar ddechrau’r broses i bennu'r angen am fewnbwn gan therapydd galwedigaethol – neu drwy ddefnyddio gweithwyr cymorth wedi'u recriwtio, eu hyfforddi a'u goruchwylio'n briodol, cynorthwywyr therapi galwedigaethol ac aseswyr dibynadwy lle bo hynny'n bosibl ar gyfer mân addasiadau i leihau oedi a gofynion ar y gwasanaeth therapi galwedigaethol (Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol, 2019; Swyddfa Archwilio Cymru, 2018; Bibbings ac eraill, 2015; Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2009). Serch hynny, gofynnir hyn am ganllawiau sydd wedi'u cyhoeddi'n well ynghylch y gwahaniaeth rhwng materion syml a sefyllfaoedd cymhleth sydd angen arbenigedd therapydd galwedigaethol (Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol, 2019).

3.28 Mae therapyddion galwedigaethol eu hunain wedi nodi oediadau a achoswyd gan rai cymdeithasau tai yn cwestiynu'r angen i addasu ac yn aml yn oedi neu'n gwrthod caniatâd. Maent hefyd yn nodi'r pryderon cynyddol am y cynnydd yn yr amser y mae sefydliadau cyflenwi yn ei gymryd i brosesu ceisiadau, yn aml oherwydd pwysau ariannol a llai o staff. At ei gilydd, eu profiad yw bod awdurdodau lleol wedi sefydlu systemau a phrosesau mwy effeithiol i gyflawni addasiadau tai na'r rhai a ddefnyddir gan y mwyafrif o gymdeithasau tai (Swyddfa Archwilio Cymru, 2018).

3.29 Cydnabyddir bod cyflawni gwasanaethau ac arfer da hefyd yn gwella pan fydd timau cyflawni amlddisgyblaethol yn gweithio gyda'i gilydd mewn ffordd integredig (Swyddfa Archwilio Cymru, 2018; Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, 2018; Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2018). Er enghraifft, gwelwyd gwelliannau mewn amseroedd aros ar gyfartaledd lle mae gan adrannau tai eu therapyddion galwedigaethol eu hunain (Bibbings ac eraill, 2015; Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2009). Fodd bynnag, dim ond nifer fach o awdurdodau lleol sydd wedi datblygu dulliau integredig o addasu addasiadau tai, gan dynnu ynghyd grantiau, syrfewyr adeiladu a therapyddion galwedigaethol i dimau sengl (Swyddfa Archwilio Cymru, 2018).

3.30 Dyma rai enghreifftiau eraill o arfer da: defnyddio contractwyr dibynadwy neu gytundebau fframwaith i leihau oedi wrth gyflawni a sicrhau arbedion trwy ddarbodion maint; cyflawni'r gwaith yn fewnol i gadw gwell rheolaeth dros y broses; defnyddio unigolion penodol i wirio a yw'r gwaith yn cael ei gwblhau'n briodol, a defnyddio ‘swyddogion achos’ i weithio gyda gwahanol asiantaethau ac adrannau i sicrhau bod ceisiadau’n cael eu ‘tynnu’ drwy’r system; a chategoreiddio rhai addasiadau (megis codwyr trac nenfwd) fel offer fel y gellir eu prosesu'n gyflym heb unrhyw brawf modd (Swyddfa Archwilio Cymru, 2018; Bibbings ac eraill, 2015).

<u>Mae cofrestrau o’r eiddo a addaswyd yn ddymunol ond yn brin</u>

3.31 Amlygodd Chris Jones, yn ei adolygiad yn 2005, ei bod yn ddymunol i ddarparwyr gynnal cofrestrau effeithiol o’r eiddo a addaswyd, a chynlluniau cyfatebol, er mwyn sicrhau bod pobl yn cael eu hailgartrefu'n briodol ac yn

foddhaol, ac i sicrhau arbedion sylweddol o fewn cyllidebau addasu tai. Fodd bynnag, ar adeg yr adolygiad hwn, roedd datblygiad a defnydd cofrestrau a chynlluniau o'r fath yn isel.

3.32 Mae adolygiadau mwy diweddar yn dangos bod hyn yn dal i fod yn wir i raddau, gyda rhai ardaloedd yng Nghymru yn dal heb gofrestr tai hygyrch sy'n gweithredu'n llawn. O ganlyniad i hyn, mae darparwyr yn dileu addasiadau (y gallai tenant newydd ag anghenion cyfatebol eu defnyddio o bosibl) yn gyflym pan fydd eiddo yn dod yn wag er mwyn sicrhau bod tai ar gael ar gyfer anghenion cyffredinol ac i atal unedau gwag. Mae hyn yn arwain at aneffeithlonrwydd gan na all systemau dyrannu gyfateb yr argaeledd i'r angen yn effeithiol (Bibbings ac eraill, 2015; Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, 2018).

3.33 Serch hynny, yn galonogol, mae'r darlun yng Nghymru yn fwy cadarnhaol na rhannau eraill o'r DU: ledled y DU, dim ond 22% o awdurdodau lleol sydd â chofrestr tai hygyrch. Fodd bynnag, yng Nghymru, lle mae Llywodraeth Cymru wedi annog datblygu cofrestrau tai hygyrch, mae gan 52% o awdurdodau lleol un ar waith (Munro, 2019, yn dyfynnu Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, 2018). Ar ben hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi mynegi ei bwriad i weithio gyda'r sector tai, pobl anabl a rhanddeiliaid eraill i gydgynhyrchu safon ar gyfer cofrestrau tai hygyrch a fydd yn "*hwyluso gwell dealltwriaeth o lefel bresennol datblygiad cofrestrau yng Nghymru trwy ddarparu diffiniad, wedi'i ategu gan set o egwyddorion, y gellir ei ddefnyddio i asesu a mesur cynnydd ar lefel leol a chenedlaethol*" (Llywodraeth Cymru, 2019).

<u>Yn hanesyddol, mae casglu data ar effeithiau a chanlyniadau wedi bod yn wael, ond mae'n gwella</u>

3.34 Yn hanesyddol, bu casglu ac adrodd ar ddata ynghylch effeithiolrwydd addasiadau tai yng Nghymru yn wael, gan arwain at anallu i alluogi cymariaethau rhwng ffrydiau cyllido, deall amrywiannau yn y ddarpariaeth, craffu ar berfformiad, ac archwilio effeithiau ar ddefnyddwyr gwasanaethau (Bibbings ac eraill, 2015; Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2018; Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2009; Jones, 2005).

3.35 Mae Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru – yn yr adroddiad ar ei ymchwiliad i ganfyddiadau adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru 2018 – hefyd yn nodi, er gwaethaf y gwahanol ffynonellau cyllid amrywiol ar gyfer addasiadau tai, mai dim ond ystod fach o ddangosyddion perfformiad cenedlaethol a adroddir yn gyhoeddus. Er bod trafodaethau wedi'u cynnal ar rinweddau gwerthuso effaith yn well, mae'r pwyllgor hefyd yn pryderu nad yw Llywodraeth Cymru wedi cymryd unrhyw gamau i fwrw ymlaen â hyn.

3.36 O ran gwelliannau i gasglu ac adrodd ar ddata, credwyd bod adolygiad HWYLUSO Llywodraeth Cymru (a gyflwynwyd ym mis Ionawr 2017) wedi dechrau gwella hyn mewn perthynas â chasglu gwybodaeth safonol (Swyddfa Archwilio Cymru, 2018).

3.37 Fodd bynnag, cydnabyddir bod cyfyngiadau, yn enwedig mewn perthynas â'r mesurau yr adroddir amdanynt o ran peidio â chanolbwyntio ar yr ardaloedd cywir. Yn benodol, mae monitro'n parhau i ganolbwyntio'n bennaf ar ddulliau cyflwyno addasiadau (er eu bod yn amlwg yn bwysig) ac nid yw'n canolbwyntio digon ar effeithiau a buddion. Yn ogystal â hyn, ni chaiff data cydraddoldeb ei gasglu'n ddigon eang i arddangos a sicrhau mynediad teg i wasanaethau. At hynny, mae cyrff cyflenwi nad ydynt yn cyflwyno gwybodaeth ac sy'n darparu data anghyflawn yn parhau i fod yn broblem – gan ei gwneud yn amhosibl i farnu'n llawn a yw'r system rheoli perfformiad ac adrodd newydd yn addas at y diben (Swyddfa Archwilio Cymru, 2018; Pwyllgor Cfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2018).

3.38 O ran mesur effaith, mae adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru yn nodi bod *"boddhad defnyddwyr ag addasiadau tai yn cuddio system hynod gymhleth, adweithiol ac annheg nad yw'n darparu ar gyfer pawb a allai fod ei hangen"* (Swyddfa Archwilio Cymru, 2018, t.7). Yn benodol, mae'r adroddiad yn nodi, er bod pwysigrwydd addasiadau tai i alluogi pobl anabl a phobl hŷn i fyw'n annibynnol ac i atal galw am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn cael ei gydnabod yn eang, fod gwerthusiad cadarn o'r buddion ehangach a hirdymor hyn yn sgil addasiadau yn brin. Hyd yn oed pan gynhelir arolygon boddhad yn dilyn addasiadau, fe'u cynhelir fel arfer ar yr adeg y cwblhawyd y gwaith adeiladu ffisegol, ac felly nid ydynt yn caniatáu ystyriaeth lawn o fuddion y gwaith o ran

annibyniaeth, llesiant, gostyngiadau mewn damweiniau neu gwympiadau, a mwy o annibyniaeth. Yn hynny o beth, mae llawer o gyfyngiadau o hyd ar ddefnyddio data i farnu perfformiad a chefnogi gwneud penderfyniadau yn y dyfodol mewn perthynas ag addasiadau (Swyddfa Archwilio Cymru, 2018).

3.39 Mae Bibbings ac eraill (2015) yn cefnogi ffordd o weithio sy'n seiliedig ar ganlyniadau i sicrhau effeithiau hirdymor cynaliadwy a mesuradwy – ac yn yr ystyr bod canlyniadau cadarnhaol yn cael eu hystyried yn bwysicach i ddefnyddwyr gwasanaethau nag amseroedd cyflawni, gallai fod yn ddoeth ategu data ar amseroedd cyflawni â mesurau sy'n canolbwyntio ar gleientiaid, yn seiliedig ar ganlyniadau, megis data boddhad cwsmeriaid a/neu wybodaeth ansoddol ar effaith addasiadau ar fywydau ymgeiswyr. Ar ben hynny, mae Grŵp Arbenigol Llywodraeth Cymru ar Ddarparu Tai ar gyfer Poblogaeth sy'n Heneiddio (2017) yn cefnogi'n gryf ddatblygu dangosyddion perfformiad mwy cynhwysfawr sy'n cydnabod y pwysigrwydd y gall addasiadau hyd yn oed ar raddfa fach ei wneud i ansawdd bywyd unigolyn.

<u>Mae cydweithredu a chydweithio yn hanfodol, ond yn afreolaidd</u>

3.40 Yn gyffredinol, mae darparwyr a rhanddeiliaid eraill yn glir ynghylch darparu canlyniadau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn trwy ddull mwy integredig a chydweithredol o asesu, dylunio a gosod addasiadau (Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol, 2019).

3.41 Fodd bynnag, ar hyn o bryd mae gweithio mewn partneriaeth – yn enwedig ar draws y sectorau tai, iechyd a gofal cymdeithasol – yn cael ei ystyried yn aneffeithiol i fynd i'r afael â'r angen, gyda gormod o sefydliadau'n gweithio ar wahân ar eu cyfrifoldebau unigol, yn hytrach na chydweithio'n strategol i fynd i'r afael â gofynion tai a iechyd pobl yn well (Swyddfa Archwilio Cymru, 2018). At hynny, mae adroddiad Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2018) yn cyfeirio at bwysigrwydd Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol wrth fwrw ymlaen ag integreiddio gwaith yn y meysydd hyn, ond mae hefyd yn nodi canfyddiad nad yw Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn aml yn cydnabod nac yn gwerthfawrogi gwaith sefydliadau tai a thrydydd sector, ac felly maent yn colli

cyfleoedd i integreiddio gwasanaethau a sicrhau'r buddion mwyaf posibl i ddefnyddwyr gwasanaethau.

Mae cysondeb yn allweddol i wella'r dyfodol

3.42 Mae Bibbings ac eraill, (2015) yn dadlau mai'r ystyriaeth bwysicaf wrth symud ymlaen yw gwella cysondeb y broses addasu (o ran profion modd, darparu gwybodaeth ac amseroedd aros) ar draws ardaloedd daearyddol a math o ddeiliadaeth fel y gall pawb sy'n derbyn gwasanaethau addasu ddisgwyl lefelau tebyg o wasanaeth.

3.43 Yn benodol, mae Bibbings ac eraill (2015) hefyd yn dweud y bydd sefydlu diffiniad cytunedig o beth yn union yw addasiadau bach, canolig a mawr yn helpu i greu mwy o degwch a chysondeb, a bydd yn arwain at gasglu data dangosyddion perfformiad mwy ystyrlon, ni waeth pa atebion polisi neu fodelau newid eraill sy'n cael eu mabwysiadu. Y gobaith yw y bydd y camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru hyd yn hyn i adolygu a gwella'r system addasu cartrefi – yn enwedig lansio'r cynllun HWYLUSO – yn cyflawni hyn wrth drefnu grantiau yn ôl y math o gymorth neu fath o addasiad – bach, canolig neu fawr – waeth beth yw'r ddeiliadaeth tai (Munro, 2019).

Rhaid i addasiadau tai barhau i fod yn flaenoriaeth wleidyddol

3.44 Yn olaf, mae tystiolaeth yn dangos bod Llywodraeth Cymru wedi gwneud gwasanaethau addasu yn flaenoriaeth wleidyddol uwch na Lloegr a'r Alban yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac wedi darparu lefel uwch o gyllid tuag atynt. Er enghraifft, darparwyd cyllid gwerth £2,212,500 i bob awdurdod lleol yng Nghymru yn 2014/15, mewn cyferbyniad â £723,650 i bob awdurdod lleol yn Lloegr a £687,544 yn yr Alban (Zhou, 2018).

# 4. Canfyddiadau: Dadansoddiad o'r gwariant

## Cyflwyniad

4.1 Mae'r dadansoddiad hwn yn canolbwyntio ar ba mor dda y mae pob ffrwd gyllido yn bodloni’r diben y mae wedi'i chynllunio ar ei gyfer trwy gyflwyno ystadegau ar gyfer ystod o ddangosyddion posibl i bob ffrwd gyllido. Cyn ystyried y canlyniadau hynny, rydym yn cyflwyno gwybodaeth gefndirol gryno am wariant ledled Cymru yn ôl ardal yr awdurdod lleol. Dilynir hyn gan dabl cryno o ba mor dda y mae ffrydiau cyllido yn cyflawni eu nodau datganedig yn erbyn nifer fach iawn o fetrigau a ddetholwyd ac yna dadansoddiad manylach o'r ffrydiau cyllido.

4.2 Mae'r dadansoddiad manwl o'r ffrydiau cyllido mewn tair adran:

- Costau ar draws yr ardaloedd awdurdod lleol diffiniedig
- Costau yn ôl y ffrwd gyllido
- Costau yn ôl categori maint, yn ôl darparwr, yn ôl grŵp oedran, i nodi nodweddion addasiadau a derbynwyr yn ôl y ffrwd gyllido.

4.3 Mae crynodeb o'r canlyniadau sy'n defnyddio pedwar dangosydd i asesu pa mor dda y mae pob ffrwd gyllido yn cyflawni'r nodau a nodwyd ganddi wedi'i gynnwys yn Atodiad G.

4.4 Dylai'r dadansoddiad gael ei gyd-destunoli yn ôl pwrpas pob ffrwd gyllido gan fod hwn yn pennu i raddau helaeth faint o arian a ddyrennir trwy bob ffrwd gyllido, nifer yr addasiadau, maint yr addasiadau, a faint o amser y maent yn ei gymryd i'w cwblhau. Mae ffactorau allanol, fel sefyllfaoedd teuluol, hefyd yn effeithio ar gyflawni rhai ffrydiau cyllido yn fwy nag eraill; gall amseriad addasiadau mawr gael ei effeithio gan amgylchiadau teuluol sy'n annhebygol o effeithio ar addasiadau bach.

**Categorïau addasu**

4.5 Mae cost yr addasiadau, ynghyd â'r aflonyddwch ar fywyd y cartref a'r budd terfynol yn aml, yn dibynnu ar faint o waith y mae angen ei wneud. Am y rheswm hwn, mae addasiadau yn cael eu dosbarthu o fewn un o'r tri chategori isod:[21]

- Bach, e.e. gosod canllawiau cydio neu ganllawiau ar gyfer grisiau.
- Canolig, e.e. cawodydd heb ris i fynd i mewn iddynt, lifftiau grisiau, rampiau.
- Mawr, e.e. newidiadau strwythurol mawr i eiddo, gan gynnwys estyniadau.

**Cyfyngiadau'r data**

4.6 Trafodir cyfyngiadau casglu data cyfredol ar gostau a buddion addasiadau ym Mhennod 3, Adolygiad llenyddiaeth (uchod), ym mharagraff 0. Mae'r dadansoddiad yn yr adran hon yn seiliedig ar y datganiadau monitro gan asiantaethau Gofal a Thrwsio, cymdeithasau tai, gan gynnwys cymdeithasau tai Trosglwyddo Gwirfoddol ar Raddfa Fawr, ac awdurdodau lleol o'r flwyddyn 2018/19. Mae'r dadansoddiad hwn yn ddyledus i, ac yn adeiladu ar, yr adroddiad “Dadansoddiad Data Lefel Uchel ar addasiadau tai 2018-19”, a gyhoeddwyd ar wefan Llywodraeth Cymru.[22]

4.7 Roedd y set ddata lân yn cynnwys 30,236 o gofnodion. Mae maint y set ddata yn caniatáu ar gyfer dadansoddiad cadarn ar draws ystod o newidynnau. Serch hynny, fel gydag unrhyw set ddata, mae cyfyngiadau ar y gwaith dadansoddi y gellir ei wneud. Nodir y prif bwyntiau a fyddai wedi gwella'r dadansoddiad a wnaed ar gyfer yr adroddiad hwn ym mharagraff 0.

4.8 Mae tair elfen o ddaearyddiaeth yn gysylltiedig:

- Yr ardal ddaearyddol a gwmpesir gan bob awdurdod lleol (ardal yr awdurdod lleol).

[21] Llywodraeth Cymru, 2020. Dadansoddiad Data Lefel Uchel ar addasiadau tai 2018-19
[22] Fel yr uchod

- Yr ardal ddaearyddol y mae pob asiantaeth Gofal a Thrwsio yn gweithio ynddi (ardal weithredu Gofal a Thrwsio), a all gwmpasu un neu fwy o awdurdodau lleol cyffiniol i ffurfio un cyfanwaith.
- Yr ardal ddaearyddol y mae pob cymdeithas dai yn gweithio ynddi (ardal weithredu'r gymdeithas dai), a all gwmpasu un neu fwy o awdurdodau lleol nad ydynt yn gyfagos.

4.9 Pan fo awdurdod lleol wedi darparu'r addasiad, gellir ystyried bod yr eiddo yn ardal yr awdurdod lleol hwnnw. Gellir casglu ardal yr awdurdod lleol y mae'r eiddo ynddi hefyd os yw asiantaeth Gofal a Thrwsio neu gymdeithas dai yn gweithio yn ardal yr awdurdod lleol hwnnw yn unig. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o asiantaethau Gofal a Thrwsio a chymdeithasau tai yn gweithio ar draws mwy nag un awdurdod lleol, ac, yn yr achosion hyn, nid yw'n bosibl i wahanu pa addasiadau a ddarperir ym mha ardal awdurdod lleol.

4.10 Heb i'r lleoliad gael ei nodi, nid yw'n bosibl diffinio daearyddiaeth sy'n cynnwys set gyflawn o ddata ar gyfer pob ardal. Mae hyn yn golygu y bydd unrhyw gymhariaeth rhwng ardaloedd bob amser yn amherffaith.

4.11 Yr ardaloedd cyffiniol â'r data mwyaf cyflawn yw ardaloedd gweithredu Gofal a Thrwsio lle mae'n bosibl cynnwys yr holl ddata gan asiantaethau Gofal a Thrwsio a'r awdurdodau lleol yn yr ardal weithredu. Fodd bynnag, ni all yr ardaloedd hyn hyd yn oed gynnwys data gan gymdeithasau tai sy'n gweithio mewn sawl ardal awdurdod lleol am yr un rheswm a amlinellir uchod; nid yw'n bosibl nodi ym mha ardal awdurdod lleol y mae unrhyw addasiad penodol. Mae'n bosibl, wrth gwrs, i gynnwys y data gan unrhyw gymdeithas dai sy'n gweithio yn yr awdurdodau lleol yn yr ardal Gofal a Thrwsio yn unig.

4.12 Yn anaml, os byth, mae data cyflawn ar gyfer unrhyw ardal awdurdod lleol neu asiantaeth Gofal a Thrwsio benodol. Felly, mae'r dewis o ran pa rai i'w cynnwys yn dibynnu ar ba ardaloedd awdurdod lleol a Gofal a Thrwsio sy’n cynnwys digon o ddata defnyddiol. Ar ôl pwyso a mesur, a chan gymryd safbwynt pragmatig, rydym wedi eithrio dwy ardal awdurdod lleol lle nad oes data y gellir ei ddefnyddio i bob pwrpas. Rydym wedi cynnwys dwy ardal awdurdod lleol lle roedd y data cryn dipyn yn llai cyflawn nag ar gyfer yr holl ardaloedd awdurdod

lleol a Gofal a Thrwsio eraill, ond lle mae’n dal i ddarparu cipolwg o'r hyn sy'n digwydd yn yr ardaloedd hynny, er bod hwn yn anghyflawn.

4.13 Roedd data ar goll yn llwyr ar gyfer cynghorau Pen-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudful a Wrecsam. Mae Merthyr Tudful a Wrecsam yn cael eu hepgor yn llwyr o'r dadansoddiad. Mae'n berthnasol cynnwys ardal awdurdod lleol Pen-y-bont ar Ogwr yn y dadansoddiad oherwydd bod data yn bresennol gan asiantaethau Gofal a Thrwsio a chymdeithasau tai yn ardal y cyngor hwnnw i roi barn ar lawer o waith addasu yn ardal Pen-y-bont ar Ogwr, ond mae'n bwysig rhybuddio nad yw data Pen-y-bont ar Ogwr yn caniatáu cymhariaeth lawn ag ardaloedd awdurdodau lleol a Gofal a Thrwsio eraill.

4.14 Mae Sir y Fflint wedi'i chynnwys yn y dadansoddiad er cyflawnrwydd, er nad oes modd cymharu'r canlyniadau ar gyfer Sir y Fflint yn uniongyrchol ag ardaloedd awdurdodau lleol neu Ofal a Thrwsio eraill. Mae hyn oherwydd bod Gofal a Thrwsio Gogledd-ddwyrain Cymru yn cynnwys Sir y Fflint a Wrecsam. Pe bai Wrecsam wedi darparu data, yna byddai wedi bod yn bosibl darparu dadansoddiad ar lefel ardal ‘Sir y Fflint a Wrecsam’. Fodd bynnag, nid yw'n bosibl nodi pa addasiadau a wnaed gan Ofal a Thrwsio Gogledd-ddwyrain Cymru yn Sir y Fflint a pha rai a wnaed yn Wrecsam. Felly, mae'r wybodaeth ar gyfer Sir y Fflint yn cynnwys addasiadau a wnaed gan yr awdurdod lleol a chymdeithasau tai yn unig. Unwaith eto, mae'n berthnasol cynnwys Sir y Fflint oherwydd bod y data sydd ar gael yn rhoi cipolwg ar lawer o waith addasu yn ardal Sir y Fflint, ond mae angen rhybuddio nad yw data Sir y Fflint yn caniatáu cymhariaeth lawn ag ardaloedd awdurdodau lleol a Gofal a Thrwsio eraill. Mae'r holl ardaloedd awdurdod lleol eraill yr adroddwyd arnynt yn cynnwys addasiadau a wnaed gan eu hasiantaethau Gofal a Thrwsio priodol. Mae dadansoddiad o ddata Cyngor Sir y Fflint o’i gymharu â data awdurdodau lleol eraill yn dangos bod gwariant gan yr awdurdod lleol yn Sir y Fflint yn debyg i awdurdodau eraill ledled Cymru.

4.15 Mae'n werth nodi unwaith eto, er bod rhywfaint o welliant yn bosibl er mwyn ateb y cwestiynau ymchwil a pholisi yn well, fod maint set ddata'r datganiadau monitro yn caniatáu dadansoddiad cadarn yn gyffredinol.

### Diffinio ardaloedd awdurdodau lleol

4.16 Er y byddai'n ddefnyddiol dadansoddi gwariant ym mhob ardal awdurdod lleol unigol, nid yw'n bosibl nodi'r holl wariant yn y ddaearyddiaeth honno yn fanwl gywir gan ddefnyddio'r data presennol. Mae tri phrif fath o sefydliad yn gweithio ym mhob ardal awdurdod lleol: yr awdurdod lleol perthnasol, y gwasanaethau Gofal a Thrwsio, a chymdeithasau tai. Mae'r ail ddau o'r rhain yn aml yn gweithio ar draws mwy nag un ardal awdurdod lleol, a gall cymdeithasau tai weithio ar draws sawl ardal awdurdod lleol.

4.17 Y diffiniad mwyaf manwl gywir y gellir ei gymhwyso'n rhesymol yw'r ardal Gofal a Thrwsio, sef yr ardal y mae pob asiantaeth Gofal a Thrwsio yn gweithio ar ei thraws. Gan ddefnyddio'r dull hwn, dynodir pob awdurdod lleol yn ardal awdurdod lleol, ac eithrio pan fydd cynllun Gofal a Thrwsio yn cynnwys dau awdurdod lleol; yn yr achosion hynny, mae'r ddau awdurdod lleol hynny'n cael eu hystyried gyda'i gilydd. Dynodir cymdeithasau tai sy'n gweithio mewn un ardal awdurdod lleol ddiffiniedig fel rhai sydd o fewn yr ardal awdurdod lleol berthnasol. Mae cymdeithasau tai sy’n gweithio ar draws mwy nag un ardal awdurdod lleol ddiffiniedig yn cael eu dosbarthu fel rhai ‘heb eu neilltuo’.

4.18 Rhoddir manylion yr ardaloedd awdurdod lleol diffiniedig a ddefnyddir yn Atodiad F.

### Costau ar draws yr ardaloedd awdurdod lleol diffiniedig ac yn ôl y ffrwd gyllido


4.19 Mae'r set ganlynol o siartiau wedi'u safoni ar draws yr holl awdurdodau lleol y mae data ar eu cyfer. Mae'r dull hwn yn cael gwared ar wahaniaethau yn y canlyniadau ac yn hwyluso gwell cymhariaeth rhwng ardaloedd sydd â chanran uwch o bobl hŷn a'r rhai sydd â chanran lai o bobl hŷn. Gwnaed hyn yr un modd ar gyfer grwpiau oedran eraill. Mae'n debygol y bydd mwy o alw am addasiadau mewn ardaloedd â chanran uwch o bobl hŷn a galw is mewn ardaloedd â chanran lai o bobl hŷn. Mae safoni oedran hefyd yn cydraddoli lefelau anabledd i ryw raddau, wrth i lefelau uwch o anabledd gael eu gweld gydag oedran cynyddol. Mae hefyd yn cael effaith gydraddoli fach ar gyfoeth oherwydd effaith cydraddoli canran y bobl o oedran gweithio rhwng ardaloedd, er bod hyn yn cael effaith gymharol fach.

4.20 Gellir nodi tri grŵp o awdurdodau lleol yn y ffigurau cost wedi'u safoni yn ôl oedran:

- Grŵp 1 – Dros £15,000 fesul 1,000 o bobl (Caerdydd a Bro Morgannwg, Rhondda Cynon Taf a Sir Gaerfyrddin).
- Grŵp 2 – £5,000 i £15,000 fesul 1,000 o bobl (Casnewydd, Ceredigion a Sir Benfro, Gwynedd ac Ynys Môn, Conwy a Sir Ddinbych, Sir Fynwy a Thorfaen, a Chastell-nedd Port Talbot ac Abertawe). Yn wir, y gost uchaf ymhlith yr awdurdodau hyn yw £10,133 fesul 1,000 o bobl, yng Nghasnewydd. Mae’r gweddill yn is na £10,000 fesul 1,000 o bobl.
- Grŵp 3 – O dan £5,000 (Blaenau Gwent a Chaerffili, Pen-y-bont ar Ogwr, Sir y Fflint a Phowys). Fodd bynnag, mae data ar goll gan rai awdurdodau lleol, a all arwain atynt yn dangos cost is na'r gwir ffigur, yn enwedig ym Mhen-y-bont ar Ogwr a Sir y Fflint.

4.21 Mae'n amlwg bod lefelau cost gwahanol iawn rhwng ardaloedd awdurdodau lleol. I aralleirio trafodaeth yn y ddau weithdy i randdeiliaid, mae system gymhleth y tu ôl i'r ffigurau hyn ac eglurir peth o'r gwahaniaeth mewn cost gan fodolaeth gwasanaethau iechyd a chymunedol a all gynyddu neu leihau'r galw am addasiadau trwy ddarparu cymorth sy'n osgoi'r angen am addasiadau neu drwy hyrwyddo addasiadau yn rhagweithiol. Mae'n debygol y bydd y ddau ddull ar waith ym mhob ardal awdurdod lleol.

**Siart 1: Cyfanswm y gost fesul 1,000 o'r boblogaeth wedi'i safoni yn ôl oedran**




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, amcangyfrifon poblogaeth y Swyddfa Ystadegau Gwladol 2019

4.22 Mae swm y cyllid a ddyrennir i wahanol grwpiau oedran yn amrywio yn ôl ardal awdurdod lleol, gan nodi bod y safoni oedran yn dileu'r cwestiwn o ran a oes gan un ardal awdurdod lleol ganran uwch o unrhyw grŵp oedran penodol. Mae rhai yn dyrannu cyfran fwy o'u cyllid ar grwpiau oedran hŷn ac eraill yn dyrannu cyfran fwy ar grwpiau oedran iau. Unwaith eto, gall hyn fod yn gysylltiedig â gwasanaethau iechyd a chymunedol lleol, ond gall hefyd adlewyrchu ffactorau eraill fel blaenoriaethau yn yr awdurdod lleol a pha wybodaeth am addasiadau sydd ar gael i wahanol rannau o'r gymdeithas.


4.23 Mae Siart 2 yn dangos yr un data safoni oedran yn ôl canran y gost yn ôl pob grŵp oedran.

4.24 Mae tystiolaeth bod gwahanol grwpiau oedran yn defnyddio gwahanol addasiadau mewn gwahanol ardaloedd awdurdod lleol. Felly, mae angen ystyried cyfrannau'r gyllideb a wariwyd fesul 1,000 o bob grŵp oedran ochr yn ochr â'r gwir gost.

4.25 Mae rhai ardaloedd awdurdodau lleol yn gwario cyfran fwy o'r gost fesul 1,000 o bobl 75 oed a hŷn nag y mae awdurdodau eraill; mae Powys, Sir Fynwy a Thorfaen yn dyrannu cyfran fwy o’u cymharu â Cheredigion, Sir Benfro a Rhondda Cynon Taf. Mewn cyferbyniad, mae Ceredigion a Sir Benfro yn dyrannu cyfran fwy i bob 1,000 o bobl rhwng 19 a 55 oed nag unrhyw ardal awdurdod lleol arall, a hefyd cyfran uwch fesul 1,000 o bobl rhwng 19 a 55 oed nag fesul 1,000 o bobl 75 oed a hŷn.

4.26 Wrth ystyried y gwir gostau wedi'u safoni yn ôl oedran yn hytrach na chanrannau, mae Rhondda Cynon Taf yn gwario dros £6,000 i bob 1,000 o bobl 75 oed a hŷn o'i gymharu â thua £1,250 ym Mhowys. Yn yr un modd, mae Rhondda Cynon Taf yn dosbarthu dros £3,000 i bob 1,000 o bobl rhwng 19 a 55 oed o'i gymharu â thua £2,800 yn Ceredigion a Sir Benfro.


**Siart 2: Cyfanswm y gost fesul 1,000 o'r boblogaeth wedi'i safoni yn ôl oedran (canran)**




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, amcangyfrifon poblogaeth y Swyddfa Ystadegau Gwladol 2019

4.27 Mae costau Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl wedi'u safoni yn ôl oedran yn adlewyrchu costau wedi'u safoni yn ôl oedran yn gyffredinol. Er enghraifft, mae Caerdydd a Bro Morgannwg, a Rhondda Cynon Taf yn dosbarthu'r ganran fwyaf o Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl fesul 1,000 o bobl. Nid oes unrhyw ddata o ran y Grant Cyfleusterau i'r Anabl ar gael ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr, fel y trafodwyd ym mharagraff 0.


**Siart 3: Costau ar gyfer cyllid Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl fesul 1,000 o'r boblogaeth wedi'u safoni yn ôl oedran**




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, amcangyfrifon poblogaeth y Swyddfa Ystadegau Gwladol 2019

4.28 Dangosir cyfran y cyllid gan Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl wedi'i safoni yn ôl oedran yn ôl gwahanol grwpiau oedran yn Siart 4. Mae canran y cyllid gan Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl yn amrywio yn ôl ardal awdurdod lleol. Mae Sir Fynwy a Thorfaen yn dosbarthu dros 75% o'u cyllid gan Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl i'r grŵp oedran 75 a hŷn, tra bo Ceredigion a Sir Benfro yn dosbarthu tua 40% i'r grŵp oedran 19 i 55. Mae'n werth nodi bod Powys wedi gwario'r holl gyllid gan Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl ar y grŵp oedran dros 75.

**Siart 4: Costau wedi'u safoni yn ôl oedran – Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl (canran)**




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, amcangyfrifon poblogaeth y Swyddfa Ystadegau Gwladol 2019

**Costau yn ôl y ffrwd gyllido**

4.29 Roedd cyfanswm y gost ar gyfer holl ffrydiau cyllido Llywodraeth Cymru yn amrywio o'r ffrwd gyllido leiaf, Cyllid Landlord Cymdeithasol Cofrestredig Traddodiadol, ar £25,112, i'r ffrwd gyllido fwyaf, sef Grantiau Cyfleusterau Gorfodol i'r Anabl Awdurdodau Lleol, ar £18.79 miliwn. Cyfanswm y gost oedd £31.44 miliwn ar gyfer 30,010 o addasiadau. Y gost gymedrig fesul addasiad oedd £1,048, sy'n cynnwys ychydig o addasiadau mawr iawn a allai godi'r cyfartaledd cymedrig. Mae'n debyg bod y cyfartaledd canolrifol o £130 yn cynrychioli cost yr addasiad 'nodweddiadol' yn well.

4.30 Mae cost Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl Awdurdodau Lleol dros 50% yn fwy na'r holl ffrydiau cyllido eraill gyda'i gilydd (ac eithrio cyllid 'Arall'), sef £18.79 miliwn o'i gymharu â £12.46 miliwn. Mae hyn oherwydd dau beth, sef Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl yn meddu ar y canolrif uchaf a'r gost gymedrig ail uchaf fesul addasiad, a'r ffaith eu bod yn cyflawni nifer gymharol uchel o addasiadau o'u cymharu â ffrydiau cyllido eraill.

4.31 Mae nifer yr addasiadau yn amrywio o 192 o dan Gyllid Landlord Cymdeithasol Cofrestredig Traddodiadol i 10,456 o addasiadau llai o dan y Rhaglen Addasiadau Brys. Mae nifer yr addasiadau a wnaed yn adlewyrchu amcanion y ffrwd gyllido, yn ogystal â lefel y cyllid sydd ar gael a rheolaeth y ffrwd gyllido. Felly, mae'n anodd ynysu rheolaeth oddi wrth y ffactorau eraill.

**Tabl 4.1: Nifer yr addasiadau a chyfanswm y gost yn ôl y ffrwd gyllido**

| | Nifer | Cyfanswm y gost (£) |
|---|---|---|
| LIC (HWYLUSO) | 5,356 | 2,727,590 |
| LIC (Grant Addasiadau Ffisegol) | 717 | 3,418,762 |
| Cyllid Awdurdod Lleol (Grant Cyfleusterau i'r Anabl) | 4,135 | 18,788,788[23] |
| Cyllid Awdurdod Lleol (Arall) | 6,827 | 3,993,530 |
| Rhaglen Addasiadau Brys | 10,456 | 1,297,228 |
| Cronfa Gofal Integredig | 989 | 130,648 |
| Cyllid Landlord Cymdeithasol Cofrestredig Traddodiadol | 194 | 25,112 |
| Cyllid Trosglwyddo Gwirfoddol ar Raddfa Fawr | 849 | 866,652 |
| Cyfanswm (ac eithrio 'Arall') | 29,523 | 31,248,310 |
| | | |
| Arall | 487 | 188,753 |
| Cyfanswm (yn cynnwys 'Arall') | 30,010 | 31,437,063 |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru


4.32 Mae StatsCymru yn cofnodi bod £32.32 miliwn wedi'i wario ar Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl yn unig yn 2018/19.[24] Mae hyn yn awgrymu bylchau mawr yn y data. Nid yw'r gwahaniaeth rhwng y gwariant ar Grantiau Cyfleusterau i'r

[23] Mae'r rhif hwn wedi'i wirio; mae ailadrodd 788 yn gywir.
[24] StatsCymru, 2019. Grantiau ar gyfer cyfleusterau i bobl anabl yn ôl ardal awdurdod lleol a'r math o grant

Anabl a gofnodir yn y data a'r data a geir o StatsCymru yn cael ei gysoni trwy ychwanegu'r awdurdodau lleol na ddarparodd ddata yn unig. Yn yr un modd, mae'r gwariant ar rai o'r ffrydiau cyllido eraill a gofnodwyd yn y data yn is na'r gwariant ar yr un ffrydiau cyllido o ffynonellau eraill.

4.33 Mae Siart 5 yn dangos yr un data â Thabl 4.1 mewn fformat graffigol ac mae'n dangos bod y mwyafrif o'r cyllid yn cael ei roi i Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl, ar gyfanswm o £18.79 miliwn. Y tair ffrwd gyllido fwyaf nesaf yn ôl cost oedd HWYLUSO, y Grant Addasiadau Ffisegol a Chyllid Awdurdod Lleol (Arall). Gyda'i gilydd, cyfrannodd y rhain £10.14 miliwn mewn costau.

**Siart 5: Cyfanswm cost yr addasiadau yn ôl y ffrwd gyllido**




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

4.34 Dylid nodi bod Cyllid Landlord Cymdeithasol Cofrestredig Traddodiadol yn cyfrif am gyfanswm o £25,112 ac yn rhy fach i'w ddangos ar y raddfa wrth ei ystyried yn erbyn ffrydiau cyllido mwy.

4.35 Nid yw’r dadansoddiad o gyllid ‘Arall’ isod yn cynnwys cofnodion sydd hefyd yn cofnodi un o’r prif ffrydiau cyllido. Yr hyn sy'n weddill yw cyllid nad yw'n dod o un o'r ffrydiau cyllido uchod. Nid yw’r rhan fwyaf o’r dadansoddiad sy’n dilyn y tabl hwn yn cynnwys ‘Arall’. Mae cyllid ‘Arall’ yn wahanol i gyllid ‘Awdurdod Lleol (Arall)’, sy’n gyllid trwy awdurdodau lleol heblaw am y Grant Cyfleusterau i'r Anabl.

4.36 Roedd cyllid o ffynonellau heblaw am y prif ffrydiau cyllido yn darparu nifer gymharol fach o addasiadau: oddeutu 258 am gost gymharol gymedrol o o leiaf £141,102. Tra bo cyllid ‘Arall’ yn gwneud cyfraniad cymedrol at gyfanswm yr addasiadau, gall pob addasiad unigol wneud gwahaniaeth sylweddol i ansawdd bywyd cartref. Felly, mae’r categori ‘Arall’ wedi’i gynnwys yn yr adran canlyniadau cwsmeriaid isod.

4.37 Cofnododd sawl ffrwd gyllido enghreifftiau o gostau isaf ar gyfer addasiad oedd o dan £10: HWYLUSO, Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl, Cyllid Awdurdod Lleol (Arall), Rhaglen Addasiadau Brys a chyllid Trosglwyddo Gwirfoddol ar Raddfa Fawr. Y gost isaf ar gyfer Grant Addasiadau Ffisegol oedd £40; roedd y costau isaf ar gyfer yr holl gyllid arall yn is na £40.

4.38 Cofnodwyd y gost uchaf gan y Grant Cyfleusterau i'r Anabl, sef £109,279, tra oedd y costau uchaf ar gyfer HWYLUSO, y Grant Addasiadau Ffisegol a Chyllid Awdurdod Lleol (Arall) yn yr ystod £40,000 i £80,000. Y gost uchaf ar gyfer cyllid Trosglwyddo Gwirfoddol ar Raddfa Fawr oedd £21,186, ac ar gyfer ‘Arall’, y gost uchaf oedd £11,029. Roedd y Rhaglen Addasiadau Brys, y Gronfa Gofal Integredig, a Chyllid Landlord Cymdeithasol Cofrestredig Traddodiadol i gyd o dan £1,700. Unwaith eto, mae'r costau isaf hyn yn adlewyrchu amcanion y gwahanol ffrydiau cyllido.

4.39 Mae'n debyg bod y canolrif yn adlewyrchu'r data hwn yn fwyaf realistig o'r tri chyfartaledd o gymedr, canolrif a modd.[25] Roedd y costau canolrifol ar gyfer y Grant Addasiadau Ffisegol a Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl ychydig dros

[25] Y modd yw un o’r tri math o gyfartaledd neu ‘fesurau tuedd ganolog’. Y modd yw'r gwerth mwyaf cyffredin mewn set o ddata.

£3,500. Ar gyfer pob ffrwd gyllido arall, syrthiodd y canolrif i ystod o £81 rhwng £90 a £171.

4.40 Mae'r cymedr yn tueddu i fod yr uchaf o'r tri chyfartaledd ac mae'n dangos yr ystod fwyaf o gostau cyfartalog. Mae'r cymedr yn dueddol o gynhyrchu canlyniadau camarweiniol oherwydd nifer fach o allanolion bach iawn neu, yn fwy tebygol, mawr iawn. Dyma un rheswm pam bod y canolrif yn adlewyrchu'r data yn fwy realistig.

4.41 Mae'n amlwg bod y cyfartaledd moddol ar gyfer pob un ond dwy o'r ffrydiau cyllido llai yn dangos bod y mwyafrif o addasiadau, yn rhifiadol, wedi disgyn i ystod gul (£80) rhwng £90 a £170.

**Tabl 4.2: Cyfartaleddau ac ystod y gost yn ôl y ffrwd gyllido**

| | Cymedr (£) | Canolrif (£) | Modd (£) | Uchaf (£) | Isaf (£) |
|---|---|---|---|---|---|
| LIC (HWYLUSO) | 512 | 146 | 98 | 43,516 | 3 |
| LIC (Grant Addasiadau Ffisegol) | 4,768 | 3,570 | 168 | 78,247 | 40 |
| Cyllid Awdurdod Lleol (Grant Cyfleusterau i'r Anabl) | 4,566 | 3,780 | 96 | 109,279 | 3 |
| Cyllid Awdurdod Lleol (Arall) | 586 | 135 | 96 | 64,144 | 3 |
| Rhaglen Addasiadau Brys | 126 | 96 | 90 | 894 | 1 |
| Cronfa Gofal Integredig | 132 | 90 | 90 | 1,167 | 30 |
| Cyllid Landlord Cymdeithasol Cofrestredig Traddodiadol | 131 | 91 | 101 | 1,682 | 18 |
| Cyllid Trosglwyddo Gwirfoddol ar Raddfa Fawr | 1,032 | 171 | 41 | 21,186 | 6 |
| Arall (yr holl gyllid 'Arall') | 390 | 138 | 350 | 11,029 | 11 |
| Yr holl gyllid? | 1,053 | 130 | 90 | 109,279 | 1 |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

4.42 Dyrannwyd costau pob addasiad unigol i un o'r bandiau costau canlynol i ganiatáu cymhariaeth fwy manwl o'r costau nag y mae ystod a chanolrif y costau yn caniatáu.

- £10 neu lai
- £11 i £50
- £51 i £100
- £100 i £500

- £501 i £1,000
- £1,001 i £5,000
- £5,001 i £10,000
- £10,000 i £50,000
- £50,001 i £100,000
- Dros £100,000


4.43 Mae dau uchafbwynt yn y bandiau cost ar draws y set ddata gyfan. Mae rhai ffrydiau cyllido yn arddangos un uchafbwynt, ac eraill yn arddangos y ddau uchafbwynt.

4.44 Ar gyfer y mwyafrif o ffrydiau cyllido, mae'r uchafbwynt cyntaf yn digwydd yn y band cost rhwng £101 a £500. Yr eithriad yw'r Gronfa Gofal Integredig, gyda 54% o'r holl addasiadau a ariannwyd yn costio rhwng £51 a £100. Nid yw HWYLUSO, Cyllid Awdurdod Lleol (Arall), Rhaglen Addasiadau Brys, Cronfa Gofal Integredig a Chyllid Landlord Cymdeithasol Traddodiadol yn arddangos ail uchafbwynt ac roedd llai na 10% o'r addasiadau ym mhob un o'r ffrydiau hyn yn disgyn i unrhyw fand cost sengl dros £500.

4.45 Mae cyfran fach o addasiadau yn costio rhwng £501 a £1,000.

4.46 Mae Grantiau Addasiadau Ffisegol, Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl a chyllid Trosglwyddo Gwirfoddol ar Raddfa Fawr (gan gynnwys o'u hadnoddau eu hunain) yn dangos ail uchafbwynt. Mae gan gyllid Trosglwyddo Gwirfoddol ar Raddfa Fawr uchafbwynt cyntaf uwch, ac ail uchafbwynt is o £1,001 i £5,000. Mae'r Grantiau Addasiadau Ffisegol a'r Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl yn dangos uchafbwynt cyntaf is ac ail uchafbwynt uwch. Ar gyfer y Grant Addasiadau Ffisegol, yr uchafbwynt yw £1,001 i £5,000 (38% o'r addasiadau), ac ar gyfer y Grant Cyfleusterau i'r Anabl, mae'r ail uchafbwynt yn parhau o £1,001 i £5,000 (28% o addasiadau) i £5,001 i £10,000 (30% o addasiadau).

**Siart 6: Canran yr addasiadau ym mhob band cost yn ôl y ffrwd gyllido**




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

**Nodweddion addasiadau a derbynwyr yn ôl y ffrwd gyllido**

4.47 Mae'r siartiau isod yn dangos canran yr addasiadau ym mhob categori ar gyfer pob ffrwd gyllido. Mae'r cyntaf (Siart 7) yn seiliedig ar nifer yr addasiadau ym mhob categori maint, tra bo’r ail (Siart 8) yn seiliedig ar gyfanswm y gost ym mhob categori maint. Dangosir data llawn ar gyfer pob ffrwd gyllido yn Atodiad F.


4.48 O ystyried nifer yr addasiadau, roedd dros 70% o'r holl addasiadau o dan bob ffrwd gyllido oni bai am ddwy ohonynt yn y categori bach, gan gynnwys 99% neu

100% o gyllid y Rhaglen Addasiadau Brys a'r Gronfa Gofal Integredig, a chyllid Landlord Cymdeithasol Cofrestredig Traddodiadol. Y ddau eithriad yw'r Grant Addasiadau Ffisegol a'r Grant Cyfleusterau i'r Anabl, ond mae'n werth nodi, o'r ddau hyn, bod 26% o Grantiau Addasiadau Ffisegol a 38% o Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl yn y categori bach.

4.49 Mae chwarter (25%) o'r holl addasiadau Cyllid Trosglwyddo Gwirfoddol ar Raddfa Fawr yn y categori canolig, ynghyd â 9% o HWYLUSO ac 8% o Gyllid Awdurdod Lleol (Arall). Mae mwyafrif yr addasiadau a wnaed o dan y Grant Addasiadau Ffisegol (64%) a'r Grant Cyfleusterau i'r Anabl (55%) yn dod o fewn y categori maint canolig.

4.50 Gwneir cyfrannau llawer is o addasiadau sy'n dod o fewn y categori mawr: 9% o Grantiau Addasiadau Ffisegol, 7% o Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl, a 2% o Gyllid Trosglwyddo Gwirfoddol ar Raddfa Fawr.

**Siart 7: Cyllid yn ôl categori maint (nifer yr addasiadau)**




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru


4.51 Mae ystyried canran yr addasiadau sy'n dod o fewn pob categori maint yn ôl costau yn dangos cipolwg sy’n ategol i ystyried y ganran yn ôl categori maint.

4.52 Mae'r rhan fwyaf o gost addasiadau o dan y Rhaglen Addasiadau Brys (100%), y Gronfa Gofal Integredig (100%) a Chyllid Landlord Cymdeithasol Cofrestredig Traddodiadol (89%) ar addasiadau bach, ac mae 45% o'r gost o dan HWYLUSO a 31% o dan Gyllid Awdurdod Lleol (Arall). Yn anochel, mae hyn yn adlewyrchu ffocws y ffrydiau cyllido unigol.

4.53 Mewn cyferbyniad, mae dros hanner y costau ar gyfer HWYLUSO, y Grant Addasiadau Ffisegol, y Grant Cyfleusterau i'r Anabl, Cyllid Awdurdod Lleol (Arall) a Chyllid Trosglwyddo Gwirfoddol ar Raddfa Fawr ar gyfer addasiadau sy'n cael eu dosbarthu fel rhai canolig, ac yn amrywio o 51% o'r costau o dan HWYLUSO i dros ddwy ran o dair (69%) o'r costau o dan bob un o’r Grant Addasiadau Ffisegol, y Grant Cyfleusterau i'r Anabl a Chyllid Trosglwyddo Gwirfoddol ar Raddfa Fawr.

4.54 Mae'r cyfrannau mwyaf o gostau ar gyfer addasiadau mawr o dan y Grant Addasiadau Ffisegol (29%) a'r Grant Cyfleusterau i'r Anabl (27%), gyda chanrannau llai ond sylweddol o'r costau.

**Siart 8: Cyllid yn ôl categori maint (cost addasiadau)**





Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

4.55 Mae'r siart (9) a thabl (4.3) canlynol yn dangos cost pob ffrwd gyllido yn ôl categori maint, gan ddangos maint y costau.

4.56 Cyllid Grant Cyfleusterau i'r Anabl Awdurdodau Lleol ar gyfer addasiadau canolig a mawr oedd y costau mwyaf o bell ffordd, sef £12.42 miliwn a £4.84 miliwn yn y drefn honno. Ariannodd y Grant Addasiadau Ffisegol a Chyllid Awdurdod Lleol (Arall) werth dros £2 filiwn yr un o addasiadau canolig.

4.57 Yn gyfan gwbl, fe wnaeth addasiadau canolig ddenu £18.91 miliwn o gyllid o'i gymharu â £6.62 miliwn ar gyfer addasiadau mawr a £4.82 miliwn ar gyfer addasiadau bach.

**Siart 9: Cost yn ôl y ffrwd gyllido yn ôl categori maint (£)**




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

**Tabl 4.3: Costau yn ôl y ffrwd gyllido yn ôl categori maint (efallai na fydd y cyfansymiau'n cyfateb yn union oherwydd talgrynnu)**

| | Bach (£) | Canolig (£) | Mawr (£) | Cyfanswm (£) |
|---|---|---|---|---|
| LIC (HWYLUSO) | 1,209,204 | 1,373,755 | 85,566 | 2,668,525 |
| LIC (Grant Addasiadau Ffisegol) | 79,899 | 2,353,991 | 984,871 | 3,418,762 |
| Cyllid Awdurdod Lleol (Grant Cyfleusterau i'r Anabl) | 731,675 | 12,424,235 | 4,837,976 | 17,993,886 |
| Cyllid Awdurdod Lleol (Arall) | 1,212,988 | 2,155,552 | 586,068 | 3,954,608 |
| Rhaglen Addasiadau Brys | 1,297,228 | - | - | 1,297,228 |
| Cronfa Gofal Integredig | 130,648 | - | - | 130,648 |
| Cyllid Landlord Cymdeithasol Cofrestredig Traddodiadol | 22,243 | 2,869 | - | 25,112 |
| Cyllid Trosglwyddo Gwirfoddol ar Raddfa Fawr | 140,973 | 601,985 | 123,694 | 866,652 |
| Pob un | 4,824,858 | 18,912,386 | 6,618,175 | 30,355,420 |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

4.58 Mae Tabl 4.4 isod yn dangos cyfran pob ffrwd gyllido a ddefnyddiwyd gan bob un o'r tri phrif grŵp darparu (Gofal a Thrwsio, cymdeithasau tai ac awdurdodau lleol). Mae'r ffigurau'n seiliedig ar nifer yr addasiadau a gyflwynwyd. I ryw raddau, bydd amcanion y ffrydiau cyllido unigol yn llywodraethu pa rai o'r prif grwpiau darparwyr a ddyrennir cyllid iddynt. Serch hynny, mae rhai pwyntiau o ddiddordeb o'r data.

4.59 Cyfeiriwyd y gyfran fwyaf o bob ffrwd gyllido at un darparwr mawr, yn aml gyda swm llai i un darparwr eilaidd yn unig. Er enghraifft, mae 92% o'r addasiadau a ariennir gan HWYLUSO trwy asiantaethau Gofal a Thrwsio gyda 9% yn cael eu cyllido trwy awdurdodau lleol. Yr eithriad i hyn yw Cyllid Awdurdod Lleol (Arall), lle mae 44% o'r addasiadau a ariennir trwy asiantaethau Gofal a Thrwsio a 56% trwy awdurdodau lleol. Mae'r sefyllfa hon yn cyfyngu ar y gymhariaeth y gellir ei gwneud rhwng ffrydiau cyllido a rhwng darparwyr oherwydd bod gwariant yn swyddogaeth y ffrwd gyllido a'r darparwr. Os yw ffrwd gyllido neu ddarparwr yn ymddangos yn aneffeithiol, gall fod yn anodd nodi a yw'r broblem gyda'r ffrwd gyllido, y darparwr, neu'r rhyngweithio rhwng y ddau.

4.60 At ei gilydd, darperir asiantaethau Gofal a Thrwsio dwy ran o dair (66%) o'r addasiadau a ariennir, ychydig dros chwarter (28%) gan awdurdodau lleol, a 6% gan gymdeithasau tai.


**Tabl 4.4: Canran y ffrwd gyllido yn ôl darparwr (yn ôl nifer yr addasiadau:**

| | **Gofal a Thrwsio** | **Cymdeithasau tai** | **Awdurdodau lleol** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|
| LIC (HWYLUSO) | 92% | 0% | 9% | 100% |
| LIC (Grant Addasiadau Ffisegol) | 9% | 91% | 0% | 100% |
| Cyllid Awdurdod Lleol (Grant Cyfleusterau i'r Anabl) | <1% | <1% | 99% | 100% |
| Cyllid Awdurdod Lleol (Arall) | 44% | 0% | 56% | 100% |
| Rhaglen Addasiadau Brys | 100% | 0% | 0% | 100% |
| Cronfa Gofal Integredig | 100% | 0% | 0% | 100% |
| Cyllid Landlord Cymdeithasol Cofrestredig Traddodiadol | 12% | 88% | 0% | 100% |
| Cyllid Trosglwyddo Gwirfoddol ar Raddfa Fawr | 0% | 100% | 0% | 100% |
| Arall (yr holl gyllid 'Arall') | 86% | 14% | <1% | 100% |
| Pob un | 66% | 6% | 28% | 100% |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru
Noder: Mae'n bosibl na fydd y rhesi yn rhoi cyfanswm union oherwydd talgrynnu.

4.61 Darperir y mwyafrif o addasiadau ledled Cymru ar gyfer pobl hŷn. At ei gilydd, cynhelir 66% ar gyfer pobl 75 oed a hŷn, gydag 17% arall i bobl rhwng 65 a 74 oed.

**Siart 10: Addasiadau a ddarperir yn ôl y ffrwd gyllido yn ôl grŵp oedran**




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

**Tabl 4.5: Addasiadau a ddarperir yn ôl grŵp oedran yn ôl y ffrwd gyllido**


| Ffrwd gyllido | 0 i £18 | 19 i £54 | 55 i £64 | 65 i £74 | 75 a hŷn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| LIC (HWYLUSO) | <1% | 5% | 7% | 17% | 70% | 100% |
| LIC (Grant Addasiadau Ffisegol) | 5% | 32% | 20% | 22% | 21% | 100% |
| Cyllid Awdurdod Lleol (Grant Cyfleusterau i'r Anabl) | 3% | 14% | 11% | 18% | 54% | 100% |
| Cyllid Awdurdod Lleol (Arall) | 2% | 11% | 10% | 17% | 60% | 100% |
| Rhaglen Addasiadau Brys | <1% | 2% | 5% | 17% | 76% | 100% |
| Cronfa Gofal Integredig | <1% | 3% | 4% | 17% | 76% | 100% |
| Cyllid Landlord Cymdeithasol Cofrestredig Traddodiadol | 3% | 26% | 23% | 17% | 32% | 100% |
| Cyllid Trosglwyddo Gwirfoddol ar Raddfa Fawr | 3% | 17% | 15% | 23% | 42% | 100% |
| Arall: - Nodwch | <1% | 9% | 7% | 16% | 68% | 100% |
| Pob un | 1% | 8% | 8% | 17% | 66% | 100% |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru
Noder: Mae'n bosibl na fydd y rhesi yn rhoi cyfanswm union oherwydd talgrynnu.

4.62 Mae ystyried y data o safbwynt gwahanol grwpiau oedran (gweler Siart 11) yn dangos bod y rhan fwyaf o addasiadau ar gyfer y grŵp oedran 0 i 18 yn cael eu gwneud o dan ffrydiau cyllido Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl (33%) a Chyllid Awdurdod Lleol (Arall) (39%). Mae'r ddwy ffrwd gyllido hyn hefyd yn bennaf wrth ddarparu addasiadau ar gyfer y grŵp oedran 19 i 54: Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl (24%) a Chyllid Awdurdod Lleol (Arall) (33%). Mae’r mwyafrif o addasiadau ar gyfer y grwpiau oedran 65 i 74 a 75 a hŷn yn cael eu gwneud o dan HWYLUSO, Cyllid Awdurdod Lleol (Arall) a'r Rhaglen Addasiadau Brys.

4.63 Mae cyfran yr addasiadau a wneir o dan y Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl yn gostwng gydag oedran, o 33% o'r addasiadau ar gyfer y grŵp oedran 0 i 18, i 11% o'r addasiadau ar gyfer y grŵp oedran 75 a hŷn.

**Siart 11: Addasiadau a ddarperir yn ôl grŵp oedran yn ôl y ffrwd gyllido**




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru


**Costau cyfartalog yn ôl deiliadaeth**

4.64 Mae cost gymedrig addasiadau ar ei huchaf ar gyfer eiddo cymdeithasau tai traddodiadol ar £3,206 ac ar ei hisaf ar gyfer eiddo o dan berchen-feddiannaeth ar £784 (ac eithrio 'Arall'). Cost gymedrig addasiadau i holl eiddo landlordiaid cymdeithasol yw £2,369 o'i gymharu â £818 ar gyfer holl eiddo'r sector preifat.

**Maint yr addasiad a ddarperir i bob grŵp oedran**


4.65 Mae canran yr addasiadau bach yn cynyddu gydag oedran. Mae addasiadau bach yn cyfrif am 83% o'r addasiadau a ddarperir i'r grŵp oedran 65 i 74, gan godi i 90% ar gyfer y grŵp oedran 75 a hŷn. Ond yn y grwpiau iau, er bod mwyafrif yr addasiadau hefyd yn y categori bach, mae bron i draean (31%) yr addasiadau ar gyfer y grŵp oedran 0 i 18 yn ganolig ac mae 7% yn fawr. Ar gyfer y grŵp oedran 19 i 55, mae chwarter (26%) yn ganolig a 4% yn fawr.

**Siart 12: Addasiadau yn ôl maint yn ôl grŵp oedran**




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

**Siart 13: Cost gymedrig addasiadau yn ôl deiliadaeth**




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

**Mesurau ansawdd**

4.66 Dangosir yr amser a fesurir mewn diwrnodau rhwng i'r angen am addasiad gael ei nodi ac i'r addasiad fod yn barod i'w ddefnyddio yn y tabl a'r siartiau isod. I fod yn gryno, cyfeirir ato fel yr 'amser prosesu' yn y dadansoddiad hwn.

4.47 Bydd yr amser i gyflawni addasiadau yn dibynnu ar sawl ffactor, gan gynnwys maint a chymhlethdod yr addasiad, y prosesau biwrocrataidd, ac amgylchiadau personol yr aelwyd dan sylw. Er bod yr adolygiad llenyddiaeth wedi nodi ei bod yn fuddiol i leihau amser a chymhlethdod y broses fiwrocrataidd, fel y nodwyd ym mharagraff 0, mae'n anodd gwahanu'r broses fiwrocrataidd oddi wrth ffactorau eraill y tu ôl i'r data.

4.68 Mae gan ddwy ffrwd gyllido amseroedd prosesu canolrifol uchel o'u cymharu â'r amser prosesu o 13 diwrnod ar gyfer pob addasiad, sef y Grant Addasiadau Ffisegol (119 diwrnod) a'r Grant Cyfleusterau i'r Anabl (99 diwrnod). Mae gan y ddwy ffrwd gyllido hyn hefyd rai o'r amseroedd prosesu uchaf, sef 1,109 diwrnod a 1,737 diwrnod yn y drefn honno. Mae'r amseroedd hyn yn gyson â'i gilydd a chyda chymhlethdod llawer o addasiadau a wneir o dan y ddwy ffrwd gyllido.

4.69 Mae gan bedair ffrwd gyllido amseroedd prosesu canolrifol sy'n agos at yr 13 diwrnod ar gyfer pob addasiad, ond amseroedd prosesu uchaf cymharol uchel. Gallai hyn fod oherwydd cymhlethdod yr addasiadau unigol, neu gallai nodi y bu problem gyda nifer fach o addasiadau a wnaed o dan y ffrydiau cyllido hyn. Gallai problemau gynnwys oedi a achoswyd gan fiwrocratiaeth, gan amgylchiadau personol yr aelwyd, fel unigolyn bregus sy'n brwydro i ymdopi â'r broses, gan gyfuniad o'r ffactorau hyn, neu gan ffactor arall. Fodd bynnag, ni ellir casglu hyn o'r data. Dyma'r bedair ffrwd gyllido:


- HWYLUSO – canolrif 13 diwrnod, uchafswm o 526 diwrnod
- Cyllid Awdurdod Lleol (Arall) – canolrif 16 diwrnod, uchafswm o 1,216 diwrnod
- Rhaglen Addasiadau Brys – canolrif 7 diwrnod, uchafswm o 487 diwrnod
- Cyllid Trosglwyddo Gwirfoddol ar Raddfa Fawr – canolrif 21 diwrnod, uchafswm o 739 diwrnod

**Tabl 4.6: Nifer y diwrnodau rhwng i’r angen am yr addasiad gael ei nodi ac i’r addasiad fod yn barod i'w ddefnyddio yn ôl y ffrwd gyllido**

| | Cymedr | Canolrif | Uchafswm | Isafswm |
|---|---|---|---|---|
| LIC (HWYLUSO) | 24 | 13 | 526 | 1 |
| LIC (Grant Addasiadau Ffisegol) | 161 | 119 | 1,109 | 1 |
| Cyllid Awdurdod Lleol (Grant Cyfleusterau i'r Anabl) | 130 | 99 | 1,737 | 1 |
| Cyllid Awdurdod Lleol (Arall) | 33 | 16 | 1,216 | 1 |
| Rhaglen Addasiadau Brys | 13 | 7 | 487 | 1 |
| Cronfa Gofal Integredig | 7 | 4 | 141 | 1 |
| Cyllid Landlord Cymdeithasol Cofrestredig Traddodiadol | 31 | 18 | 196 | 1 |
| Cyllid Trosglwyddo Gwirfoddol ar Raddfa Fawr | 58 | 21 | 739 | 1 |
| Arall: - Nodwch | 24 | 9 | 247 | 1 |
| Pob un | 38 | 13 | 1,737 | 1 |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

**Siart 14: Y canolrif a'r mwyafrif o ddiwrnodau rhwng i’r angen am yr addasiad gael ei nodi ac i’r addasiad fod yn barod i'w ddefnyddio**




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

4.70 Mae Tabl 4.7 a Thabl 4.8 yn dan gos hyd yr amser mewn blynyddoedd rhwng i'r angen am yr addasiad gael ei nodi ac i'r addasiadau fod yn barod i'w defnyddio, yn seiliedig ar ychydig llai na 26,000 o gofnodion lle cofnodwyd y dyddiadau perthnasol.

4.71 Cwblhawyd bron pob addasiad (99%) o fewn blwyddyn. Cyfanswm yr 1% arall oedd 297 o addasiadau, a gymerodd dros flwyddyn i'w cwblhau. O'r rhain, cwblhawyd 274 o fewn dwy flynedd a chwblhawyd 17 arall o fewn tair blynedd. Cwblhawyd pump o fewn pedair blynedd a chymerodd un addasiad dros bedair blynedd. Fel y gellid disgwyl, mae'r addasiadau a gymerodd fwy o amser i'w cwblhau yn tueddu i gael eu cyllido gan ffrydiau sy'n cwmpasu addasiadau mwy.

**Tabl 4.7: Amser mewn blynyddoedd rhwng i'r angen am yr addasiad gael ei nodi ac i'r addasiad fod yn barod i'w ddefnyddio yn ôl y ffrwd gyllido (nifer yr addasiadau)**

| | O dan flwyddyn | Un i ddwy flynedd | Dwy i dair blynedd | Tair i bedair blynedd | Pedair i bum mlynedd | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| LlC (HWYLUSO) | 4,913 | 11 | | | | 4,924 |
| LlC (Grant Addasiadau Ffisegol) | 621 | 65 | 4 | 1 | | 691 |
| Cyllid Awdurdod Lleol (Grant Cyfleusterau i'r Anabl) | 2,862 | 141 | 7 | 1 | 1 | 3,012 |
| Cyllid Awdurdod Lleol (Arall) | 5,648 | 24 | 4 | 3 | | 5,679 |
| Rhaglen Addasiadau Brys | 9,463 | 16 | | | | 9,479 |
| Cronfa Gofal Integredig | 843 | | | | | 843 |
| Cyllid Landlord Cymdeithasol Cofrestredig Traddodiadol | 182 | | | | | 182 |
| Cyllid Trosglwyddo Gwirfoddol ar Raddfa Fawr | 707 | 17 | 2 | | | 726 |
| Arall:- nodwch | 443 | | | | | 443 |
| Cyfanswm | 25,682 | 274 | 17 | 5 | 1 | 25,979 |
| Canran y cyfanswm | 98.9% | 1.1% | 0.1% | 0.0% | 0.0% | 100% |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

4.72 Mae Tabl 4.8 isod yn canolbwyntio ar y ffrydiau cyllido lle cymerodd unrhyw addasiadau dros ddwy flynedd i'w cwblhau: Grant Addasiadau Ffisegol, Grant Cyfleusterau i'r Anabl, Cyllid Awdurdod Lleol (Arall) a chyllid Trosglwyddo Gwirfoddol ar Raddfa Fawr. Ar gyfartaledd, ar draws y pedair ffrwd gyllido, cwblhawyd dros 95% o'r addasiadau o fewn blwyddyn a chymerodd llai na hanner y cant ddwy flynedd neu fwy. Cymerodd dros 9% o addasiadau a ariannwyd gan y Grant Addasiadau Ffisegol ac ychydig llai na 5% gan y Grant Cyfleusterau i'r Anabl rhwng un a dwy flynedd, gyda 0.6% arall a ariannwyd gan y Grant Addasiadau Ffisegol yn cymryd rhwng dwy a thair blynedd.

**Tabl 4.8: Amser mewn blynyddoedd rhwng i'r angen am yr addasiad gael ei nodi ac i'r addasiad fod yn barod i'w ddefnyddio yn ôl y ffrwd gyllido (canran yr addasiadau)**

| | O dan flwyddyn | Un i ddwy flynedd | Dwy i dair blynedd | Tair i bedair blynedd | Pedair i bum mlynedd | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| LIC (Grant Addasiadau Ffisegol) | 89.9% | 9.4% | 0.6% | 0.1% | 0.0% | 100.0% |
| Cyllid Awdurdod Lleol (Grant Cyfleusterau i'r Anabl) | 95.0% | 4.7% | 0.2% | 0.0% | 0.0% | 100.0% |
| Cyllid Awdurdod Lleol (Arall) | 99.5% | 0.4% | 0.1% | 0.1% | 0.0% | 100.0% |
| Cyllid Trosglwyddo Gwirfoddol ar Raddfa Fawr | 97.4% | 2.3% | 0.3% | 0.0% | 0.0% | 100.0% |
| Cyfartaledd o'r pedair ffrwd gyllido | 95.4% | 4.2% | 0.3% | 0.1% | 0.0% | 100.0% |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

# 5. Canfyddiadau: Dadansoddiad o’r canlyniadau yn ôl y ffrwd gyllido

### Cyflwyniad

5.1 Mae'r bennod hon yn trafod y canlyniadau ansoddol a gofnodwyd yn y data. Y cyntaf o'r rhain yw canlyniadau disgwyliedig yr addasiadau. Darperir hyn gan weithwyr cymdeithasol, therapyddion galwedigaethol a gweithwyr proffesiynol eraill, ac mae'n dangos nod bwriadedig pob addasiad, megis atal cwympiadau.


5.2 Roedd gan 28,377 o gofnodion ganlyniad a ragwelwyd, sef 93% o'r 30,235 o addasiadau.

5.3 Dangosir canlyniadau disgwyliedig addasiadau yn ôl y ffrwd gyllido yn Siart 15 isod. Y prif ganlyniadau a ragwelir yw atal cwympiadau a chynyddu annibyniaeth mewn bywyd beunyddiol, ac, i raddau llai, lleihau nifer y derbyniadau i ysbytai a chaniatáu i bobl gael eu rhyddhau o ysbytai.

5.4 Rhagwelir y bydd dros 60% o'r addasiadau a wneir o dan y rhaglen HWYLUSO, Cyllid Awdurdod Lleol (Arall) a'r Rhaglen Addasiadau Brys yn atal cwympiadau, gyda 56% ar gyfer Cyllid Landlord Cymdeithasol Cofrestredig Traddodiadol a 44% ar gyfer Cyllid Trosglwyddo Gwirfoddol ar Raddfa Fawr. Os cadarnheir y rhagfynegiadau hyn mewn realiti, mae hyn yn dystiolaeth o fudd cronnus ymyriadau unigol bach, fel y Rhaglen Addasiadau Brys, yn atal cwympiadau, a thrwy hynny yn cynhyrchu arbedion ariannol mewn cyllidebau iechyd.

5.5 Yr ail brif ganlyniad a ragwelir yw mwy o annibyniaeth mewn bywyd beunyddiol; yn benodol, mae gan 94% o addasiadau'r Grant Cyfleusterau i'r Anabl a 66% o addasiadau'r Grant Addasiadau Ffisegol y canlyniad disgwyliedig hwn.

**Siart 15: Canlyniadau a ragwelir yn ôl y ffrwd gyllido**





5.6 Mae Siart 16 yn dangos pa gyfran o bob canlyniad a ragwelir y disgwylir iddi gael ei chyflawni gan bob ffrwd gyllido, eto yn seiliedig ar nifer yr addasiadau. Mae'n bwysig nodi bod y mesur hwn yn ôl nifer yr addasiadau yn unig, ac nid yw'n ystyried maint na chost yr addasiadau. Wrth edrych ar y ddau ganlyniad sy'n cyfrif am fwyafrif y cyllid:

5.7 Y prif gyfranwyr a ragwelir at atal cwympiadau yw'r Rhaglen Addasiadau Brys (44%), Cyllid Awdurdod Lleol (Arall) (26%) a HWYLUSO (22%).

5.8 Mae'r Grant Cyfleusterau i'r Anabl yn cyflawni 43% o'r addasiadau y rhagwelir y byddant yn cynyddu annibyniaeth mewn bywyd beunyddiol, a ddilynwyd gan Gyllid Awdurdod Lleol (Arall) (18%), HWYLUSO (14%) a'r Rhaglen Addasiadau Brys (12%).

**Siart 16: Cyfraniad pob ffrwd gyllido at y canlyniadau a ragwelir (nifer yr addasiadau)**




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

5.9 Mewn arolwg parhaus o fodlonrwydd cwsmeriaid, mae holiaduron dilynol yn gofyn i dderbynwyr addasiadau:

- A yw gosod eich addasiad wedi rhoi mwy o annibyniaeth i chi?
- A yw gosod eich addasiad wedi gwella'ch llesiant?
- A yw gosod eich addasiad wedi lleihau eich angen am ofalwr?

5.10 Ymdrinnir â phob un o'r tri chwestiwn hyn yn eu tro ac yna ymdrinnir â'r ymatebion i gwestiwn ar fodlonrwydd cyffredinol. Er bod y 6,132 o holiaduron bodlonrwydd a ddychwelwyd yn sampl fawr ac yn cynnwys 20% o gyfanswm yr addasiadau a gofnodwyd, gwelir cyfran gryn dipyn yn llai ar gyfer rhai ffrydiau

cyllido, yn enwedig cyfran o 8% o gyfanswm yr addasiadau a gofnodwyd ar gyfer Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl. Oherwydd hyn, mae'r canlyniadau cyffredinol yn annhebygol o fod yn gynrychioliadol o'r holl ffrydiau cyllido. Dangosir nifer yr holiaduron a ddychwelwyd yn Nhabl 5.1.

**Tabl 5.1: Dychweliadau o holiaduron bodlonrwydd yn ôl y ffrwd gyllido**

| | Nifer a ddychwelwyd | Canran a ddychwelwyd | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| LIC (HWYLUSO) | 1,107 | 21% | 5,356 |
| LIC (Grant Addasiadau Ffisegol) | 144 | 20% | 717 |
| Cyllid Awdurdod Lleol (Grant Cyfleusterau i'r Anabl) | 313 | 8% | 4,135 |
| Cyllid Awdurdod Lleol (Arall) | 1,187 | 17% | 6,827 |
| Rhaglen Addasiadau Brys | 3,120 | 30% | 10,456 |
| Cronfa Gofal Integredig | 32 | 3% | 989 |
| Cyllid Landlord Cymdeithasol Cofrestredig Traddodiadol | 9 | 5% | 194 |
| Cyllid Trosglwyddo Gwirfoddol ar Raddfa Fawr | 190 | 22% | 849 |
| Arall | 26 | 5% | 487 |
| Cyfanswm | 6,128 | 20% | 30,010 |


Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Noder: Mae Tabl 5.1 yn eithrio 225 o bwyntiau data annilys o'r cyfanswm o 30,235.

5.11 Mae'r cyfweliadau â defnyddwyr gwasanaethau yn awgrymu bod y mwyafrif o addasiadau wedi cael effaith gadarnhaol ar ansawdd bywyd (gweler Paragraff 0 ymlaen). Mae'r data o'r arolwg bodlonrwydd yn cefnogi canfyddiadau'r cyfweliad.

5.12 Mae canran fawr o aelwydydd sydd wedi cael addasiadau wedi'u darparu trwy bob ffrwd gyllido naill ai'n cytuno'n gryf neu'n tueddu i gytuno bod yr addasiad wedi cynyddu eu hannibyniaeth, yn amrywio o Gyllid Trosglwyddo Gwirfoddol ar Raddfa Fawr ar 93%, i Gronfa Gofal Integredig ar 100%.

**Siart 17: A yw gosod eich addasiad wedi rhoi mwy o annibyniaeth i chi?**





Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Noder: Mae Cyllid Landlord Cymdeithasol Cofrestredig Traddodiadol wedi'i gynnwys ar gyfer cyflawnrwydd, ond mae'r canrannau'n seiliedig ar nifer fach iawn o achosion ac felly nid ydyn nhw'n ddibynadwy.

5.13 Mae canran yr un mor uchel o dderbynwyr addasiadau naill ai'n cytuno'n gryf neu'n tueddu i gytuno bod yr addasiad wedi gwella eu llesiant: 100% o dderbynwyr y Grant Addasiadau Ffisegol, Grant Cyfleusterau i'r Anabl, Cronfa Gofal Integredig a Chyllid Landlord Cymdeithasol Cofrestredig Traddodiadol (yn seiliedig ar nifer fach iawn o ymatebion). Llwyddodd y canlyniad isaf, sef Cyllid Trosglwyddo Gwirfoddol ar Raddfa Fawr, i gael cytundeb o 95%.


**Siart 18: A yw gosod eich addasiad wedi gwella'ch llesiant?**




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru
Noder: Mae Cyllid Landlord Cymdeithasol Cofrestredig Traddodiadol wedi'i gynnwys ar gyfer cyflawnrwydd, ond mae'n seiliedig ar nifer fach iawn o achosion ac felly nid yw'n ddibynadwy.

5.14 Ar draws yr holl ffrydiau cyllido, cytunodd 98% fod yr addasiad wedi lleihau eu hangen am ofalwr. Y Cyllid Trosglwyddo Gwirfoddol ar Raddfa Fawr gafodd y gyfradd leiaf o gytundeb, ond roedd lefel uchel o hyd (92%) naill ai'n cytuno'n gryf neu'n tueddu i gytuno bod yr addasiad wedi lleihau'r angen am ofalwr.

**Siart 19: A yw gosod eich addasiad wedi lleihau eich angen am ofalwr?**




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Noder: Mae Cyllid Landlord Cymdeithasol Cofrestredig Traddodiadol wedi'i gynnwys ar gyfer cyflawnrwydd, ond mae'n seiliedig ar nifer fach iawn o achosion ac felly nid yw'n ddibynadwy.

5.15 Gofynnwyd i gwsmeriaid a oeddent yn fodlon ar yr addasiad gan ddefnyddio'r raddfa ganlynol:


- Bodlon iawn;
- Bodlon;
- Eithaf bodlon;
- Ddim yn fodlon nac yn anfodlon;
- Eithaf anfodlon;

- Anfodlon iawn; ac
- Amherthnasol.

5.16 Mae angen bod yn ofalus wrth ystyried canlyniadau'r cwestiwn hwn gan fod sawl anghysondeb yn y data. Roedd glanhau’r data’n cynnwys ail gategori 'bodlon iawn' a chategori 'cytuno'n gryf'. Hefyd, cafodd ymatebion yn dweud ‘Amherthnasol’ eu dileu. Oherwydd hyn, gall fod yn ddoeth seilio mesurau llwyddiant ar y tri chwestiwn am ganlyniadau sy'n canolbwyntio ar annibyniaeth yn y bennod hon, sef mwy o annibyniaeth, llesiant, a'r angen am ofalwr.

5.17 Serch hynny, yn amodol ar nodyn o rybudd, cofnodir lefelau uchel o fodlonrwydd. Yn nodedig, roedd 92% o gleientiaid HWYLUSO, 88% o gleientiaid y Grant Addasiadau Ffisegol a 93% o gleientiaid y Grant Cyfleusterau i'r Anabl yn fodlon iawn, yn fodlon neu'n eithaf bodlon â'r addasiad.

**Siart 20: Bodlonrwydd cwsmeriaid**




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Noder: Mae Cyllid Landlord Cymdeithasol Cofrestredig Traddodiadol wedi'i gynnwys ar gyfer cyflawnrwydd, ond mae'n seiliedig ar nifer fach iawn o achosion ac felly nid yw'n ddibynadwy.

# 6. Canfyddiadau: Gweithdai rhanddeiliaid

## Cyflwyniad

6.1 Er mwyn sicrhau bod yr ymchwil hon yn canolbwyntio ar atebion ac yn darparu awgrymiadau clir a chyflawnadwy o ran dangosyddion ar gyfer proses ddyrannu, cynhaliwyd dau weithdy rhanddeiliaid i wirio synnwyr y themâu a chynigion allweddol ar gyfer dangosyddion i ddod i'r golwg o’r ymchwil.

6.2 Ymgysylltwyd â 22 o randdeiliaid ar draws y ddau weithdy ar-lein a gynhaliwyd. Roedd y cyntaf yn cynnwys amrywiaeth o randdeiliaid o'r sector ac roedd yr ail yn cynnwys cynrychiolwyr gan gymdeithasau tai yn unig. Dangoswyd cyflwyniad i’r cyfranogwyr a oedd yn cynnwys rhai o'r prif ganfyddiadau o'r astudiaeth hon a gofynnwyd iddynt am eu hadborth.

6.3 Er bod rhai pethau cyffredin yn ystod eu trafodaethau, roedd y themâu allweddol a drafodwyd yn y ddau grŵp yn wahanol i raddau helaeth. Felly, adroddir am y canfyddiadau yn eu tro isod.

## Prif Ganfyddiadau: Gweithdy Rhanddeiliaid Cyffredinol

<u>Mae tegwch mynediad i'r system yn amrywiol, ond rhaid ei osod mewn cyd-destun</u>

6.4 Er bod y cyflwyniad yn cynnwys rhai sylwadau negyddol o'r cyfweliadau â rhanddeiliaid (gweler Atodiad A) sy'n ymwneud â chymhlethdod y system gyfredol ar gyfer dyrannu arian ar gyfer addasiadau, roedd cyfranogwyr yn awyddus i dynnu sylw at y ffaith fod y rhan fwyaf o'r adborth gan ddefnyddwyr gwasanaethau yn gadarnhaol ac y dylai'r adroddiad adlewyrchu hynny. Mae pryderon penodol yn ymwneud â thegwch neu annhegwch o ran sut ceir mynediad i'r system, y mae'r rhanddeiliaid yn pwysleisio nad yw'n pryder fel arfer i'r defnyddiwr gwasanaethau unigol, ond mae'n bryder i'r rheiny sy'n cyflawni ac yn goruchwylio'r broses ledled Cymru.

6.5 Lle mae gwario ar ddyraniad yn amrywio'n fawr ar draws awdurdodau lleol, mae cyfranogwyr yn teimlo y dylai hyn gael ei roi yn ei gyd-destun, gan nodi bod ffactorau allanol ar waith a allai esbonio'r anghyfartaledd. Un enghraifft yw'r ffaith

fod gan Ysbyty Athrofaol Cymru yng Nghaerdydd ddiffyg gwelyau ar gael, a allai olygu bod cleifion yn cael eu rhyddhau'n gynt nag y byddent mewn ardaloedd eraill, gan arwain at wario uwch ar addasiadau i sicrhau bod eu cartrefi'n barod ar unwaith. Mewn mannau eraill, gallai arian sy'n cael ei wario'n ddwys ar ofal fod yn lleihau oherwydd yr angen am addasiadau mewn cartrefi. Felly, mae'n rhaid i gymariaethau ar wariant ar addasiadau yn unig ledled Cymru gael eu gwneud â gofal ac yn eu cyd-destun.

> *"Rwyf wedi cael anhawster gyda gwariant oherwydd gall hwnnw fod yn cuddio problemau yn y system, sef na ddylai pobl orfod cael addasiadau yn y lle cyntaf."*

6.6 Roedd rhanddeiliaid yn teimlo bod y math o ddeiliadaeth yn chwarae rhan bwysig yn nhegwch mynediad. Mae'r sawl sy'n rhentu gan landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn fwy tebygol o fod yn ymwybodol o'r opsiwn o gael addasiad na pherchen-feddiannwyr a rhentwyr preifat. Hefyd, awgrymwyd bod landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn fwy tebygol o allu gwneud y newidiadau hynny'n weddol gyflym a chyda llai o fiwrocratiaeth yn eu ffordd.

> *"Mae'n her fawr yn y sector rhentu preifat o ran anghydraddoldeb ac mae yna wahaniaethau rhwng tenantiaid cymdeithasol ac y byddai'r mwyafrif sydd ar gael i berchen-feddiannwyr yn destun prawf modd … mae yna anghydraddoldeb deiliadaeth yn sicr y mae angen ei ystyried o bosib."*

6.7 Un o'r rhwystrau mwyaf sy'n effeithio ar degwch mynediad yw cael cymeradwyaeth gan landlordiaid ar gyfer addasiadau mewn cartrefi a rentir yn breifat. Mae hyn yn aml yn ymwneud â'r risg, neu'r risg a ganfyddir gan landlord, o wneud newidiadau i eiddo lle gall tenant symud allan o fewn cyfnod amser byr.

> *"… y mae'n ymwneud â gwneud addasiad i eiddo lle mae diffyg diogelwch deiliadaeth oherwydd, ar gyfer y mwyafrif, mae'r tenantiaid hyn dan denantiaeth tymor byr, felly … os gallwch gael cydsyniad y landlord, gallwch wneud yr addasiad ond, nid yw hynny i ddweud, wyddoch chi, na fydd rhaid i'r tenant symud i ddod o hyd i eiddo gwahanol mewn 12 mis."*

6.8 O ganlyniad, roedd y rhai sy'n cynrychioli landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn adrodd gweld tenantiaid yn symud i'w system oherwydd nad oedd modd iddynt gael mynediad i addasiadau yn y sector preifat. Yma, nid yn unig y gall tenantiaid gael mynediad i addasiadau'n weddol hawdd, yn enwedig rhai bach a chanolig, ond mae yna sicrwydd y bydd unrhyw waith yn cael ei gynnal yn barhaus.

6.9 Fel ateb posib i'r broblem, gwnaeth un o gynrychiolwyr yr awdurdodau lleol ddweud ei fod wedi bod yn ystyried ailgartrefu fel opsiwn yn amlach, yn arbennig yn lle cwblhau addasiadau mawr, cymhleth a drud. Drwy ddefnyddio'r Rhaglen Grantiau Tai Cymdeithasol, mae ganddynt yr opsiwn o brynu eiddo wedi'i addasu'n briodol gan landlord cymdeithasol cofrestredig neu adeiladu o'r newydd hyd yn oed. Yn naturiol, mae'r llwybr hwn yn gwneud y broses yn hwy i rai tenantiaid ond gallai fod yn ffordd o fynd i'r afael â'r anghydraddoldeb sy'n ymwneud â deiliadaeth sy'n bodoli yn y system.

6.10 Dangosydd anghyfartaledd arall yn y system sy'n ymwneud â daearyddiaeth yw'r ffaith y bydd rhai awdurdodau lleol yn 'ychwanegu' at y cap gwario o £36,000 ar addasiadau drwy'r Grant Cyfleusterau i'r Anabl ac na fydd rhai eraill yn gwneud hynny, gan ddibynnu ar eu polisïau mewnol. O ganlyniad, dywedwyd nad yw rhai addasiadau'n cael eu gwneud.

6.11 I ddefnyddwyr gwasanaethau, mae adborth cadarnhaol yn deillio o gael mynediad effeithiol i'r system a sicrhau bod yr addasiadau'n cael eu gosod yn effeithlon, a heb gost iddyn nhw gan mwyaf y dywedwyd. Mae rhanddeiliaid yn cytuno, felly, nad yw'n arbennig o bwysig i'r defnyddiwr gwasanaethau ddeall o ba gronfa arian y cafodd ei addasiad ei ariannu ohoni. Er efallai nad yw'n ddichonadwy uno'r holl ffrydiau cyllido, mae creu un pwynt cyswllt i ddefnyddwyr gwasanaethau sy'n cael mynediad i'r system addasiadau'n ddymunol. Gall hyn gynnig canfyddiad gwell o degwch yn y system.

Mae cynnal profion modd yn fater cymhleth

6.12 Ystyriwyd bod y mater o gynnal profion modd yn gymhleth. Mae yna farn wahanol ar yr effaith bosib o ddileu profion modd ar gyfer addasiadau ond y

teimlad cyffredinol yw bod caniatáu i addasiadau bach a rhai canolig gael eu cynnal heb gynnal prawf modd yn risg weddol isel.

6.13 Roedd nifer bach o gyfranogwyr yn teimlo bod risg y bydd y llifddorau'n agor ac y bydd ceisiadau'n llifo i mewn os bydd profion modd yn cael eu dileu. Fodd bynnag, roedd y therapyddion galwedigaethol a oedd yn cymryd rhan yn teimlo y byddai eu proses asesu i sicrhau mai'r rheiny ag angen go iawn yn unig sy'n derbyn addasiadau yn sicrhau na fyddai hynny'n digwydd.

> *"Nid yw pobl am gael addasiadau anabl yn eu cartrefi oni bai fod eu gwir angen arnynt."*

6.14 Byddai dileu profion modd ar gyfer rhai addasiadau canolig a mawr yn peri llawer mwy o risg ym marn y grŵp. Mae rhai addasiadau sy'n dod dan y categori 'canolig' yn weddol fawr a gall unigolyn dderbyn mwy nag un ohonynt, sy'n golygu y gallai buddsoddiad sylweddol gael ei roi i rywun a allai fod wedi fforddio talu amdano neu gyfrannu ato. Ar ben uchaf y raddfa, roedd cyfranogwyr yn ystyried y byddai'n anodd cymharu addasiadau a ariennir gan y Grant Cyfleusterau i'r Anabl â'r lleill oherwydd eu bod ar raddfa lawer mwy. Teimlwyd bod cynnal profion modd yn fater i Lywodraeth Cymru benderfynu arno.

> *"Ar hyn o bryd, rydym yn gweithio gyda'r system sydd gennym o ran deddfwriaeth. Mae'n seiliedig i raddau helaeth ar sicrhau bod rhai sy'n gallu talu yn talu … mae i gyd yn dibynnu ar le mae polisi Llywodraeth Cymru ar ddiwedd y dydd o ran lle maent am fod o ran cynnal profion modd a darparu cyfraniad tuag at addasiadau."*

> *"Mae yna bobl sy'n gallu ei fforddio ac yn hapus i dalu am y lefel honno o addasiad ac felly ni fydden ni am eu hariannu yn y sefyllfa honno. Mae llawer yn haws os gallwch ei wneud heb brawf modd."*

6.15 Nodwyd hefyd fod rhai pobl yn destun prawf modd am eu darpariaeth gofal gan y gwasanaethau cymdeithasol a bod y meini prawf yn wahanol. Holwyd a fyddai'n werth cysylltu asesiadau ar gyfer gofal ac addasiadau i rai defnyddwyr gwasanaethau, yn enwedig o safbwynt therapi galwedigaethol.

6.16 Mater arall a drafodwyd mewn perthynas â chynnal profion modd oedd y graddau y gall y broses hwyhau'r amser y mae'n ei gymryd i osod addasiad. Rhoddir llawer o'r addasiadau mwy cymhleth a ariennir gan y Grant Cyfleusterau i'r Anabl i bobl iau ag anghenion lluosog. Yn aml, gall y bobl iau hyn fod â strwythurau teuluol cymhleth, e.e. cynbartner sy'n hawlio perchnogaeth ar y cartref. Weithiau gall pobl hefyd fod yn amharod i rannu gwybodaeth bersonol oherwydd y cymhlethdodau hyn. O ganlyniad, gall y broses o gynnal prawf modd a phrofi perchnogaeth rhai cartrefi ymestyn yr amser y mae'n ei gymryd i gwblhau addasiad.

6.17 Oherwydd bod enghreifftiau o sefyllfaoedd teuluol penodol a ffactorau allanol eraill sy'n gwneud y broses o wneud cais am gyllid yn hwy ac yn fwy cymhleth, roedd y cyfranogwyr yn teimlo bod angen cymryd pwyll wrth gymharu amserau cwblhau yn rhifiadol. Mae hyn yn arbennig o wir am arian Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl oherwydd bod graddfa fwy'r addasiadau'n golygu eu bod yn fwy cymhleth yn eu hanfod.

> *“Mae yna amrywiadau enfawr yn ein hamserau addasu oherwydd y cymhlethdod mewn gwirionedd ac mae angen i ni hefyd ystyried materion staffio yn ogystal sy'n effeithio arnon ni …”*

<u>Gwnaeth cyfranogwyr gynnig rhai newidiadau i ffrydiau cyllido</u>

6.18 Wrth drafod a allai ffrydiau cyllido gael eu cyfuno wrth newid y system, roedd cyfranogwyr yn teimlo bod rhaid bod yn ofalus er mwyn sicrhau y caiff rhannau o'r system sy'n gweithio'n dda ar hyn o bryd eu cadw.

> *“Mae'r dywediad taflu'r llo a chadw'r brych yn dod i'r meddwl yma oherwydd bod rhannau o'r system yn gweithio'n dda iawn ac mae'n hawdd pigo ar bethau fel y Rhaglen Addasiadau Brys a gwaith Gofal a Thrwsio sydd am fod yn hyblyg, yn gyflym wrth ymateb, a chyflawni heb oedi na biwrocratiaeth. Dwi ddim yn credu y dylen ni amharu ar system mewn ffordd sy'n rhoi hynny mewn perygl.”*

6.19 Mewn byd delfrydol, roedd rhai'n teimlo bod system unedig yn apelio, ond nid ystyrir ei bod yn ymarferol. Ystyrir ei fod yn opsiwn gwell i edrych ar wella'r ffrydiau unigol lle ceir problemau penodol. Roedd pryder ymhlith rhai bod risg, drwy uno ffrydiau, o angen dweud wrth awdurdodau lleol sut y dylen nhw ymdrin â'u cyllidebau, rhywbeth na fyddai'n boblogaidd. Roedd pryder hefyd am sut y byddai cyllideb unedig yn sicrhau y byddai’r gwariant ar ddibenion gwahanol y ffrydiau unigol yn cael ei gynnal mewn modd teg. Fodd bynnag, derbyniwyd bod angen rhyw fath o newid o fewn rhannau o'r system gyfredol.

> *“Rydym wedi bod yn mynd o amgylch mewn cylchoedd er sawl blwyddyn yma, mae angen i ni ddechrau drwy gymryd camau bychain ymlaen. Fel arall, rydym yn mynd i barhau yn mynd o amgylch mewn cylchoedd."*

6.20 Wrth siarad am ffrydiau cyllido penodol, roedd cyfranogwyr yn teimlo nad yw arian HWYLUSO yn cael ei ddefnyddio'n gyson ledled Cymru. Fodd bynnag, roedd yna deimlad cryf ymhlith rhai cyfranogwyr nad oedd wedi'i ddylunio i fod yn gyson ac felly mae'n cyflawni ei ddiben, er ei fod yn ychwanegu cymhlethdod i'r system.

> *“Pan gafodd ei ddatblygu, roedd yn ymateb i geisio goresgyn rhai o'r problemau cynhenid gyda'r system gymhleth a oedd eisoes yn bodoli. Felly, roedd cael ychydig mwy o arian i'w gyfeirio i flaenoriaethau lleol, sy'n mynd i fod yn wahanol mewn ardaloedd gwahanol yn anochel, yn rhoi ffrwd gyllido, ymateb arall i bontio rhai o'r bylchau a oedd yn bodoli, felly mae wedi ychwanegu ei hunan i'r cymhlethdod o’i ystyried o’r safbwynt hwnnw."*

6.21 Roedd cytundeb cyffredinol bod y cap o £36,000 ar gyllid gan y Grant Cyfleusterau i'r Anabl yn rhy isel mewn llawer o achosion. Un awgrym i'w oresgyn hyn oedd cael 'cronfa' ganolog o gyllid dewisol yn nwylo Llywodraeth Cymru fel y gallai ceisiadau gael eu gwneud am arian y tu hwnt i'r £36,000 mewn amgylchiadau priodol.

6.22 Fel y soniwyd yn gynt, mae'n ddymunol darparu pwynt mynediad unigol cyson i'r defnyddiwr gwasanaethau at y broses cyflwyno cais am addasiadau, hyd yn oed os yw'r arian y mae'n ei dderbyn yn dod o’r amrywiaeth gyfredol o ffrydiau.

*“Yr argraff y mae pobl yn ei chael a’r symlrwydd a diffyg dryswch iddo sy'n bwysig, on’d yw … mae'n faes cymhleth ond i'r unigolyn yr hyn y mae am ei wybod yw a yw rhywun wedi gwrando arno, ei fod yn cael yr hyn y mae ei angen arno mor gyflym â phosib, a'i fod yn gallu byw ei fywyd mewn ffordd lawer gwell. Dyna sydd ei angen arno, dwi'n credu.”*

Mae cofrestrau tai hygyrch a gweithio mewn partneriaeth yn allweddol

6.23 Gwnaeth cyfranogwyr nodi bod cofrestrau tai hygyrch, neu ddiffyg cofrestrau, yn fater allweddol. Dyma bethau maent yn dweud a ddylai fod ar waith ond bod anghyfartaledd ledled Cymru. Gall cofrestrau hefyd fod yn broblematig, oherwydd gall cartref ddangos yn 'hygyrch' ar gofrestr ond ni fyddai'n addas i rywun ag anghenion hynod gymhleth neu efallai fod yr addasiad yno yn addas i angen penodol iawn y deiliad blaenorol. Mae bwlch hefyd yn yr wybodaeth hon ar gyfer y sector rhentu preifat gydag ychydig iawn o wybodaeth ar gael, er y gellid gwella lefel yr wybodaeth dros amser drwy gasglu data ar eiddo newydd.

6.24 Hefyd, dywedwyd bod gweithio mewn partneriaeth yn broblematig ar draws y sector iechyd a gofal cymdeithasol. Nid yw hyn yn ymwneud yn benodol ag addasiadau ond, gan fod addasiadau'n dod o fewn y sector, mae yna sgil effeithiau.

*“Mae'n dameidiog ac rwy'n meddwl, wrth symud ymlaen, ein bod yn datblygu'r llwybr integredig hwn ar gyfer addasiadau a dyna'r peth rydym yn sôn amdano mewn gwirionedd … nid oes ots o ble y daw'r arian - yr hyn sy'n bwysig yw beth yw'r cynnig i'r unigolyn hwnnw sydd angen yr addasiad hwnnw. Gallai hynny fod drwy therapydd galwedigaethol iechyd yn gwneud atgyfeiriad, gallai fod drwy therapydd galwedigaethol gofal cymdeithasol, neu gallai fod Gofal a Thrwsio yn gwneud atgyfeiriad ar gyfer y gwaith hwnnw. Felly, mae am sut y gallwn ei rannu, y llwybr, felly mae'n rhaid i ni chwalu’r gweithio mewn seilos."*

Mae canlyniadau a dangosyddion perfformiad allweddol yn bwysig, ond gallent fod yn fwy 'ansoddol' ac ni ddylent fod yn rhy ragnodol

6.25 Mae rhanddeiliaid yn ymwybodol o'r adborth cadarnhaol cyffredinol a ddarperir gan ddefnyddwyr gwasanaethau ond maent yn teimlo ei bod yn anodd dal a mesur canlyniadau ataliol addasiadau megis arbedion i'r GIG.

6.26 O ran casglu gwybodaeth am ganlyniadau, dywedodd sawl cyfranogwr eu bod wedi bod yn rhan o'r broses o ddatblygu holiadur cyson sy'n cael ei ddosbarthu i ddefnyddwyr gwasanaethau ledled Cymru ar ôl addasiad. Maent yn fodlon ar y math o ddata y mae hyn yn ei gynhyrchu ac yn gefnogol o gasglu rhai data ansoddol ar ganlyniadau ochr yn ochr ag ef.

6.27 Er bod cael dangosyddion perfformiad allweddol ar waith yn ddisgwyliedig ac yn cael ei barchu i raddau, nid oedd y grŵp yn teimlo ei bod yn ddoeth i'r rhain fod yn rhy ragnodol.

> *"Mae yna le am fesurau perfformiad oherwydd, ar ddiwedd y dydd, mae'n rhywbeth y mae'n rhaid inni ei gael … ni allaf ddychmygu byw heb un"*

Mae Safonau Gwasanaeth Llywodraeth Cymru yn gam tuag at wella cysondeb, a dylent bellach gael eu gwerthuso

6.28 Ystyriwyd bod cyflwyno Safonau Gwasanaeth Llywodraeth Cymru yn gam arall tuag at gyflawni cysondeb dull ledled Cymru. At y perwyl hwn, nid oeddent wedi cael eu cyflwyno am gyfnod digon hir i werthuso eu heffeithiolrwydd, ond roedd cyfranogwyr yn teimlo y byddai hwn yn amser da i ddechrau adolygu pa mor llwyddiannus yr oeddent wedi bod. Y cwestiwn allweddol y gwnaethant ei nodi i ofyn ar y cam hwn fyddai: "*A yw'r safonau wedi cyflawni'r hyn roeddent am ei gyflawni?"* Fodd bynnag, roedd y grŵp yn teimlo y dylai hyn fod yn sgwrs draws-sector, nid yn gyfyngedig i'r rheiny sy'n gweithio ar addasiadau yn unig, oherwydd y cafodd y Safonau Gwasanaeth eu dylunio i fod yn fwy pellgyrhaeddol nag addasiadau yn unig

**Prif Ganfyddiadau: Gweithdy Rhanddeiliaid Cymdeithasau Tai**

<u>Mae anghydraddoldeb systemig yn y broses addasiadau tai yn amlwg</u>

6.29 Roedd y rhanddeiliaid yn y grŵp hwn o'r farn fod anghydraddoldeb clir ynghylch arian y Grant Cyfleusterau i'r Anabl. Gwnaeth cyfranogwr sôn am fod yn ymwybodol, pan oedd yn gweithio mewn awdurdod lleol yn flaenorol, fod cronfa'r Grant Cyfleusterau i'r Anabl yn gwagio'n gynt na ffrydiau cyllido eraill a gwnaeth gwestiynu a oedd yr arian yn dueddol o 'ddod i ben yn gyflym'.

6.30 Soniwyd am ddeiliadaeth hefyd fel achos anghydraddoldeb ynghylch y Grant Cyfleusterau i'r Anabl oherwydd y gall pridiant cyfreithiol gael ei roi ar berchnogion tai sy'n derbyn addasiadau drwy'r Grant Cyfleusterau i'r Anabl, gan gostio mwy na £5,000. Teimlwyd bod hyn yn arwain at amharodrwydd ymhlith rhai defnyddwyr gwasanaethau i barhau gyda'r addasiad.

> *"Mae'n rhaid i chi gydnabod gyda pherchen-feddianwyr eu bod yn rhoi pridiant ar yr eiddo hefyd felly mae anghydraddoldeb os yw'n mynd dros werth penodol – maent yn rhoi pridiant ar eich eiddo"*

> *"Roedd llawer yn cael eu canslo oherwydd y cyfraniad uchel"*

6.31 Hefyd, teimlwyd bod anghyfartaledd daearyddol yn y system yn ymwneud â'r amser y mae'n ei gymryd i brosiect addasiadau gychwyn, yn enwedig y rhai sy'n cael eu gwneud drwy awdurdodau lleol. Mae yna ddiffyg therapyddion galwedigaethol mewn rhai ardaloedd, sy'n arwain at amserau aros hwy.

> *"Y pethau eraill sy'n ei gwneud yn annheg ac yn anodd i bobl sydd wir am gael addasiadau yw'r amser y mae'n ei gymryd i'w cael … mae yna gyfnod aros hir mewn awdurdodau lleol i hyd yn oed gychwyn ar bethau drwy gael therapydd galwedigaethol oherwydd bod llawer ohonynt yn cyflogi ychydig iawn o bobl a gall fod yn anodd iawn cychwyn arni a chynnal yr asesiad hwnnw."*

6.32 Yn adleisio'r drafodaeth yn y grŵp rhanddeiliaid arall, teimlwyd bod yr oedi wrth gyflawni addasiadau'n aml yn gysylltiedig â ffactorau allanol, yn enwedig yn achos addasiadau mwy o faint a mwy cymhleth. Nid ystyrir bod y system ei hun yn or-gymhleth.

*“Mae'r system yn weddol syml … y gallu ym mhob ardal sy'n ddiffygiol"*

6.33 Mater sy'n benodol i landlordiaid cofrestredig cymdeithasol yw, mewn llawer o achosion, yr opsiwn 'hawsaf' fyddai i unigolyn symud i eiddo sydd eisoes wedi'i addasu yn stoc y sefydliad yn lle aros am addasiad, yn enwedig os nad yw ei gartref cyfredol yn addas iawn ar gyfer addasiadau. Gall trafodaethau am hyn ychwanegu amser i'r broses o dderbyn addasiad oherwydd, yn amlach na pheidio, nid yw'r unigolyn am symud.

*"Os ydyw wedi bod yn byw yn yr eiddo am 30 o flynyddoedd, mae’n annhebygol iawn y bydd am symud i rywle arall oherwydd dyma yw ei gartref, felly rydych efallai yn y diwedd yn gwneud yr addasiad yno … ni allwch wrthod gwneud y gwaith o achos gwahaniaethu."*

6.34 Dywedwyd yn aml fod cost arall i'r landlord cofrestredig cymdeithasol yn y pen draw oherwydd y bydd angen iddo symud yr addasiadau hyn er mwyn gosod yr eiddo fel un sy’n addas ar gyfer 'anghenion cyffredinol'. Mae'n anodd ailosod eiddo sydd wedi'u haddasu i unigolyn anabl arall oherwydd bod addasiadau'n rhai personol.

<u>Mae cynnal profion modd a chyllidebau cyfun yn faterion cymhleth</u>

6.35 Unwaith eto, cafwyd barn gymysg ar a fyddai diddymu profion modd yn gweithio, gyda phryderon unwaith eto yn cael eu codi am effaith hyn ar yr addasiadau canolig i fawr. Roedd gan gyfranogwr dystiolaeth anecdotaidd o rôl yn y gorffennol lle gwnaeth pobl beidio â dewis parhau â'r broses ymgeisio oherwydd iddynt ddod yn ymwybodol y byddai'n seiliedig ar brawf modd – efallai nad oherwydd y gallant ei fforddio bob tro ond oherwydd y gallant dybio y bydd ond yn cael ei ddyrannu i'r rheiny sy'n hawlio budd-daliadau. Cafodd hyn ei adleisio yn y cyfweliadau â defnyddwyr gwasanaethau a’r gweithdy i randdeiliaid, yn ogystal ag mewn peth o'r llenyddiaeth a adolygwyd.

6.36 Teimlir bod profion modd yn rhoi gwedd negyddol ar rai agweddau ar y broses, yn yr ystyr y gellir eu dehongli fel cymhleth. Nid ystyrir ei bod yn ddefnyddiol cynnal prawf modd ar gyfer addasiad bach iawn, er enghraifft. Gyda landlordiaid

cofrestredig cymdeithasol, ystyrir bod y broses yn llai cymhleth heb yr angen am brawf modd.

> *“Fel landlordiaid cofrestredig cymdeithasol, rydym yn cael ein hunan-ariannu beth bynnag felly telir am yr addasiadau gennym ni, nid ydym yn defnyddio Grantiau Addasiadau Ffisegol, nid oes gennym unrhyw ffynonellau eraill, felly gallwn wneud y gwaith yn gyflym heb orfod mynd trwy gais lle rydym yn cynnal prawf modd."*

6.37 Wedi dweud hynny, teimlwyd bod yn rhaid i’r Grant Cyfleusterau i'r Anabl fod yn fwy biwrocrataidd ei natur oherwydd ei fod wedi'i ddylunio i reoli'r galw. Fodd bynnag, trwy edrych ar system y Grant Addasiadau Ffisegol, yr oedd sawl un yn dadlau ei bod yn haws cael mynediad iddi, ystyriwyd ei bod yn bwysig nodi nad yw'r system yn cynnwys gormod o geisiadau. Ym marn rhai, felly, mae’n annhebygol y byddai diddymu profion modd yn golygu cynnydd mawr yn nifer y ceisiadau.

> *“Mae pobl yn dueddol o gael addasiadau oherwydd bod eu hangen arnynt ac nid oherwydd eu bod am adnewyddu eu hystafell ymolchi"*

6.38 Fel y nodwyd gan y grŵp rhanddeiliaid arall, mae'n bwysig peidio ag ystyried gwariant yn y system addasiadau ar ei ben ei hun oherwydd gall fod yn arwain at lai o wariant mewn man arall.

> *“Un o nodau cael system addasiadau effeithlon yw y dylai ddarparu manteision mewn mannau eraill yn y system ehangach, er enghraifft cyllidebau iechyd a gofal cymdeithasol."*

6.39 Pan ofynnwyd iddynt am y posibiliad o gyfuno cyllidebau (fel y codwyd gan randdeiliaid yn ystod y cyfweliadau cwmpasu), roedd cyfranogwyr yn teimlo y byddai angen gwneud hyn yn ofalus iawn. Roedd ganddynt bryderon am sut byddai'n gweithio'n ymarferol ac roeddent yn teimlo y byddai angen ei reoli'n dda iawn, gan ddweud y gallai gynyddu'r gallu ar draul rhai grwpiau ac ymestyn anghydraddoldeb mynediad ymhellach.

> *“Maent yn systemau ac yn strwythurau mawr ynddynt eu hunain a gallant ddefnyddio llawer o adnoddau, felly nid wyf yn dweud na fyddai'n syniad da*

*ond rwy'n dweud bod mynd i gyllideb gyfun yn rhywbeth y byddai unrhyw gomisiynydd yn gorfod ei wneud â'i lygaid yn agored oherwydd bod angen eu rheoli, maent yn gyllidebau cymhleth i'w rheoli"*

Mae asesiadau sy'n seiliedig ar ganlyniadau'n hanfodol er mwyn sicrhau bod addasiadau'n 'addas i'r diben'

6.40 Roedd cytundeb bod gweithio'n ôl o'r canlyniad dymunol i unigolion wrth asesu eu hangen yn egwyddor gadarn. Gallai gweithio yn y ffordd hon arwain at lai o wastraff mewn gwario cyhoeddus. Rhannwyd enghraifft lle'r oedd unigolyn wedi gofyn i symud i dŷ newydd wedi'i addasu'n llawn cyn i'r addasiadau gael eu cwblhau i'w gartref cyfredol. Roedd yr opsiwn hwn wedi bod yn ddewis ers cyn cymeradwyo'r addasiadau.

6.41 Mater allweddol a oedd yn ymwneud â hyn oedd bod canllawiau a ddyrannwyd i gymdeithasau tai gan Lywodraeth Cymru yn pwysleisio y dylai addasiadau fod yn 'angenrheidiol ac yn briodol' yn ogystal ag 'yn rhesymol ac yn ymarferol' (gan adlewyrchu'r meini prawf y mae'n rhaid i awdurdodau lleol eu defnyddio wrth benderfynu ar Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl). Fodd bynnag, nid yw'r ddau bob tro'n cael eu gweld gyda'i gilydd. Yn benodol, os yr ateb mwyaf ymarferol yw symud cartref, gall hyn fod yn anodd i'r defnyddiwr gwasanaethau ei dderbyn.

*“Yn aml, nid yw'r hyn sy'n angenrheidiol ac yn briodol bob tro'n rhesymol ac yn ymarferol … yr unig beth sy'n gallu cael ei wneud i'r teulu yw awgrymu eu bod yn symud, sy'n sgwrs anodd ac mae'n cynnwys adrannau gwahanol yn ein sefydliadau, ond dyna'r peth cywir i'w wneud oherwydd ein bod yn gwybod na fyddwn yn gallu gwneud yr eiddo hwnnw fel y dylai fod at ddibenion y teulu."*

6.42 Yn aml, mae rhanddeiliaid yn gweld bod tenantiaid yn gwrthod symud, sy'n arwain at gyfres o addasiadau, pob un yn fwy cymhleth ac yn fwy drud na'r llall. Er hyn, efallai na fydd yr eiddo'n addas i’r tenant o hyd yn y tymor hir (h.y. os yw ar lethr serth ac mae’n byw yno ar ei ben ei hun). Mae cael y sgyrsiau hyn yn ychwanegu amser i'r broses addasiadau i'r unigolion hyn ond teimlir mai cael y sgwrs yw'r "peth iawn i'w wneud".

*“Canllaw cydio heddiw … lifft grisiau'r diwrnod wedyn … cawod mynediad gwastad ac yna rydych yn ystyried cyfleusterau llawr gwaelod nad oes modd eu cyflwyno i'r eiddo beth bynnag … cael y drafodaeth honno ar y cychwyn sy'n bwysig ond weithiau nid oes modd newid eu meddwl, nid ydynt am symud. Rydym wedi gallu symud tri neu bedwar unigolyn dros y pedair/pum mlynedd diwethaf."*

6.43 Gwnaeth y grŵp awgrymu y gallai dau beth gael eu gwneud i fynd i'r afael â rhai o'r materion gyda mapio’r cyflenwad a'r galw yn y sector. Y peth cyntaf yw defnyddio'r asesiadau o anghenion y boblogaeth a gynhelir gan awdurdodau lleol bob pum mlynedd, fel bod rhaid iddynt ei wneud yn ôl Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Byddai hyn yn darparu darlun ehangach o sut mae darparu addasiadau yn cyd-fynd â darparu gofal arall neu hyd yn oed yn ei atal. Y llall yw gwella cysondeb ar draws cofrestrau tai arbenigol, gan adlewyrchu barn y grŵp rhanddeiliaid arall. Dywedwyd bod canllaw arfer da diweddar gan Tai Pawb[26] yn fan cychwyn da yn ogystal â darn o ymchwil ddiweddar ar eiddo hygyrch yng Ngwent a oedd yn defnyddio arian y Gronfa Gofal Integredig.

*“Petaech yn gwneud y ddau beth hyn … gwneud cysylltiadau â'r asesiad o anghenion y boblogaeth ond hefyd ystyried cofrestrau tai a addaswyd … yna, mewn gwirionedd, rydych yn agos iawn at ateb y mater hwnnw o ran cydbwysedd rhwng y cyflenwad a'r galw."*

<u>Ni ddylai dangosyddion perfformiad allweddol fod yn rhy ragnodol</u>

6.44 Nid ystyrir bod dangosyddion perfformiad allweddol llym yn arbennig o ddefnyddiol ac maent yn rhywbeth y mae rhanddeiliaid yn teimlo eu bod wedi ceisio arwain Llywodraeth Cymru i fwrdd ohonynt i raddau.

*"Os daw dangosyddion yn rhywbeth y caiff popeth ei lywodraethu yn eu herbyn, yna'r oll maent yn ei wneud yw dylanwadu ar ymddygiad fel y bydd rhai pobl yn dueddol o weithredu i'r cyfyngiadau. Felly, rydym wedi*

[26] Tai Pawb, 2018. Tai ar gyfer pobl anabl: Pecyn cymorth ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru

*gwrthsefyll hynny drwy gydol y broses, ond rwy'n meddwl ei bod yn deg dweud bod y data sy’n bodoli yn annigonol.”*

6.45 Roedd cyfranogwyr yn teimlo bod mwy o le ar gyfer alinio rhannau gwahanol o'r system megis gofal cymdeithasol ac iechyd drwy ystyried y dangosyddion y mae pobl eraill yn gweithio tuag atynt.

Mae Safonau Gwasanaeth Llywodraeth Cymru'n cael eu cefnogi, ond gallant fod yn destun man ddiwygiadau

6.46 Mae cefnogaeth i Safonau Gwasanaeth Llywodraeth Cymru'n rhannu amserlenni disgwyliedig yn ôl maint yr addasiadau, a rhannu'r amserlenni ar gyfer addasiadau canolig a mawr yn ôl yr amser y dylai ei gymryd i weld therapydd galwedigaethol a'r amser y dylai ei gymryd i gwblhau’r broses ar ôl hynny. Felly ystyrir ei bod yn hanfodol mesur yr amser y mae'n ei gymryd i asesiad therapydd galwedigaethol gael ei gynnal, oherwydd bod hyn yn amrywio'n fawr ledled Cymru.

6.47 Yn ôl y cyfranogwyr, mae Safon Pump Safonau Gwasanaeth Llywodraeth Cymru,[27] ac yn benodol y rhan sy'n sôn am daliadau gwasanaeth, yn agored i gael ei dehongli a'i bod yn broblematig o bosib. Dylai fod cydbwysedd rhwng talu am gostau cynnal a chadw ar gyfer gosodiadau arbenigol heb gael rhai tenantiaid i dalu am eitemau safonol a'r gwrthdaro posib â'r Ddeddf Cydraddoldeb a allai fod yn ei sgil. Gwnaeth un rhanddeiliad rannu enghraifft benodol:

*“Mewn cartref prif ffrwd, anghenion cyffredinol, ni fyddech yn codi tâl ychwanegol am doiled oherwydd nid oes angen cynnal a chadw toiledau prif ffrwd, neu, chi’n gwybod, byddent yn destun atgyweiriad neu gael eu disodli petaent yn torri oherwydd eu bod yn elfen graidd o dŷ."Ond, yn yr un modd, gallen ni fod yn agored i gael ein herio dan y Ddeddf Cydraddoldeb lle mae toiled Closomat sy'n peri costau atgyweirio gwasanaeth cynnal a*

[27] “Bydd unrhyw gyfarpar sy'n cael ei osod yn cydymffurfio â gofynion iechyd a diogelwch perthnasol a manylebau technegol a bod yn briodol i'r diben y bwriadwyd iddo. Dylai'r defnyddiwr gwasanaethau hefyd gael ei hysbysu am y canlynol a bod yn ymwybodol ohonynt:gwybodaeth am warantiadau, taliadau gwasanaethau, a gofynion cynnal a chadw lle mae'n briodol gwneud hynny."

*chadw ond, pe byddech yn codi tâl am y gwasanaeth, y gwaith cynnal a chadw ac atgyweirio, byddech yn mynd i drafferth o bosib o safbwynt cydraddoldeb oherwydd eich bod yn cosbi rhywun oherwydd ei anabledd."*

6.48 Roedd cyfranogwyr yn teimlo nad oes gan Lywodraeth Cymru farn glir ar sut olwg ddylai fod ar y drefn taliadau am wasanaeth. Mae yna amrywiaeth o ffyrdd o fynd i'r afael â thaliadau gwasanaeth, sy'n peri anhawster. Teimlir, os bydd canllawiau'n cael eu dyrannu, y dylai fod ymgynghoriad, a fyddai'n cynnwys cymdeithasau tai oherwydd ei fod yn fater cymhleth. Pwysleisiwyd mai'r hyn y gofynnir amdano yw sgwrs gyda Llywodraeth Cymru – nid yw landlordiaid cofrestredig cymdeithasol o reidrwydd yn meddu ar farn unedig ar daliadau gwasanaeth.

*“Rwy’n meddwl y byddem am siarad ar y cyd am hyn ond byddai angen i ni benderfynu beth oedd ein barn cyn i ni fynd gerbron Llywodraeth Cymru.”*

*“Mae'n* [y drefn codi tâl am wasanaeth gyfredol] *teimlo’n fregus, nid yw'n teimlo'n gadarn, nid yw'n teimlo'n arbennig o gyson o'r sgyrsiau dwi'n eu cael gyda landlordiaid cofrestredig cymdeithasol oherwydd rwyf wedi gofyn i lawer ohonynt … mae'n troi'n gymhleth iawn a byddwn wir yn croesawu trafodaeth am hynny.”*

# 7. Canfyddiadau: Cyfweliadau manwl â defnyddwyr gwasanaethau

## Cyflwyniad

7.1 Cynhaliwyd deunaw cyfweliad â defnyddwyr gwasanaethau i ddeall eu profiadau byw o gael addasiad tai. Roedd y sampl yn cynnwys cymysgedd o berchnogion tai, rhentwyr preifat a thenantiaid cyngor / landlord cymdeithasol cofrestredig wedi'u gwasgaru ledled Cymru: roeddent yn amrywio o ran oedran a statws symudedd ac roeddent wedi derbyn cymysgedd o addasiadau bach, canolig a mawr. Cafodd cymysgedd o dderbynwyr wedi'u hariannu a heb eu hariannu hefyd eu cynnwys yn yr ymchwil.

7.2 Parhaodd y cyfweliadau oddeutu 30 munud, a cheisiwyd casglu barn pobl am y canlynol:

- Gwneud cais am addasiad;
- Unrhyw grantiau a gawsant i gael yr addasiad wedi'i osod;
- Y cymorth (os o gwbl) a gawsant trwy'r broses – ac unrhyw broblemau a gawsant wrth gyrchu'r cymorth hwnnw;
- Cael yr addasiad wedi'i osod;
- P'un ai yw'r addasiad wedi helpu; a
- Sut, os o gwbl, y gallai'r broses o gael addasiad fod wedi'i gwella?

## Y prif ganfyddiadau

<u>Ychydig o ymwybyddiaeth a gwybodaeth am y math o gymorth a chyllid oedd ar gael – ac nid oedd llawer am y broses gwneud cais chwaith</u>

7.3 Soniodd rhai defnyddwyr gwasanaethau ag anabledd tymor hir am fod yn y ‘system’ ers blynyddoedd lawer ar ôl cael llawer o addasiadau i’w cartrefi, ac, mewn rhai achosion, bu'n rhaid i rai symud cartref i ddiwallu eu hanghenion. Roedd y cyfranogwyr hyn yn tueddu i fod â gwybodaeth eithaf da o'r math o gymorth oedd ar gael, yn ogystal ag argaeledd cyllid.

7.4 Fodd bynnag, roedd angen addasiadau ar lawer o ddefnyddwyr gwasanaethau yn dilyn newid mewn amgylchiadau personol, megis marwolaeth partner, a oedd

yn golygu eu bod yn llai abl i ymdopi yn amgylchedd eu cartref, damwain ddifrifol, neu lawdriniaeth. Nid oedd yr unigolion hyn yn tueddu i fod â gwybodaeth dda am y cymorth sydd ar gael ar gyfer addasu eu cartref, nac ymwybyddiaeth o ble i chwilio am y wybodaeth.

7.5 Soniodd llawer o'r unigolion hyn, mewn gwirionedd, am yr angen am addasiadau ar adegau anodd iawn yn eu bywydau, lle roeddent yn falch o drosglwyddo'r cyfrifoldeb am ymchwil a cheisiadau i'w swyddog tai, gweithiwr cymdeithasol neu aelod o'u teulu. O edrych yn ôl, roedd rhai yn teimlo y dylent fod wedi gwneud mwy o ymchwil ar y pryd, ond dywedasant fod problemau eraill wedi cymryd eu sylw.

> *"Roeddwn i'n gweld yr holl beth yn hawdd. Roeddwn i'n teimlo bod llawer o'r gwaith wedi'i wneud i ni. Roeddem yn delio â thrawma gyda fy mam ar y pryd ac roeddwn i newydd golli fy nhad, felly'r peth olaf yr oedd ei angen arnaf oedd gorfod canolbwyntio ar yr addasiad. Cafodd y cyfan ei drefnu ar fy nghyfer. Roeddwn mor ddiolchgar."*

7.6 Ymddengys bod hyn hefyd yn wir gyda gwybodaeth am y cyllid a dderbyniwyd. Mae defnyddwyr gwasanaethau fel arfer yn gwybod a ydynt wedi derbyn cyllid ar gyfer addasiad, ond anaml y maent yn ymwybodol o'r ffrwd gyllido sy'n dyfarnu'r arian. Roedd nifer fach o ymatebwyr yn ymwybodol o'r Grant Addasiadau Ffisegol ond nid oedd ganddynt unrhyw ddealltwriaeth am beth oedd y grant a beth oedd ei werth.

> *"Nid wyf yn gwybod [o ble y daeth y cyllid] i fod yn onest. Dywedon nhw ar ôl ychydig y buaswn i'n cael grant. Daeth y grant o'r cyngor hyd y gwn i."*

7.7 Er bod y patrwm yn amrywio, yn enwedig ar gyfer rhentwyr preifat a perchen-feddianwyr, roedd defnyddwyr gwasanaethau yn gyffredinol yn croesawu cael 'pwynt cyswllt unigol' wrth ddelio â'r broses ymgeisio. Ymhlith y cyfranogwyr, roedd hyn yn tueddu i fod yn weithiwr cymdeithasol, yn weithiwr achos Gofal a Thrwsio, neu swyddog tai eu landlord cymdeithasol cofrestredig / y cyngor.

> *"Dywedon nhw y byddan nhw'n ei wneud, ac i 'beidio â phoeni am y peth nawr'. Ni wnaed llawer o stŵr am y peth."*

7.8 O ganlyniad, nid oedd defnyddwyr gwasanaethau yn tueddu i fod â gwybodaeth fanwl am y broses ymgeisio. Roeddent yn tybio eu bod yn cael eu hasesu mewn rhyw ffordd gan eu gweithiwr achos, swyddog tai neu weithiwr cymdeithasol ond nid oeddent yn deall yn llawn a oeddent yn destun prawf modd neu beth arall a oedd yn cael ei gynnwys yn y broses. O ganlyniad, roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yn ei ystyried yn broses gymharol ddidrafferth.

> *"Roedd y broses yn eithriadol o hawdd ac roedd pawb yn barod iawn i helpu ac fe wnaethant egluro'r holl beth yn fanwl. Roedd yn hawdd iawn, yn rhyfeddol o syml, gan eu bod yn egluro popeth wrth fynd ymlaen."*

7.9 Er bod defnyddwyr gwasanaethau wedi dweud iddynt gael eu hatgyfeirio i'w hasesu gan amrywiaeth o ffynonellau (er enghraifft, hunanatgyfeirio, gwasanaethau cymdeithasol, Gofal a Thrwsio, landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, swyddogion tai cyngor a staff ysbytai), un ffactor cyson yw pa mor gyflym yr oeddent yn teimlo roedd therapydd galwedigaethol wedi ymweld â nhw i asesu eu hanghenion.

7.10 Yn gyffredinol, ystyrir bod therapyddion galwedigaethol yn ddefnyddiol iawn ac yn broffesiynol, gyda pheth tystiolaeth gan gyfranogwyr yn nodi bod eu gwaith i asesu anghenion teuluoedd cyfan yn arbennig o fuddiol.

<u>Mae addasiadau 'bach' yn fwyaf cyffredin ymhlith pobl hŷn – ond mae pobl iau yn tueddu i fod â rhai mwy</u>

7.11 Yn fwyaf cyffredin, roedd pobl hŷn a oedd yn rhan o'r ymchwil hon wedi derbyn detholiad o addasiadau 'llai', gan gynnwys gwahanol fathau o ganllawiau a rampiau bach. Roedd addasiadau 'canolig' hefyd yn gyffredin, yn enwedig addasiadau i ystafelloedd ymolchi a lifftiau grisiau. Roedd addasiadau mwy ychydig yn llai cyffredin, gan gynnwys newidiadau mawr i ystafelloedd ymolchi a cheginau. Gwelwyd y rhain yn nodweddiadol pan oedd symudedd unigolyn wedi gostwng yn sylweddol, ac roeddent yn gorfod addasu i ddefnyddio cadair olwyn. Roedd yr unigolion hyn yn tueddu i fod yn iau ac wedi dioddef damwain neu gymhlethdodau yn dilyn llawdriniaeth. Mae'r data'n cefnogi'r safbwyntiau hyn. Roedd 83% o'r addasiadau a ddarparwyd i'r grŵp oedran 65 i 74 yn y categori 'bach', gan godi i 90% o'r addasiadau a ddarparwyd i'r grŵp oedran 75 a

throsodd. Roedd mwyafrif yr addasiadau a oedd yn weddill yn y categori ‘canolig’: 16% yn y grŵp oedran 65 i 74 a 9% yn y grŵp oedran 75 a throsodd.

7.12 Yn ôl y disgwyl, nododd y cyfranogwyr hynny a dderbyniodd y mwyaf o addasiadau bach fod y gwaith yn cael ei wneud o fewn yr amserlen gyflymaf, weithiau o fewn dyddiau i'w cymeradwyo. Serch hynny, yr amserlen fwyaf cyffredin ar gyfer cwblhau addasiadau yw ychydig wythnosau. Adroddodd y rhai â mwy o addasiadau mawr fod y gwaith yn digwydd dros ychydig fisoedd. Roedd yr adborth yn gadarnhaol ar y cyfan a hynny o ran faint o amser mae'r gwaith yn ei gymryd, gyda rhai'n synnu pa mor gyflym y cafodd pethau eu cwblhau i safon uchel, hyd yn oed yn ystod y pandemig COVID-19.

> *“Roedd yn gyflym. Ni allaf roi union amser i chi ond rydyn ni'n siarad am wythnosau nid misoedd. Fe anfonwyd y cais a chafodd ei gymeradwyo mewn amser llawer cyflymach nag yr oeddwn wedi'i ragweld.”*

> *“Cafodd ei wneud yn gyflym; cafodd ei wneud yn dda iawn, iawn. Gwell nag yr oeddwn i wedi'i ddisgwyl. Nid oedd llanast ar ôl y gwaith; roedd pob man yn lân, ac roedd yn edrych yn neis hefyd. Roeddwn wedi rhyfeddu.”*

7.13 Nododd nifer lleiafrifol o gyfranogwyr ag achosion mwy cymhleth a oedd yn cynnwys sawl addasiad amserlen hirach i gwblhau'r gwaith, hyd at flwyddyn. Yn gyffredinol, nid oedd yr amserlen hirach hon yn cael ei hystyried yn broblem, ond roedd un cyfranogwr yn teimlo y gallai ei swyddog tai / gweithiwr achos fod wedi cyfathrebu am gynnydd y gwaith yn well yn ystod yr amser hwn.

> *“Roeddwn i’n teimlo fel tenant na chefais fy hysbysu llawer … nid oedd gen i fawr o wybodaeth am yr hyn oedd yn digwydd. Rwy’n cofio cael galwad ffôn ar y dydd Gwener yn dweud eu bod yn dod i wneud y gwaith dydd Llun a dyna sut y digwyddodd.”*

7.14 Yn yr achos hwn, roedd y defnyddiwr gwasanaethau wedi ymuno â’i banel preswylwyr ac wedi darparu adborth ar sut y gellid gwella’r broses ymgeisio, gyda ffocws penodol ar gyfathrebu. Mae'r gymdeithas dai dan sylw wedi diweddaru ei harferion o ganlyniad i hyn.

Ystyriwyd bod ansawdd yr addasiadau yn uchel

7.15 Roedd canmoliaeth uchel am ansawdd yr addasiadau, yn ogystal ag i'r rhai sy'n ymgymryd â nhw. Roedd defnyddwyr gwasanaethau yn gyffredinol yn hapus gyda'r gwaith a wnaed ac yn aml yn adrodd bod eu contractwyr wedi gwneud eu gorau glas i sicrhau bod y gwaith yn gweddu i'w hanghenion.

> *"Cafodd y gwaith ei wneud gyda thosturi a phroffesiynoldeb, popeth roeddwn i ei eisiau mewn gwirionedd. Roedd y broses yn effeithlon iawn, ac nid oedd y gŵr a wnaeth y gwaith yn fusneslyd o gwbl. Roedd yn ŵr neis iawn. Roedd yn hyfryd … yn hawdd mynd ato hefyd … Fe wnaeth fy mesur a cherddais gydag ef i ddangos yr uchder cywir. Roeddwn i'n rhan o bob un o'r ymgynghoriadau ar gynllunio'r gwaith, yn ystod y camau cychwynnol … a thra oedd yn cael ei osod. Pob cam o'r ffordd. Y ddau ohonom gyda'n gilydd. Roedd ymdrech gydlynol rhwng y peiriannydd a'r derbynnydd. Ac mae'r canlyniad yn profi hynny. Mae'n wirioneddol wych."*

7.16 Fodd bynnag, nododd rhai defnyddwyr gwasanaethau a gymerodd rhan fod rhywfaint o dystiolaeth o ddiffyg ymgynghori ar addasiadau mawr, yn enwedig wrth addasu ceginau. Dywedodd nifer fach o ddefnyddwyr gwasanaethau, ar ôl i'r therapydd galwedigaethol ymweld â nhw a thrafod eu hanghenion, na chaniatawyd iddynt roi mewnbwn pellach i ddyluniad eu gosodiadau.

> *"Pan fyddaf yn edrych ar yr edrychiad ffisegol, ni allaf ei ddefnyddio … hoffwn pe bai rhywun wedi dod i siarad â mi a gallwn fod wedi siarad am fy mhrosesau a sut y byddai rhai pethau'n fy helpu a phethau eraill na fyddai'n fy helpu."*

7.17 O ganlyniad, nododd rhai defnyddwyr gwasanaethau nad yw eu cegin yn diwallu eu hanghenion ac, mewn un achos, yn llai defnyddiol na'r gegin nad oedd yn hygyrch yn flaenorol. O'r herwydd, ni allant goginio pryd o fwyd i'w teulu yn rheolaidd fel yr oeddent wedi gobeithio.

> *"Roedd ychydig o oediadau gyda'r arwynebedd, y popty a'r cynllun … ychydig o faterion na chawsant eu hystyried … Er mwyn datrys y broblem gyda'r popty … cawsom y therapydd galwedigaethol a'r bobl o'r asiantaeth*

*Gofal a Thrwsio a'r gymdeithas dai naill ai i dalu amdano, neu i ofyn am fwy o arian. Gofyn am fwy o arian a wnaethant yn y pen draw ac aeth hynny yn iawn … ond mae'r holl waith wedi'i wneud ac nid oedd o fudd i mi oherwydd ni allaf ddefnyddio'r popty."*

7.18 Nododd mwyafrif y defnyddwyr gwasanaethau fod gwiriadau wedi'u gwneud i asesu ansawdd eu haddasiad ar ôl ei gwblhau. Mae'n ymddangos bod y rhain yn gymharol â maint y gwaith, gydag apwyntiad dilynol cyflym i'r rhai sy'n derbyn addasiadau bach ac apwyntiad mwy trylwyr ar gyfer addasiadau mwy.

7.19 Gwnaethpwyd rhai o'r rhain dros y ffôn, gyda'r defnyddiwr gwasanaethau yn anfon llun o'r gwaith terfynol yn ystod cyfyngiadau COVID-19. Roedd y cyfranogwyr yn deall y rhesymau am hyn.

Mae'r rhan fwyaf o addasiadau wedi cael effaith gadarnhaol ar ansawdd bywyd

7.20 Adroddodd defnyddwyr gwasanaethau a'u gofalwyr y gall hyd yn oed addasiadau bach gael effaith gadarnhaol ar ansawdd eu bywyd. Cafwyd llawer o adborth gan ddefnyddwyr gwasanaethau a gymerodd ran a oedd yn awgrymu bod addasiadau wedi arwain at gynnydd mewn annibyniaeth neu fod yr annibyniaeth a gollwyd oherwydd damwain neu oherwydd dirywiad cyffredinol mewn iechyd a symudedd yn cael ei hadennill. O ganlyniad i'r addasiad, dywedodd sawl cyfranogwr eu bod yn gallu gwneud pethau gartref yn annibynnol y byddai wedi bod angen help gofalwr arnynt i'w gwneud o'r blaen.

*"Mae fy mam wedi cael ei chadw'n ddiogel; mae hi'n hapus … Mae'n dawelwch meddwl i mi, yn amlwg. Mae hi wedi gallu cadw ei hannibyniaeth ac aros yn y tŷ …"*

7.21 Roedd teimlad cyffredinol ymhlith cyfranogwyr bod cael addasiad yn ei gwneud hi'n haws byw gartref, gyda rhai'n dweud ei fod wedi caniatáu iddynt aros yn eu cartref eu hunain naill ai heb ofal ffurfiol neu heb orfod symud i gyfleuster arall.

*"Rydw i nawr yn teimlo'n ddiogel yn mynd i mewn i'm tŷ. Nid oes gennyf unrhyw beth yn fy mhoeni. Mae fy nheulu wedi rhyfeddu. Mae'r ffaith fy mod i'n ddiogel yn gwneud pawb yn hapusach."*

7.22 Agwedd gadarnhaol arall a adroddwyd gan lawer yw'r teimlad o fod yn llai cyfyngedig yn eu cartref oherwydd yr addasiad/au. Erbyn hyn, mae cyfranogwyr sydd wedi cael canllawiau, rampiau a grisiau wedi'u gosod y tu allan yn teimlo y gallant ddefnyddio eu gofod y tu allan yn well.

7.23 Mae eraill wedi magu hyder wrth symud o gwmpas y cartref ac yn teimlo eu bod yn llai tebygol o gael damwain wrth wneud hynny.

> *“Ni fyddwn i wedi ymdopi hebddo. Mae wedi ein helpu yn aruthrol; mae wedi bod yn fendith. Ni fyddwn i'n gallu mynd i fyny'r grisiau heb y canllaw.”*

7.24 Mae rhywfaint o dystiolaeth hefyd o'r cyfweliadau bod addasiadau yn cael effaith gadarnhaol ar deuluoedd cyfan, nid dim ond yr unigolyn a gafodd ei asesu am gymorth. Mae hyn yn arbennig o wir am gyplau oedrannus lle mae un partner bellach yn cael ei hun mewn gwell sefyllfa i helpu a chefnogi'r llall yn y cartref.

> *“Gallaf fynd o amgylch y tŷ, gallaf eistedd yn fy nghadair olwyn, sy'n golygu nad wyf wedi fy nghyfyngu mwyach. Gyda'r drysau wedi'u lledu, mae gymaint haws. Mae'n golygu bod gennyf annibyniaeth; roedd rhaid i'm gŵr fod yno i fy nghodi a'm cario o gwmpas. Mae'n wahaniaeth enfawr i bob un ohonom; mae'n golygu y gallaf baratoi'r llysiau dros y Nadolig, a gwneud tasgau bach o gwmpas y tŷ. ”*

<u>Roedd y gwaith yn effeithlon ar y cyfan, o safon dda, ac roedd y dull yn ‘canolbwyntio ar yr unigolyn’</u>

7.25 Ymhlith y rhai a dderbyniodd addasiadau ar raddfa fach, roedd canmoliaeth am ba mor gyflym y mae'r gwaith wedi'i gwblhau, ei ansawdd, a phroffesiynoldeb y gwasanaeth. Yn wir, dywedon nhw fod y gwaith yn gyffredinol wedi’i gwblhau’n effeithlon ac i safon uchel, a bod ‘dull sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn’ yn cael ei gymryd tuag at y broses.

> *“Nid wyf yn gweld sut y gallan nhw wella'r broses. Fe wnaethon nhw hyd yn oed ofyn i'm gwraig pa liw roedd hi eisiau'r llawr – roedd pethau bach fel hynny yn golygu llawer. Ni wnaethon nhw gyrraedd a dweud, ‘Dyma beth rydych chi'n ei gael a dyna ni.’”*

7.26 Yn benodol, roedd y cyfranogwyr yn canmol y timau Gofal a Thrwsio ledled Cymru. Teimlai defnyddwyr gwasanaethau eu bod yn broffesiynol a thrylwyr yn eu dull bob amser, ac y gallent gysylltu â'u gweithiwr achos gydag unrhyw broblemau.

7.27 Awgrymodd nifer leiafrifol o'r cyfranogwyr a oedd yn teimlo bod lle i wella fod cyfathrebu yn allweddol. Ymhlith yr enghreifftiau, mae sicrhau bod asesiad llawn a gwaith dilynol bob amser yn cael eu cynnal, peidio â chyffredinoli anabledd a thrafod sut mae'r unigolyn yn cael ei effeithio'n llawn, a sicrhau bod digon o rybudd yn cael ei roi pan fydd gwaith mawr ar gartref ar fin dechrau.

> *"Weithiau roedden nhw'n cyffredinoli anabledd. Mae fy ngŵr mewn cadair olwyn a dywedon nhw, 'Wel, mae hynny'n golygu y bydd cryfder eich corff uchaf yn wael, felly nid yw hyn yn mynd i fod yn gyfleus i chi.' Ond mae fy ngŵr yn gwybod beth y mae'n gallu ei wneud, ac weithiau nid yw pobl yn barod i wrando oherwydd bod pob anabledd yn wahanol, gyda chryfderau a gwendidau gwahanol … Rwy'n credu bod gwrando ar yr unigolyn [yn bwysig]. Ar ddiwedd y dydd, mae'r unigolyn ei hun yn gwybod beth sydd ei angen arno ef yn well nag y mae unrhyw un arall yn gwybod."*

7.28 Nid yw'n ymddangos bod COVID-19 wedi cael effaith sylweddol ar y rhai sydd eisoes yn derbyn addasiadau neu yr oedd eu ceisiadau eisoes wedi'u cymeradwyo o safbwyntiau defnyddwyr gwasanaethau. Parhawyd i wneud gwaith mewn llawer o achosion, ac er yr adroddwyd am rywfaint o oedi, roedd defnyddwyr gwasanaethau yn gyffredinol yn deall. Nododd sawl un hefyd fod eu pwynt cyswllt wedi bod mewn cysylltiad yn rheolaidd i wirio eu bod yn dal yn hapus, a bod unrhyw addasiadau sydd ar y gweill yn parhau i fod mewn cyflwr da yn ystod y pandemig.

> *"Yn ystod y cyfyngiadau symud, maen nhw wedi bod yn fy ffonio sawl gwaith i weld a ydw i'n iawn ac a oes angen unrhyw beth arnaf. Gofynasant a oedd gennym bethau yn y fan a'r lle rhag ofn i un ohonom gael COVID-19 … Maent wedi bod yn bryderus iawn. Rwy'n credu ei bod yn anghredadwy pa mor dda maen nhw wedi bod."*

7.29 Dywedodd nifer fach iawn o ddefnyddwyr gwasanaethau fod angen cymorth ychwanegol arnynt ar adeg eu cyfweliad, neu newidiadau i'w addasiadau cyfredol, fel arfer y rhai sy'n fwy o ran graddfa. Roedd cyfranogwyr yn credu na fyddai unrhyw beth yn cael ei wneud yn ystod y cyfnod hwn oherwydd COVID-19, ac felly roedd ansicrwydd ynghylch pryd y byddai'r sefyllfa'n gwella.

# 8.

## Casgliadau

**Cwestiynau ymchwil allweddol**

8.1 Mae'r casgliadau canlynol wedi'u fframio o gwmpas cwestiynau ymchwil allweddol Llywodraeth Cymru, a oedd fel a ganlyn:

- Sut mae'r ffrydiau cyllido unigol ar gyfer addasiadau i dai yn cael eu dyrannu a'u gwario ledled Cymru yn ôl: ardal awdurdod lleol, grwpiau oedran, anabledd corfforol, a maint (bach, canolig a mawr fel y'i diffinnir yn Safonau Gwasanaeth Llywodraeth Cymru)?
- A yw'r dyraniad a'r gwariant ar ffrydiau cyllido addasiadau i dai yn adlewyrchu anghenion y boblogaeth?
- Beth yw'r rhwystrau rhag cyrchu a derbyn cymhorthion ac addasiadau?
- Beth yw cryfderau'r broses ar gyfer cyrchu a derbyn cymhorthion ac addasiadau?
- Pa gymorth y mae defnyddwyr gwasanaethau yn ei gael i'w helpu i gael mynediad at addasiadau?
- Beth yw nodweddion allweddol gwasanaeth da mewn perthynas â chymhorthion ac addasiadau?
- Beth allai fod yn ddangosyddion priodol ar gyfer proses ddyrannu i ffrydiau cyllido addasiadau tai, a sut y gallai'r rhain fod yn gysylltiedig â Safonau Gwasanaeth arfaethedig Llywodraeth Cymru?

**Casgliadau allweddol**

*Cwestiwn Ymchwil 1 – Sut mae'r ffrydiau cyllido unigol ar gyfer addasiadau i dai yn cael eu dyrannu a'u gwario ledled Cymru yn ôl: ardal awdurdod lleol, grwpiau oedran, anabledd corfforol, a maint (bach, canolig a mawr fel y'i diffinnir yn Safonau Gwasanaeth Llywodraeth Cymru)?*

8.2 Nodwyd rhybudd pwysig yn un o'r gweithdai rhanddeiliaid, sef pan fydd gwariant ar ddyraniad yn amrywio'n fawr ar draws awdurdodau lleol, dylid ei osod yn ei gyd-destun gan fod ffactorau allanol a allai esbonio'r gwahaniaeth. Un enghraifft

o hyn yw diffyg gwelyau yn Ysbyty Athrofaol Cymru yng Nghaerdydd, a allai olygu bod cleifion yn cael eu rhyddhau yn gynt nag y byddent mewn ysbyty arall, gan arwain at wariant uwch ar addasiadau i wneud eu cartrefi'n barod yn syth – ond, mewn mannau eraill, gallai rhoi cyllid dwysach i ofal fod yn lleihau'r angen am addasiadau. Felly, rhaid i gymariaethau gwariant ar addasiadau ledled Cymru fod yn ofalus a chyd-destunol bob amser.

8.3 Yn seiliedig ar ffigurau wedi'u safoni yn ôl oedran, mae'r gost a ddyrennir o fewn ardaloedd awdurdodau lleol fesul 1,000 o bobl yn amrywio yn ôl oedran; mae rhai yn blaenoriaethu cyllid ar gyfer pobl hŷn, mae rhai yn blaenoriaethu pobl iau. Mae hyn yn arwyddocaol gan fod safoni yn ôl oedran yn cyfrif am y strwythurau oedran gwahanol yn y boblogaeth rhwng ardaloedd awdurdodau lleol. Mae Powys, Sir Fynwy a Thorfaen yn dyrannu cyfran fwy o arian i bobl 75 oed a hŷn nag y mae Ceredigion, Sir Benfro, a Rhondda Cynon Taf. Mewn cyferbyniad, mae ardal Ceredigion a Sir Benfro yn dyrannu cyfran fwy i bobl rhwng 19 a 55 oed nag unrhyw ardal awdurdod lleol arall.

8.4 Er y gellir blaenoriaethu gwahanol grwpiau oedran, mae'r gwir gostau wedi'u safoni yn ôl oedran yn dangos y gellir cyfeirio cronfeydd sylweddol at y grwpiau oedran â blaenoriaeth is o hyd; mae Rhondda Cynon Taf yn dosbarthu dros £6,000 i bob 1,000 o bobl 75 oed a hŷn o'i gymharu â thua £1,250 ym Mhowys. O ystyried y grwpiau oedran iau, mae Rhondda Cynon Taf yn dosbarthu dros £3,000 i bob 1,000 o bobl rhwng 19 a 55 oed o'i gymharu â thua £2,800 yng Ngheredigion a Sir Benfro.

8.5 Mae'r costau ar gyfer ffrydiau cyllido yn amrywio o £25,112 ar gyfer Cyllid Landlord Cymdeithasol Cofrestredig Traddodiadol i £18.8 miliwn ar gyfer cyllid y Grant Cyfleusterau i'r Anabl, sydd dros 50% yn fwy na'r holl ffrydiau cyllido eraill gyda'i gilydd.

8.6 Dylid ystyried pwrpas y ffrydiau cyllido wrth osod safonau; roedd y costau canolrifol ar gyfer Grantiau Addasiadau Ffisegol a Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl ychydig dros £3,500. Ar gyfer pob ffrwd gyllido arall, syrthiodd y canolrif i ystod o £81 rhwng £90 a £171. Mae hyn yn adlewyrchu'r cymhlethdod yn ogystal â maint yr addasiad.

8.7 Gall y categori canolig gynnig y cyfle mwyaf ar gyfer enillion effeithlonrwydd. Mae'r swm mwyaf o arian yn cael ei wario ar addasiadau canolig trwy dair prif ffynhonnell: Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl, Grantiau Addasiadau Ffisegol, a Chyllid Awdurdodau Lleol (Arall). At ei gilydd, fe wnaeth addasiadau canolig ddenu £18.91 miliwn o gyllid o'i gymharu â £6.62 miliwn ar gyfer addasiadau mawr a £4.82 ar gyfer addasiadau bach. Mae 29% o gostau'r Grant Addasiadau Ffisegol a 27% o gostau'r Grant Cyfleusterau i'r Anabl ar gyfer addasiadau mawr.

8.8 Mae addasiadau bach yn cynnig llai o le ar gyfer enillion effeithlonrwydd, oherwydd y gymhareb cyfaint i gost amlwg. Mae cyllid categori bach yn darparu ar gyfer 85% o'r holl addasiadau, cyllid canolig ar gyfer 13% o'r holl addasiadau, a chyllid mawr ar gyfer 1% o'r holl addasiadau. O ystyried y ffrydiau cyllido unigol, roedd dros 70% o'r holl addasiadau o dan yr holl ffrydiau cyllido ac eithrio'r Grant Addasiadau Ffisegol a'r Grant Cyfleusterau i'r Anabl yn y categori bach, gyda dim mwy na 9% mewn unrhyw ffrwd gyllido yn addasiadau mwy.

8.9 Mae costau canolrifol ar gyfer addasiadau bach, canolig a mawr yn amrywio rhwng ffrydiau cyllido. Y costau canolrifol ar gyfer addasiadau mawr a ariennir trwy'r rhaglen HWYLUSO a Chyllid Trosglwyddo Gwirfoddol ar Raddfa Fawr yw £6,000, o'u cymharu â £10,000 i £12,000 ar gyfer y Grant Addasiadau Ffisegol a Chyllid Awdurdodau Lleol (Arall) a £13,943 ar gyfer y Grant Cyfleusterau i'r Anabl. Mae'n anodd darganfod a yw'r costau canolrifol gwahanol hyn yn gysylltiedig â chymhlethdod y gwaith dan sylw, neu'n gysylltiedig â ffactorau eraill.

8.10 Mae darparwyr yn ddibynnol ar ddwy neu dair ffrwd gyllido yr un. Bydd rhai o'r ffrydiau cyllido hyn o leiaf yn hanfodol i fusnes y darparwyr unigol.

8.11 Mae'r gwahanol ffrydiau cyllido yn darparu ar gyfer gwahanol grwpiau oedran. Yn gyffredinol, mae 66% o addasiadau yn cael eu gwneud ar gyfer pobl 75 oed a hŷn, gyda'r 17% arall i bobl rhwng 65 a 74 oed, ond mae'r darlun yn wahanol ar gyfer ffrydiau cyllido unigol. Er enghraifft, mae'r grŵp oedran 19 i 54 yn cyfrif am 32% o'r addasiadau a ariennir gan y Grant Addasiadau Ffisegol.

8.12 Yn ôl maint yr addasiad, mae'r cyllid wedi'i gyfeirio'n ystyrlon at bobl sydd â gwahanol anghenion yn ôl oedran. Mae addasiadau canolig a mawr yn cyfrif am

38% o'r addasiadau ar gyfer plant a phobl ifanc hyd at 18 oed, a 31% ar gyfer y grŵp oedran 19 i 55. Mewn cyferbyniad, mae 83% o'r addasiadau ar gyfer y grŵp oedran 65 i 74, a 90% ar gyfer y grŵp oedran 75 a hŷn, yn addasiadau bach.

8.13 Mae ystyried perthynas yr oedran a'r ffrwd gyllido o safbwynt grwpiau oedran yn dangos bod gan fwyafrif y grwpiau oedran iau (0 i 18 a 19 i 54) addasiadau a wnaed gyda chyllid gan y Grant Addasiadau Ffisegol a Chyllid Awdurdodau Lleol (Arall). Y grwpiau oedran 65 a hŷn sydd â'r mwyafrif o addasiadau'n cael eu gwneud o dan y rhaglen HWYLUSO, Cyllid Awdurdodau Lleol (Arall) a'r Rhaglen Addasiadau Brys.

8.14 Mae'r amser ar gyfer cyflwyno addasiadau fel arfer yn cael ei fesur mewn dyddiau, gan ddangos lefel o effeithlonrwydd. Mae gan ddwy ffrwd gyllido amseroedd canolrifol uchel ar gyfer cyflwyno'r addasiad ar ôl nodi'r angen: y Grant Addasiadau Ffisegol (119 diwrnod) a'r Grant Cyfleusterau i'r Anabl (99 diwrnod), o'u cymharu ag 13 diwrnod ar gyfer pob addasiad. Gallai'r amseroedd hyn fod oherwydd cymhlethdod llawer o addasiadau a wnaed o dan y ddwy ffrwd gyllido, fel y trafodwyd mewn man arall yn yr adroddiad hwn.

8.15 Y prif ganlyniad a ragwelir o ran yr addasiadau yw eu bod yn atal cwympiadau yn unol â swm y cyllid sy'n cael ei gyfeirio at bobl hŷn. Rhagwelir y bydd rhwng 44% a 60% o'r addasiadau a wneir o dan y rhaglen HWYLUSO, Cyllid Awdurdodau Lleol (Arall), y Rhaglen Addasiadau Brys, Cyllid Landlord Cymdeithasol Cofrestredig Traddodiadol a Chyllid Trosglwyddo Gwirfoddol ar Raddfa Fawr yn atal cwympiadau.

8.16 Yr ail brif ganlyniad a ragwelir yw mwy o annibyniaeth mewn bywyd beunyddiol: 94% o'r Grant Cyfleusterau i'r Anabl, 66% o'r Grant Addasiadau Ffisegol a 55% o'r Cyllid Trosglwyddo Gwirfoddol ar Raddfa Fawr. Mae'r canlyniad hwn yn berthnasol ar draws y grwpiau oedran.

*Cwestiwn Ymchwil 2 – A yw'r dyraniad a'r gwariant ar ffrydiau cyllido addasiadau i dai yn adlewyrchu anghenion y boblogaeth?*

8.17 Roedd rhanddeiliaid o'r farn (wedi'i chadarnhau gan y llenyddiaeth) fod dyraniad a gwariant cyllid ar addasiadau tai nid yn unig yn cael ei bennu gan angen, ond

hefyd gan ddaearyddiaeth ac, yn enwedig, deiliadaeth. Cyfeirir at hyn yn aml fel *“loteri cod post”*, lle mae pobl ag anghenion tebyg yn derbyn gwahanol safonau gwasanaeth oherwydd ble maen nhw'n byw a phwy sy'n ariannu'r addasiad.

8.18 Credwyd mai deiliadaeth oedd prif ysgogydd anghydraddoldeb, gyda chanfyddiad ymhlith rhanddeiliaid bod tenantiaid landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn elwa nid yn unig o fod yn fwy ymwybodol yn gyffredinol o addasiadau fel opsiwn, ond hefyd o allu cyrchu system *“lai biwrocrataidd”* y Grant Addasiadau Ffisegol, sy'n caniatáu mynediad haws iddynt at gyllid ac amseroedd aros byrrach na'r rhai mewn perchen-feddiannaeth, llety awdurdodau lleol a'r sector rhentu preifat – yn ogystal â'r rheini o fewn cynlluniau Trosglwyddo Gwirfoddol ar Raddfa Fawr.

8.19 Mae'r canfyddiad bod deiliadaeth yn ysgogi anghydraddoldeb wrth gyllido addasiadau yn cael ei ategu gan y data: cost addasiad mewn tai cymdeithasol ar gyfartaledd yw £2,369, cryn dipyn yn fwy na'r gost gyfartalog yn y sector preifat (£818).

8.20 Ar yr olwg gyntaf, ymddengys bod y dystiolaeth o'r data yn gwrthddweud y canfyddiad bod tenantiaid landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn mwynhau amseroedd aros byr; yr amser canolrifol o'r pwynt pan fydd yr angen am addasiad yn cael ei nodi hyd nes pan fydd yr addasiad yn barod i'w ddefnyddio yw 119 diwrnod ar gyfer y Grant Addasiadau Ffisegol, fel y'i defnyddir gan landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, o'i gymharu â 99 diwrnod ar gyfer y Grant Cyfleusterau i'r Anabl. Darperir tua dwy ran o dair o addasiadau landlordiaid cymdeithasol cofrestredig (65%) gan ddefnyddio'r Grant Addasiadau Ffisegol a darperir traean gan ddefnyddio ffynonellau cyllido eraill (35%). Ar ôl y Grant Addasiadau Ffisegol, yr ail ddwy brif ffynhonnell cyllid ar gyfer landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yw Cyllid Landlord Cymdeithasol Cofrestredig (17%) a HWYLUSO (12%). Mae gan y ddwy ffynhonnell gyllido hyn amseroedd canolrifol nes bod yr addasiad yn barod i'w ddefnyddio o 13 diwrnod (HWYLUSO) a 18 diwrnod (Cyllid Landlord Cymdeithasol Cofrestredig). Mae'r llun llawn yn fwy cymhleth eto; er enghraifft, mae llawer mwy o addasiadau yn cael eu hariannu gan y rhaglen HWYLUSO yn y sector preifat nag mewn eiddo landlordiaid

cymdeithasol cofrestredig, tra bo llawer llai yn cael eu hariannu mewn eiddo landlordiaid cymdeithasol eraill nag mewn eiddo landlordiaid cymdeithasol cofrestredig. Gan ddod â'r dystiolaeth hon at ei gilydd, gallai tenantiaid landlordiaid cymdeithasol cofrestredig elwa o wasanaeth mwy effeithlon (fel y'i mesurir gan yr amser cyn y gellir defnyddio'r addasiad) yn dibynnu ar ba ffynhonnell y mae'r gwaith yn cael ei ariannu ganddi.

8.21 Nid yw'r data'n darparu tystiolaeth o lefel biwrocratiaeth.

8.22 Codwyd y mater o brofion modd mewn perthynas â ffyrdd posibl o oresgyn annhegwch ar sail deiliadaeth, ac roedd gwahanol safbwyntiau ar effaith bosibl diddymu'r prawf ar gyfer addasiadau i dai. Roedd rhai rhanddeiliaid o blaid gwneud hynny i wella mynediad a chael gwared ar fiwrocratiaeth, ond roedd eraill yn poeni y byddai ‘fflodiart’ o geisiadau (dau safbwynt a nodwyd hefyd yn yr adolygiad llenyddiaeth). Er bod rhanddeiliaid yn teimlo bod hyn yn rhywbeth i Llywodraeth Cymru benderfynu arno, yn gyffredinol roeddent yn teimlo y byddai caniatáu addasiadau bach a rhai canolig heb brofion modd yn risg eithaf isel, ar yr amod bod asesiadau gan therapydd galwedigaethol yn ddigon cadarn i sicrhau mai dim ond y rhai mewn gwir angen a fyddent yn eu derbyn.

8.23 Fodd bynnag, yr hyn y cytunodd y rhanddeiliaid arno yw bod trothwy’r Grant Cyfleusterau i'r Anabl o £36,000 yn rhy isel mewn llawer o achosion (sy'n golygu nad yw rhai addasiadau angenrheidiol yn cael eu gweithredu oherwydd anfforddiadwyedd i'r defnyddiwr gwasanaeth), ac mai enghraifft arall o wahaniaeth yn y system yw bod rhai awdurdodau lleol yn ychwanegu at uchafswm y gwariant ac na fydd eraill yn gwneud hynny, yn dibynnu ar eu polisïau mewnol. Er mwyn gwella mynediad a mynd i'r afael ag annhegwch, un ystyriaeth i Llywodraeth Cymru (fel yr awgrymwyd yn un o'r gweithdai rhanddeiliaid) yw darparu cronfa ganolog o gyllid dewisol y gellid gwneud ceisiadau iddi am gyllid yn ychwanegol at y £36,000 mewn amgylchiadau priodol.

8.24 Gan symud ymlaen o ddeiliadaeth i ddaearyddiaeth, un problem benodol yn ôl pob golwg yw'r ffordd y mae addasiadau o wahanol faint yn cael eu diffinio ledled Cymru, sy'n golygu y gall dau unigolyn sy'n derbyn yr un addasiad mewn gwahanol ardaloedd fod yn destun gwahanol brosesau. Cydnabuwyd, serch

hynny, y gallai'r diffiniadau 'bach', 'canolig' a 'mawr' yn Safonau Gwasanaeth Llywodraeth Cymru fod yn arbennig o ddefnyddiol wrth sicrhau bod defnyddwyr gwasanaethau yn derbyn gwasanaeth unffurf, waeth beth yw eu lleoliad yn y dyfodol.

*Cwestiwn Ymchwil 3: Beth yw'r rhwystrau rhag cyrchu a derbyn cymhorthion ac addasiadau?*

8.25 Trafodir y prif rwystrau strategol rhag cyrchu a derbyn cymhorthion ac addasiadau uchod o dan 'Cwestiwn Ymchwil 2', ond mae rhwystrau mwy ymarferol hefyd.

8.26 Wrth ystyried y cyfnod cyn gwneud cais, mae canfyddiadau'r adolygiad llenyddiaeth ac ymchwil gynradd yn awgrymu bod ansawdd y wybodaeth a'r cyngor a gynigir i ddefnyddwyr gwasanaethau a darpar ddefnyddwyr gwasanaethau ynghylch addasiadau, cyllid a sut i lywio'r system yn gymharol wael, a all fod yn rhwystr i fynediad.

8.27 Fodd bynnag, mae hyn yn llai o broblem i'r rhai sy'n mynd ymlaen yn y system gan eu bod wedyn yn cael cymorth fel arfer trwy'r broses – naill ai gan swyddog tai, gweithiwr cymdeithasol neu aelod o'r teulu – ac felly mae'n llai pwysig, er enghraifft, eu bod nhw'n ymwybodol o ba gronfa a ddefnyddiwyd i ariannu eu haddasiad.

8.28 Serch hynny, ni ddylid ystyried bod hyn yn awgrymu nad yw darparu gwybodaeth yn bwysig, oherwydd bydd angen addasiadau ar lawer o bobl yn dilyn newid sydyn mewn amgylchiad fel marwolaeth partner, damwain ddifrifol neu lawdriniaeth, ac felly mae angen iddynt wybod beth sydd ar gael iddyn nhw a sut i gael mynediad iddo. I'r bobl hyn, ac yn wir y swyddogion tai, gweithwyr cymdeithasol ac aelodau o'r teulu sy'n gweithio ar ran rhywun mewn angen, byddai'n ddymunol i ystyried pwynt mynediad cyson, unigol i'r system – i wella nid yn unig mynediad a chydraddoldeb gwirioneddol (waeth beth yw'r ddeiliadaeth a'r ddaearyddiaeth), ond canfyddiadau ohonynt hefyd.

8.29 Un rhwystr arall y dylid ei nodi yw argaeledd a chywirdeb anghyson cofrestrau tai hygyrch ledled Cymru, y mae eu gwella yn allweddol wrth sicrhau bod eiddo'n

cael eu dyrannu yn ôl yr angen a chyn gynted â phosibl. Dywedwyd bod canllaw arferion da diweddar gan Tai Pawb yn fan cychwyn da, yn ogystal â darn diweddar o ymchwil ar eiddo hygyrch yng Ngwent: byddai gwybodaeth ehangach am y dogfennau hyn, a'u lledaenu'n ehangach, yn fuddiol.

*Cwestiwn Ymchwil 4: Beth yw cryfderau'r broses ar gyfer cyrchu a derbyn cymhorthion ac addasiadau?*

8.30 Mae'n ymddangos bod system 'garlam' y Grant Addasiadau Ffisegol yn uchel ei pharch gan y rhai sy'n ei defnyddio am ei chyflymder, ei hymatebolrwydd, a'i dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Ar ben hynny, dywed cyfranogwyr a'r lenyddiaeth bod y Rhaglen Addasiadau Brys yn ddarparu mân addasiadau ac atgyweiriadau bach yn gyflym ac yn effeithiol, gan ganiatáu i bobl ddychwelyd adref o'r ysbyty ac o ofal yn llawer cyflymach nag y byddent fel arall. Mae'r dadansoddiad data yn dangos bod gan y Rhaglen Addasiadau Brys amser aros canolrifol o saith diwrnod o'r pwynt pan fydd yr angen am addasiad yn cael ei nodi hyd nes i'r addasiad fod yn barod i'w ddefnyddio. At ei gilydd, cyflwynir addasiadau heb oedi gormodol; mae gan chwech o bob wyth ffrwd gyllido amser canolrifol o lai na thair wythnos ar ôl nodi'r angen nes bod yr addasiad yn barod i'w ddefnyddio. Y ddau eithriad i hyn yw'r Grant Addasiadau Ffisegol a'r Grant Cyfleusterau i'r Anabl, sy'n cynnwys mwy o'r gwaith categori 'mawr'.

8.31 Ymddengys hefyd fod rhai enghreifftiau o arfer da sy'n gysylltiedig â phrosesau, yn fwyaf arbennig wrth integreiddio timau a defnyddio aseswyr dibynadwy wedi'u recriwtio, eu hyfforddi a'u goruchwylio'n briodol ar gyfer mân addasiadau – sydd wedi arwain at brosesau cyflymach, symlach ac wedi'u halinio'n well. Gwelwyd gwelliannau hefyd trwy'r canlynol: caffael trwy restrau o gontractwyr dibynadwy neu gytundebau fframwaith, bod â chofrestrau eiddo a addaswyd datblygedig, a defnyddio therapyddion galwedigaethol preifat yn hytrach na'r rhai a gyflogir gan awdurdodau lleol. Yn wir, siaradodd tenantiaid landlordiaid cymdeithasol cofrestredig am eu profiadau o gael eu hasesu gan therapydd galwedigaethol preifat, a oedd, yn eu barn hwy, wedi arwain at broses gyflymach.

8.32 Mae lledaenu gweithgarwch arfer da yn bwysig o ran cynyddu gwybodaeth a sicrhau – lle bo hynny'n bosibl ac yn briodol – ei fod yn cael ei fabwysiadu'n ehangach ledled Cymru.

*Cwestiwn Ymchwil 5: Pa gymorth y mae defnyddwyr gwasanaethau yn ei gael i'w helpu i gael mynediad at addasiadau?*

8.33 Roedd y defnyddwyr gwasanaethau a gymerodd ran yn yr ymchwil yn gyffredinol gadarnhaol am y cymorth a gawsant trwy'r broses gwneud cais a'r broses asesu gan eu gweithiwr tai/cymdeithasol a'r therapydd galwedigaethol a ymwelodd â hwy yn eu cartref. Roedd Gofal a Thrwsio hefyd yn cael ei werthfawrogi'n fawr gan y rhai a oedd wedi'i ddefnyddio. At hynny, canmolwyd y contractwyr a oedd yn gwneud y gwaith am *"wneud eu gorau glas"* wrth sicrhau bod y gwaith addasu yn gweddu i anghenion defnyddwyr y gwasanaethau.

8.34 Yn wir, yn y gweithdy rhanddeiliaid, pwysleisiwyd, er bod y system bresennol ar gyfer cael mynediad at gyllid ar gyfer addasiadau yn wirioneddol gymhleth a braidd yn anghyfartal, mai'r annhegwch yn bennaf yw o ran sut y ceir mynediad i'r system. Mae hyn yn bryder i'r rheini sy'n darparu ac yn goruchwylio'r broses yn hytrach na'r defnyddiwr gwasanaeth terfynol, a fydd yn nodweddiadol yn rhoi adborth cadarnhaol iawn am y broses a'r canlyniadau (er bod rhaid bod yn ofalus mewn perthynas â'r adborth a gasglwyd gan ddefnyddwyr gwasanaethau, fel yr amlinellir ym mharagraff 8.40 isod).

8.35 Un maes lle mae'n ymddangos bod diffyg cymorth a chyfathrebu mewn rhai achosion yw ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau yn llawn wrth ddylunio a gweithredu addasiadau (yn enwedig rhai 'mawr') – a all arwain at osodiadau nad ydynt yn addas at y diben ac nad ydynt yn cyflawni'r canlyniadau a ddymunir. Fodd bynnag, o ystyried y nifer fach o gyfweliadau y mae'r canfyddiadau hyn yn seiliedig arnynt, gallai fod yn ddoeth ystyried mwy o waith ymchwil/dadansoddi yn y maes hwn i benderfynu a yw'n broblem systemig ai peidio.

*Cwestiwn Ymchwil 6: Beth yw nodweddion allweddol gwasanaeth da mewn perthynas â chymhorthion ac addasiadau?*

8.36 Yng ngoleuni'r amrywiadau a amlinellwyd yn gynharach yn y bennod hon, gellid dweud mai nodwedd allweddol gwasanaeth da yw ei fod yn gyson ar draws meysydd a mathau o ddeiliadaeth, ac o ganlyniad mae'n un sy'n sicrhau bod pob defnyddiwr gwasanaethau yn derbyn lefelau tebyg o wasanaeth.

8.37 Mae gwasanaeth da hefyd yn un sy'n cynnwys y rhai sy'n ei dderbyn ar bob cam: o'r sgwrs gychwynnol i sefydlu'r angen, y canlyniadau a ddymunir, a dichonoldeb opsiynau amrywiol – i chwarae rhan lawn yn y gwaith o ddylunio a gweithredu'r addasiad ei hun. Mae cyfathrebu da drwyddi draw hefyd yn hanfodol, fel y dangosir gan y ffaith bod y rhai sy'n derbyn addasiadau mawr, cymhleth yn tueddu i fod yn ddealladwy iawn o'r amser a gymerir i'w gosod ar yr amod eu bod yn derbyn diweddariadau digonol drwyddi draw.

8.38 Gall gwasanaeth a ddarperir trwy ddull amlddisgyblaethol integredig a chydweithredol o asesu, dylunio a gosod addasiadau fod â llawer o fuddion, yn enwedig pan fydd 'timau' yn cynnwys y sectorau tai, iechyd a gofal cymdeithasol yn gweithio gyda'i gilydd i sefydlu'r angen a'r canlyniadau a ddymunir.

8.39 Mae'n ymddangos bod monitro a gwerthuso'r ddarpariaeth yn gyson i sefydlu'r hyn sy'n cael ei wneud yn dda a lle gellir gwneud gwelliannau yn allweddol. Mae'r llenyddiaeth a barn y rhanddeiliaid yn tynnu sylw at y ffaith bod casglu ac adrodd data yn hanesyddol wael ond yn gwella – a bydd angen gwelliannau pellach yn y dyfodol er mwyn deall amrywiannau yn y ddarpariaeth a sicrhau cysondeb, sy'n hollbwysig.

8.40 Yn galonogol, nododd y rhan fwyaf o ddefnyddwyr gwasanaethau fod gwiriadau wedi'u gwneud i asesu ansawdd eu haddasiad ar ôl eu cwblhau a bod hyn wedi parhau yn ystod y pandemig COVID-19. Fodd bynnag, mae'n bwysig, a bydd yn bwysig, peidio â dibynnu'n ormodol ar arolygon bodlonrwydd cwsmeriaid, gan fod y llenyddiaeth a'r rhanddeiliaid yn glir y gall y canlyniadau y maent yn eu cynhyrchu fod yn gamarweiniol: oherwydd bod addasiadau fel rheol yn arwain at ganlyniadau cadarnhaol, bydd derbynwyr yn tueddu i faddau unrhyw agweddau negyddol o'r broses, y mae'n rhaid eu casglu wedyn trwy ddata dangosyddion

perfformiad allweddol. Yn y bôn, rhaid ystyried dangosyddion perfformiad a data arolwg yn gyffredinol i gasglu'r darlun llawn o'r addasiadau tai a ddarperir yng Nghymru.

8.41 Ar nodyn cysylltiedig, mae pryder ymhlith rhanddeiliaid bod y data sydd ar gael yn gyhoeddus yn rhy 'feintiol' ar hyn o bryd ac y gellid ei gyfnewid â mesurau mwy 'ansoddol' sy'n seiliedig ar ganlyniadau gan mai dyma sy'n wirioneddol bwysig i ddefnyddwyr gwasanaethau. Byddai hyn yn gofyn am gasglu mwy o ddata gwell ynghylch effeithiau a buddion (er enghraifft, gwell llesiant ac ansawdd bywyd, gostyngiadau mewn damweiniau neu gwympiadau, a mwy o annibyniaeth) yn ogystal â'r dulliau ar gyfer cyflwyno addasiadau.[28] Yn wir, dywedodd sawl cyfranogwr gweithdy rhanddeiliaid eu bod wedi bod yn rhan o'r broses o ddatblygu holiadur cyson sy'n cael ei ddosbarthu i ddefnyddwyr gwasanaethau ledled Cymru ar ôl cael addasiadau – ac er eu bod yn fodlon ar y math o ddata y mae'r holiadur yn ei gynhyrchu, byddent yn cefnogi gwaith i'w addasu i alluogi casglu rhywfaint o ddata ansoddol ar ganlyniadau.

*Cwestiwn Ymchwil 7: Beth allai fod yn ddangosyddion priodol ar gyfer proses ddyrannu i ffrydiau cyllido addasiadau tai, a sut y gallai'r rhain fod yn gysylltiedig â Safonau Gwasanaeth arfaethedig Llywodraeth Cymru?*

8.42 Mae'r llenyddiaeth a'r rhanddeiliaid yn nodi bod angen i ystod ehangach o ddangosyddion perfformiad allweddol a adroddir yn gyhoeddus gwmpasu nid yn unig Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl, ond y Grant Addasiadau Ffisegol a'r Rhaglen Addasiadau Brys hefyd. Dywedwyd y bydd hyn yn sicrhau darlun llawer mwy cyflawn o'r system addasiadau gyfan. Yn galonogol, mae gwelliannau yn dechrau cael eu gweld trwy adolygiad HWYLUSO Llywodraeth Cymru (a gyflwynwyd ym mis Ionawr 2017), a disgwylir i awdurdodau lleol a chymdeithasau tai gofnodi'r un set graidd o wybodaeth mewn perthynas ag addasiadau a gyflwynwyd trwy'r Grant Cyfleusterau i'r Anabl a'r Grant Addasiadau Ffisegol.

[28] Dylid nodi bod Llywodraeth Cymru yn adrodd ar hyn fel rhan o'i dadansoddiad lefel uchel blynyddol ar hyn o bryd.

8.43 O ran awgrymiadau penodol, roedd cymorth yn un o'r gweithdai rhanddeiliaid ar gyfer Safonau Gwasanaeth Llywodraeth Cymru yn rhannu'r amserlenni disgwyliedig yn ôl maint yr addasiad, ac yna rhannu'r amserlenni ar gyfer addasiadau canolig a mawr yn ôl yr amser y dylai ei gymryd i weld therapydd galwedigaethol, a'r amser cwblhau wedi hynny. Yn wir, roedd rhai o'r farn ei bod yn hanfodol mesur yr amser y mae asesiad gan therapydd galwedigaethol yn ei gymryd, gan fod hyn yn amrywio'n fawr ledled Cymru – ond roedd eraill wedi rhybuddio y dylid cadw mewn cof bod rhai ardaloedd yn dioddef o brinder therapyddion galwedigaethol yn fwy difrifol nag eraill.

8.44 Yn yr un modd, o ran mesur amserlenni yn ehangach, pwysleisiwyd yr angen i ystyried cyd-destun addasiadau unigol. O edrych yn benodol ar Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl, mae profi'r modd ynddo'i hun yn ychwanegu amser at y broses – ac mae hyn yn cael ei gymhlethu yn achos addasiadau mwy a mwy cymhleth sydd wedi'u hariannu gan Grant Cyfleusterau i'r Anabl gan y ffaith eu bod yn aml yn cael eu dyfarnu i bobl iau ag anghenion niferus, strwythurau teuluol cymhleth, ac amharodrwydd i rannu gwybodaeth bersonol o ganlyniad. Gall hyn oll ymestyn yr amser y mae'n ei gymryd i wneud cais am gyllid a chwblhau addasiad, y mae'n rhaid ei ystyried wrth gymharu amserlenni ar draws gwahanol ffrydiau cyllido. Mae'r ffigurau cost ac amser o ddadansoddiad data y ffrwd gyllido yn cefnogi'r dull hwn.

8.45 Er mwyn sicrhau'r effeithiolrwydd mwyaf, dywedodd cyfranogwyr fod rhaid i unrhyw ddangosyddion newydd a gyflwynir yn y dyfodol gael eu halinio â Safonau Gwasanaeth Llywodraeth Cymru i sicrhau cysondeb ledled Cymru – yn enwedig o ran cyfateb y tair lefel addasu allweddol sy'n cyfateb i wahanol drothwyon cyllido: bach, canolig a mawr.

8.46 Ar nodyn cysylltiedig, canmolwyd y Safonau Gwasanaeth eu hunain i raddau helaeth am eu bod wedi cyflwyno lefel o gysondeb i'r system, ac roedd rhanddeiliaid o'r farn ei bod hi'n amser cynnal adolygiad swyddogol o'u heffeithiolrwydd ac a ydynt wedi *“cyflawni yr hyn yr oeddent yn bwriadu ei gyflawni”*.

8.47 Yn olaf, dylid nodi, er bod dangosyddion perfformiad yn cael eu hystyried yn bwysig yn gyffredinol i gyrff cyhoeddus reoli perfformiad a nodi meysydd arfer da a gwella, mae rhanddeiliaid hefyd o'r farn y gallant weithredu fel ffactor sy'n cyfyngu ar ganlyniadau cadarnhaol i'r graddau y bydd sefydliadau'n gweithredu i'w bodloni yn hytrach na chyflawni'r canlyniadau gorau ar gyfer y defnyddwyr gwasanaethau. Am y rheswm hwn, byddai'n ddoeth cadw eu defnydd mor isel â phosibl (lle bo'n briodol) wrth dderbyn yr awgrymiadau a wnaed uchod.

## Atodiad A: Llyfryddiaeth


Age Cymru. (2019). *Cael cyfarpar anabledd ac addasiadau i'r cartref yng Nghymru.* Caerdydd: Age Cymru

Bibbings, J., Boniface, G., Campbell, J., Findlay, G., Reeves-McAll, E., Zhang, M. a Zhou, P. (2015). *Adolygiad o addasiadau ar gyfer byw'n annibynnol.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. (2018). *Tai a phobl anabl: argyfwng cudd Cymru.* Llundain: Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. (2018). *Tai a phobl anabl: argyfwng cudd Cymru.*Llundain: Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Jones, C. (2005). *Adolygiad o Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl ac Addasiadau Tai.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru

Munro, E. (2019). *Gweithredu i Addasu.* Cymdeithas Clefyd Niwronau Motor

Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2018). *Addasiadau Tai: Adroddiad Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru.* Caerdydd: Senedd Cymru

Pwyllgor Cyfle Cyfartal Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2009). *Yn Dal i Aros: Gwasanaethau Addasu a Chynnal a Chadw Cartref i Bobl Hŷn yng Nghymru.* Caerdydd: Senedd Cymru

Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol (RCOT). (2019). *Canllaw ar Gynllunio a Chyflawni Addasiadau i'r Cartref yn Wahanol.* Llundain: RCOT

Ymchwil y Senedd (2019). *Addasiadau yn y cartref yng Nghymru: canllaw i etholwyr.* Caerdydd: Senedd Cymru

Tai Pawb. (2018). *Tai a phobl anabl: pecyn cymorth ar gyfer awdurdodau lleol.* Caerdydd: Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Swyddfa Archwilio Cymru. (2018). *Addasiadau Tai.* Caerdydd: Swyddfa Archwilio Cymru

Llywodraeth Cymru. (2017). *Tai i'r dyfodol: diwallu dyheadau pobl hŷn Cymru* Caerdydd: Llywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru. (2017). *Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru (2019). *Cymru Iachach: ein Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru. (2019). *Gweithredu ar Anabledd: Yr Hawl i Fyw'n Annibynnol.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru. (2019). *Safonau gwasanaeth ar gyfer addasiadau i dai.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru. (2020). *Dadansoddiad Data Lefel Uchel ar addasiadau tai 2018-19.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru

Grŵp Arbenigol Llywodraeth Cymru ar Ddarparu Tai ar gyfer Poblogaeth sy'n Heneiddio yng Nghymru. (2017). *Tai i'r dyfodol: diwallu dyheadau pobl hŷn Cymru.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru

Zhou, W. (2018). *Addasiadau i dai ar gyfer poblogaeth sy'n heneiddio yn y DU: polisi, deddfwriaeth ac arfer.* Caeredin: Prifysgol Heriot-Watt

# Atodiad B: Adroddiad ar ganfyddiadau o'r cyfweliadau â  rhanddeiliaid

## Cyflwyniad

10.1 Ymgymerwyd â chwe chyfweliad gyda rhanddeiliaid allweddol i gasglu eu safbwyntiau ar y darlun cyfredol mewn perthynas â dyrannu addasiadau tai ledled Cymru. Bwriadwyd yn bennaf i'r canfyddiadau o'r cyfweliadau hyn lywio dyluniad camau diweddarach yr ymchwil, ond maent wedi cael eu cynnwys isod er cyd-destun.

## Prif ganfyddiadau

<u>Disgrifiwyd y system gyfredol ar gyfer dyrannu arian fel cymhleth ac annheg</u>

10.2 Gwnaeth y rheiny a gafodd eu cyfweld ddisgrifio'r system gyfredol ar gyfer dyrannu arian ar gyfer addasiadau tai yng Nghymru fel *"camweithredol", "biwrocrataidd"* a *"loteri cod post"*, i'r graddau bod nifer o ffrydiau gwahanol y mae modd cael mynediad iddynt, yn bennaf wedi'u gwahaniaethu yn ôl deiliadaeth.

> *"Mae'r system mor wahanol ar gyfer deiliadaethau gwahanol, a chynifer o grantiau gwahanol. Nid yw'n dryloyw."*

<u>Y prif anghydraddoldebau yw yn ôl deiliadaeth, ond mae gwahaniaethau daearyddol hefyd</u>

10.3 Cytunodd y rhanddeiliaid fod darparwyr gwahanol yn gweithredu mewn ffyrdd gwahanol, gan arwain at annhegwch yn ôl daearyddiaeth. Mae modd gweld rhai enghreifftiau o sut mae hyn yn ymddangos isod.

> *"Mae pob cyngor yn mynd i'r afael â phethau'n wahanol … felly nid oes unrhyw degwch. Mae pob cyngor yn gwneud penderfyniadau'n seiliedig ar eu cyllidebau, felly mae'n loteri cod post go iawn. Rydym yn eistedd ger* [awdurdod sy'n] *cael ei ystyried yn llawer llai cefnog na ni, er bod gennym boblogaeth sy'n llawer hŷn, ond rydym yn derbyn llawer llai o arian. Felly, os ydych yn byw* [yno]*, mae'r cyfleoedd yn uwch na fan hyn oherwydd na allwn fforddio ei gyflawni. Yn fy marn i, nid yw'n system deg …"*

*“Mae'n anodd cael dull cyson ar gyfer Grantiau Addasiadau Ffisegol oherwydd mae rhai asiantau Gofal a Thrwsio lleol yn is-gwmnïau landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ac mae rhai eraill yn elusennau annibynnol. Felly, nid oes ganddynt berthynas un-i-un gyda'r cymdeithasau tai.”*

10.4 Er hyn, gwnaed cyfeiriad penodol i annhegwch yn ôl deiliadaeth, gyda sawl un y cyfwelwyd ag ef yn awgrymu bod gan denantiaid landlordiaid cymdeithasol cofrestredig fynediad llawer yn haws i gyllid drwy Grantiau Addasiadau Ffisegol na'r rhai mewn llety a ddarperir gan awdurdodau lleol, y rhai sy’n berchen-feddianwyr ac, yn enwedig, y rhai a rentir yn breifat.

*“Nid yw'r system yn deg … mae pobl mewn cymdeithasau tai'n dueddol o gael grantiau addasiadau'n llawer cynt ond mae perchen-feddianwyr neu’r rhai mewn tai cyngor yn gorfod aros yn hwy."*

*“Nid oes unrhyw un wir yn gwybod yr hyn sy'n digwydd gyda thenantiaid y sector rhentu preifat; mae yna lwyth o ddata ar y pwnc … rwy'n credu bod nifer y ceisiadau'n drist o fach … ac mewn llawer o achosion bydd landlordiaid yn dweud na oherwydd bydd ganddynt gawod heb ris i fynd i mewn iddi neu lifft grisiau ac maent yn dweud 'mewn gwirionedd, mae'n well os ydych yn symud' …"*

10.5 Yn ogystal, nodwyd gwahaniaethau rhwng landlordiaid cymdeithasol cofrestredig gan gyfweleion: ystyrir bod cymdeithasau mwy yn gallu galluogi mynediad cynt i gyllid na rhai llai.

*"Mae landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn ei wneud yn well. Maent yn rhagweithiol iawn yn y maes hwn ac mae eraill yn llawer llai felly. Gall gymryd llawer yn hwy i’r rhai sy'n byw mewn eiddo rhai landlordiaid cymdeithasol cofrestredig eraill; gall gymryd misoedd ac mae'n rhaid mynd drwy bob math o lefelau o gymeradwyaeth. Mae amser sylweddol a haenau lluosog o gymeradwyaeth cyn i'r addasiad allu mynd rhagddo …”*

10.6 Dywedodd un cyfranogwr nad yw sefydliadau Trosglwyddo Gwirfoddol ar Raddfa Fawr yn gymwys am gyllid Grantiau Addasiadau Ffisegol *"er nad yw eu*

*demograffig yn wahanol i bob pwrpas i'r un sydd gan gymdeithasau tai; pobl dlotach yn byw mewn tai a oedd yn arfer bod yn dai'r cyngor"*. Roeddent yn teimlo bod hyn yn *"wallgof"* a bod angen mynd i'r afael ag ef.

Dywedwyd bod anghydraddoldeb ar sail deiliadaeth yn cael ei waethygu trwy gynnal profion modd (neu'r 'prawf adnoddau') – ond roedd barn gymysg am eu diddymu

10.7 Ystyriwyd y broses o gynnal prawf modd gan randdeiliaid yn gyffredinol yn drafferthus, yn aneffeithlon, yn ymwthiol, yn fiwrocrataidd, yn fympwyol ac, unwaith eto, yn *"annheg"* am ei fod ond yn ystyried asedau ac incwm, ac nid costau byw.

> *"Yn fy marn i, mae'r broses prawf modd yn ddiwydiant bach o ran cost …Yr hyn a welwch yw bod y rhan fwyaf o bobl sy'n cyflwyno cais am grantiau'n bobl nad ydynt yn gallu fforddio cael y gwaith wedi'i wneud yn gynt … felly mae'r broses gyfan yn ddrud ac yn araf ac nid yw'n cyflwyno unrhyw arbedion. Haen o gost a biwrocratiaeth ydyw."*

10.8 Cafwyd cefnogaeth mewn egwyddor ar gyfer dyhead Llywodraeth Cymru am fynediad agored i bawb a diddymu'r broses prawf modd, er bod un cynrychiolydd awdurdod lleol yn teimlo y bydd angen arian ychwanegol i dalu am y cynnydd ychwanegol yn y galw.

> *"Nid oedd llawer o ddeiliaid tai am ofyn am gymorth, felly mae'r galw go iawn ar gyfer addasiadau'n gudd ar hyn o bryd. Bydd diddymu'r broses prawf modd yn datgelu'r gwir alw a bydd yn uchel."*

10.9 Ond gwnaeth rhai eraill anghytuno gyda'r pwynt olaf, gan awgrymu efallai na fyddai galw ychwanegol o ganlyniad i ddiddymu'r broses prawf modd mor uchel ag y disgwylir, neu hyd yn oed yn uchel o gwbl – yn bennaf oherwydd nad yw addasiadau tai'n ddymunol gan y sawl nad oes eu gwir angen arnynt.

> *"Mae yna dybiaeth sinigaidd, pan fydd pobl yn clywed y gallant gael rhywbeth am ddim, y bydd pawb yn dymuno ei gael. Ond nid yw'n gweithio yn y ffordd honno oherwydd mae cael addasiadau yn eich cartref yn waith*

*mawr. Nid yw pobl am golli eu baddonau; nid ydynt am gael lifft grisiau yn eu tai os nad oes angen un arnynt … pam byddech chi?!"*

10.10 Yn ogystal, dywedwyd bod modd lliniaru yn erbyn unrhyw faterion posib ynghylch pobl yn ceisio cael pethau nad oes eu hangen arnynt drwy ddulliau priodol sy'n seiliedig ar anghenon a sgyrsiau gydag unigolion ynghylch anghenion, dymuniadau a disgwyliadau.

*"Rwy'n credu, os ydyn ni'n rhagweithiol yn y ffordd gywir am yr hyn sy'n bwysig, yr hyn mae ei angen arnynt, gan ddefnyddio asesiad yn seiliedig ar angen, y bydd y pethau hyn yn diflannu. Nid yw pobl yn ciwio am gomôd yng nghanol yr ystafell neu lifft grisiau …*

10.11 Yn wir, ystyrir bod symud i ffwrdd o asesiad ariannol o gymhwysedd tuag at asesiadau anghenion cynnar yn hanfodol gan sawl cyfwelai er mwyn mwyafu canlyniadau ac effeithlonrwydd.

*"Nid yn unig y mae am ddarparu arian, mae am gael y canlyniadau cywir. Arian yw un ffordd o hwyluso hyn, cyngor yw'r llall. Mae angen mynediad i gymorth ariannol ar rai, ond nid pawb. Mae rhoi arian ar gyfer addasiadau nad ydyn yn diwallu'r angen yn wastraff arian."*

10.12 Pwysleisiwyd pwysigrwydd cynnwys y rheiny sy'n derbyn addasiadau yn y broses hefyd mewn perthynas â nodi gofynion yn iawn. Dywedwyd y bydd hyn yn sicrhau mai angen yw'r ysgogwr, ac y dylai hyn roi'r budd mwyaf.

*"Rwy'n meddwl y gallwch wneud mwy i gynnwys defnyddwyr gwasanaethau wrth wneud penderfyniadau a chynllunio. Nid oes unrhyw gynnwys ar hyn o bryd. Nid yw'n agored i graffu o ran diwallu'r angen yn lleol ai peidio."*

<u>*Ystyriwyd bod angen ail-ddylunio'r system ar frys - ond roedd barn gymysg ar gael ffrwd gyllido unigol*</u>

10.13 Yn gyffredinol, roedd cyfweleion yn ystyried bod angen ailddyluniad sylweddol ar y system ariannu addasiadau tai i fynd i'r afael â'r materion a godwyd uchod, ac i

leihau’r fiwrocratiaeth sy'n rhan o gael mynediad i addasiadau bychain yn benodol.

> *"Mae yna ormod o bwyntiau mynediad. Mae angen iddi gael ei symleiddio i ddefnyddwyr."*

> *“Gall y broses fod yn fiwrocrataidd iawn am faint yr arian a'r addasiad y gwneir cais amdano, felly mae'r broses gyfan yn anhylaw mewn perthynas â'r cyllid …"*

10.14 Roedd rhai cyfweleion yn cefnogi datblygiad ffrwd gyllido unigol ar gyfer addasiadau, lle byddai holl arian Llywodraeth Cymru yn cael ei roi mewn un 'gronfa' ddatblygu leol er mwyn i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, awdurdodau lleol ac asiantaethau Gofal a Thrwsio gael mynediad iddo. Teimlwyd y byddai hyn yn gynt, yn fwy tryloyw ac yn decach.

> *“Un syniad fyddai sefydlu fframwaith addasiadau ar gyfer arian a ddyrennir yn lleol. Byddai hyn yn cyflymu pethau heb yr angen i orfod cyflwyno cais i Lywodraeth Cymru bob tro; byddai cronfa arian a allai gael ei dirprwyo i ardaloedd lleol. Byddai hyn yn lleihau rhwystrau ac amser i brosesu ceisiadau.”*

10.15 Fodd bynnag, roedd peth pryder efallai y byddai landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ac asiantaethau Gofal a Thrwsio'n colli allan dan y model hwn, hyd yn oed pe byddai'n fwy teg yn gyffredinol.

> *“Efallai y bydd yn fwy anodd i'r landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ac asiantaethau Gofal a Thrwsio hynny sydd â mynediad cyflym i Grantiau Addasiadau Ffisegol (fel y maent ar hyn o bryd), ond rwy'n meddwl y byddai'n gwneud y system yn fwy teg.”*

> *“Nid yw Gofal a Thrwsio yn darparu Rhaglenni Addasiadau Brys yn unig felly na ddylai’r cyllid rhaglen hwn ddiflannu i gronfeydd addasiadau eraill ar lefel ranbarthol.”*

10.16 Yn ogystal, roedd yna ymdeimlad er y byddai cyfuno cyllidebau ar gyfer addasiadau bychain yn weddol syml, mae'n "llai hawdd gwneud hyn ar gyfer

addasiadau canolig a mwy oherwydd y ddeddfwriaeth ynghylch cyfyngiadau Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl a hyblygrwydd o ran sut y gallant gael eu defnyddio. Mae yna linynnau gwahanol yn gyfreithiol o ran ariannu a byddai'n golygu sefydliadau yn rhoi'r gorau i'w rheolaeth a'u perchnogaeth ar rai ffrydiau cyllideb ar gyfer Grantiau Addasiadau Ffisegol a Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl."

10.17 Awgrymwyd ar gyfer addasiadau bychain y gallai cymhwysedd ac arian y Rhaglen Addasiadau Brys gael eu hehangu'n weddol hawdd a heb newid deddfwriaethol.

> *"Gallech ddyblu'r arian ar gyfer Rhaglenni Addasiadau Brys ac ni fyddai angen newid deddfwriaethol arnoch …Petaech yn dyblu'r gyllideb ar gyfer addasiadau bychain i uchafswm o £4 miliwn, er enghraifft, byddai hynny'n ddigon i'r rhaglen honno gael ei gweinyddu drwy un system er mwyn cael mynediad iddi, ni waeth beth yw'r ddeiliadaeth. Felly, o safbwynt ffrwd gyllido, mae'n llawer haws."*

10.18 Dylid nodi yma hefyd y tybid bod y system ariannu gyfredol ar gyfer addasiadau tai wedi'i cham-alinio i ryw raddau â'r modelau gofal cymdeithasol a ddatblygwyd o ganlyniad i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, yn enwedig o ran hyrwyddo gofal sy'n seiliedig ar ganlyniadau ac anghenion ac annog unigolion i gymryd cyfrifoldeb mwy personol dros eu llesiant.

> *"Mae'r Ddeddf [Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant] wedi newid y sgwrs gyda chleientiaid, gan ystyried yn fwy sut gall pobl ddatrys problemau drostynt eu hunain. Beth gallant ei wneud eu hunain i wella eu hamgylchedd ac a oes ganddynt yr adnoddau? Felly, mae'n gwrthdaro ychydig â sut caiff y system grantiau ei strwythuro … Felly, mae angen i'r system grantiau ddal i fyny â pholisi o amgylch gofal cymdeithasol sy'n seiliedig ar ganlyniadau ac anghenion."*

<u>Cefnogwyd Safonau Gwasanaeth Llywodraeth Cymru mewn egwyddor, ond efallai nad ydynt mor effeithiol ag y gallent fod wrth eu harfer</u>

10.19 Roedd Safonau Gwasanaeth Llywodraeth Cymru, mewn egwyddor, yn cael eu cefnogi gan gyfweleion.

*“Ni waeth o ble y daw'r arian, dylai addasiadau o faint tebyg gael eu cyflawni o fewn yr un amserlenni. Mae'n dda gwthio safon gwasanaeth gyson ar gyfer yr amser a gymerir, gwerth am arian ac ansawdd ar gyfer addasiadau o faint tebyg."*

10.20 Nodwyd rhai effeithiau cadarnhaol. Gwnaeth un cynrychiolydd awdurdod lleol awgrymu eu bod wedi bod yn ddefnyddiol wrth egluro lle mae angen i broffesiynau, megis therapyddion galwedigaethol, gymryd rhan yn y broses addasu, sydd wedi’i chyflymu.

*“Rydym wedi gweld buddion o ran gwelliant yn hyd yr amser mae'n ei gymryd i asesiadau ddigwydd oherwydd gallwn fod yn glir lle i ffocysu ein hadnoddau ar achosion mwy cymhleth yn lle addasiadau safonol."*

10.21 Er hynny, awgrymodd un cyfwelai eu bod yn annigonol o uchelgeisiol, gyda'r potensial i waethygu safonau perfformiad yn lle eu gwella.

*"A yw'r safonau'n ddigon uchelgeisiol? Mae'r data'n dangos naw mis ar gyfartaledd ar gyfer addasiadau mwy ond mae'r safon yn dweud 15 mis. Dylent fod am wthio perfformiad i fyny ac nid gostwng y gwastad. Nid yw rhai sefydliadau'n cyflawni ond mae rhai eraill yn cyflawni, felly mae'n dda codi’r gwastad i'r perfformiad gorau a pheidio â’i ostwng i'r perfformiad arferol neu waethaf. Os gall cymdeithas tai gael asesiad gan therapydd galwedigaethol mewn tair wythnos, yna dylai unrhyw un fod yn gallu gwneud hynny!”*

10.22 Cafodd yr angen am ddata i ddangos tystiolaeth o'r graddau y mae safonau'n cael effaith gadarnhaol (neu negyddol) ar berfformiad ei bwysleisio felly gan y cyfwelai hwn.

*“Oll dwi'n gallu ei ddweud yw y dylai'r amser y mae addasiadau'n eu cymryd o ran lefel yr addasiad wella. Byddwn yn disgwyl gweld gwella perfformiad yn hytrach na gwaethygiad cyson i isafswm safon perfformiad neu amser mae'n ei gymryd i gwblhau addasiadau o feintiau gwahanol. Nid wyf yn argyhoeddedig bod gan Lywodraeth Cymru y lefel ddata hyd yn hyn i fesur hyn.”*

10.23 Roedd peth pryder hefyd yn y cyfweliadau bod *"unrhyw ffurf ar fesur neu ddangosydd perfformiad allweddol yn gweithredu fel dylanwad cyfyngol ar ganlyniadau"* a bod y safonau hefyd yn cael eu gyrru gan broses ar draul angen. Yn benodol, dadleuwyd lle mae safonau neu ddangosyddion perfformiad allweddol yn bodoli, bydd y rhan fwyaf o sefydliadau'n gweithredu i fodloni'r rhain (yn aml yn 'newid' eu ffigurau er mwyn gwneud hynny yn ôl y sôn) yn lle defnyddio dull sy'n seiliedig yn fwy ar ganlyniadau sy'n diwallu anghenion y rheiny sy'n derbyn y gwasanaeth yn gywir.

> *“Yn aml mae pobl yn gosod amserlenni fel meincnod, ond dylai pethau gael eu gwneud mor gyflym â phosib bob tro. Mae amserlen yn fympwyol, a dylai'r amserlen fod yn berthnasol i'r angen. Felly, mae angen i ni gael ein harwain gan angen ac nid targedau."*

> *“Mae safonau'n gweithio orau os oes angen canlyniadau. Mae’r Safonau Gwasanaeth yn llawer mwy hyblyg nag yr oeddent yn flaenorol ond … gallant liniaru yn erbyn lefel dda o wasanaeth."*

10.24 Gallai enghraifft o hyn fod yn mesur amserau aros, nad yw’n digwydd weithiau yn ôl pob tebyg o adeg cais cychwynnol, ond o'r amser y mae therapydd galwedigaethol wedi llunio ei adroddiad – yn aml wythnosau neu fisoedd wedyn hyd yn oed.

10.25 Er mwyn sicrhau'r effeithiolrwydd uchaf, dywedwyd bod angen i sefydliadau alinio eu mesurau perfformiad a'u fframwaith adrodd i'r safonau eang i sicrhau cysondeb ledled Cymru – ac y dylai adrodd ar safonau gydweddu â'r tair lefel addasu allweddol sy'n cydweddu â throthwyon ariannu gwahanol: bach, canolig a mawr.

> *“Mae yna fframwaith eang ar gyfer safonau gwasanaeth ond mae angen rhai mesuriadau perfformiad wedi'u halinio â hyn … nid ydym wedi cyrraedd y pwynt hwn eto. Mae angen y mesurau hyn i adrodd ar ddangosyddion perfformiad allweddol megis yr amser mae'n ei gymryd i gyflawni Grant Cyfleusterau i'r Anabl. Mae angen rhagor o adborth gan Lywodraeth Cymru arnom i ddatblygu hyn ymhellach."*

Ystyrid bod angen rhagasesiadau gwell o geisiadau

10.26 Roedd awydd am asesu ceisiadau ymlaen llaw yn well, gydag un cyfwelai yn awgrymu newid y system fel ei bod yn dechrau gydag asesiad diagnostig o anghenion posib unigolyn (o safbwynt gofal cymdeithasol i oedolion) cyn ei gyfeirio tuag at lwybrau ariannu posib. Roedd yn teimlo y byddai hyn yn helpu i reoli disgwyliadau pobl a darparu datrysiadau sy'n canolbwyntio'n fwy ar ganlyniadau.

> *"Mae pobl yn mynd yn uniongyrchol i'r adran dai ac mae ganddynt ddisgwyliadau o'r hyn y byddant yn ei gael.Y dull rhoi'r drol o flaen y ceffyl ydyw …Mae pobl ar restr aros ar gyfer cyllid efallai nad oes ei angen arnynt.Mae'n her oherwydd bod pobl yn mynd yn uniongyrchol i'r adran dai ac yn gofyn am addasiadau a grantiau a gall hynny weithiau roi disgwyliad bod angen addasiadau arnynt, ond nid ydym wedi cael sgwrs gyda nhw ar yr adeg hon … ac efallai nid dyna'r hyn mae ei angen arnynt mewn gwirionedd."*

Yn ôl pob sôn, mae'r wybodaeth a ddarperir i ddefnyddwyr gwasanaethau yn wael

10.27 Roedd rhanddeiliaid y cyfwelwyd â nhw yn cytuno bod yr wybodaeth sydd ar gael i fuddiolwyr posib ynghylch arian grant a chymhwysedd yn wael ar hyn o bryd – heb unrhyw lwybr na phroses glir i bobl gael mynediad i wybodaeth.

> *"*[Rydym wedi] *canfod nad yw pobl anabl yn ymwybodol o'r hawl na'r hyn y mae'r hawl ganddynt iddo. Nid yw pobl yn gwybod beth maent yn gymwys i'w dderbyn."*

10.28 Y teimlad cyffredinol oedd y dylai unrhyw wybodaeth a ddarperir fod mor syml â phosib oherwydd *"nid oes angen i'r cyhoedd wybod y cymhlethdodau y tu ôl i'r system".* Awgrymwyd y bydd proses genedlaethol symlach, fwy cyson yn cynorthwyo gyda'r gallu i ddarparu dull cyfathrebu symlach a mwy cyson.

10.29 Er hyn, roedd teimlad, am fod y rhan fwyaf o fuddiolwyr yn derbyn cymorth drwy'r broses ymgeisio, y gall darparu gwybodaeth fod yn ddiangen i raddau – a'i fod yn

fwy pwysig cael sgwrs agored a gonest am y goblygiadau o gael addasiadau i'r cartref.

> *"Mae angen cael sgyrsiau go iawn am y goblygiadau o gael addasiadau. Oherwydd ei fod yn ymchwydd mawr …"*

10.30 O ran ymarferoldeb cyflwyno cais, ystyriwyd bod y ffurflenni er mwyn gwneud hyn yn gymhleth.

> *"Y prif fater yw nad oes gan bobl y gallu i lenwi'r ffurflenni'n gywir bob tro. Nid ydynt yn syml bob tro a gall hyn olygu nad yw pobl am eu llenwi. Gall fod yn broses enfawr ac mae pobl yn cael anhawster deall y ffurflenni a dod o hyd i'r wybodaeth gywir. Os ydych yn 80 oed ac roedd eich gŵr yn delio â materion ariannol drwy gydol eich oes, gall fod yn anodd iawn."*

<u>Mae oedi mewn prosesau'n gyffredin oherwydd y pwysau ar adnoddau, ond mae peth arfer da'n bodoli</u>

10.31 Disgrifiwyd y broses asesu gan rai rhanddeiliaid fel anodd a thrafferthus yn aml oherwydd y broses hirfaith.

> *"Mae'n … anodd ei gweithredu … yn aml rydych yn dibynnu ar chwiliadau, arolygon, penseiri a gall yr holl bethau hyn gymryd amser hir."*

10.32 Y prif reswm am oediadau yn ystod y cyfnod asesu yw diffyg staff i ymdrin â cheisiadau. Tybid bod angen mwy o arian i gynyddu'r gallu i gyflawni, yn ogystal â lleihau'r pwysau ar therapyddion galwedigaethol (y dywedir y dylid eu defnyddio mewn achosion mwy cymhleth yn unig).

> *"Mae angen cyllid i ymgorffori therapyddion galwedigaethol mewn timau tai, neu dalu am fwy o amser therapyddion galwedigaethol ond gan gydnabod nad oes angen therapyddion galwedigaethol bob tro … ar gyfer addasiadau bychain er enghraifft … Oes gwir angen therapydd galwedigaethol arnoch i ddweud wrthych ble i roi canllaw?"*

10.33 Cynigiwyd rhai enghreifftiau o arfer da ynghylch asesiadau, yn enwedig bod timau integredig (lle maent yn bodoli) ac aseswyr dibynadwy wedi arwain at brosesau cynt a symlach sydd wedi'u halinio'n well – yn ogystal â lleihau

amserau aros o ganlyniad i lai o alw ar therapyddion galwedigaethol, y mae eu hamser yn rhydd i ymdrin ag achosion mwy cymhleth.

> *"Mae gwasanaethau tai wedi'u hymgorffori yn ein tîm gwasanaethau i oedolion - felly mae'r therapyddion galwedigaethol wedi'u cyd-leoli. Mae ganddynt gysylltiadau hefyd â therapyddion galwedigaethol yn yr awdurdod iechyd lleol, felly mae gwasanaeth therapydd galwedigaethol integredig i gynorthwyo gydag asesiadau addasiadau. Mae hyn yn cyflymu pethau!"*

> *"Rydym wedi cyflwyno rôl asesydd dibynadwy ac yn hyfforddi staff i ymgymryd â rolau asesu. Mae angen staff hyd at lefel pedwar i lunio asesiadau proffesiynol ar gyfer galwadau llai cymhleth i ryddhau adnoddau therapyddion galwedigaethol. Mae hyn yn helpu i ryddhau gallu wrth fynd i'r afael ag addasiadau bychain."*

10.34 Yn ogystal, dywedir bod y defnydd o therapyddion galwedigaethol preifat (heb gost ychwanegol) wedi cyflymu'r broses addasiadau yn sylweddol o fewn un gymdeithas dai.

> *"Gallwch osgoi proses yr awdurdod lleol, sy'n gallu cymryd amser hir … drwy fynd yn breifat … gan ddefnyddio therapyddion galwedigaethol cymwys a'u talu'n breifat fel y gallant wneud yr asesiad yn gyflym."*

10.35 Roedd peth pryder, er hynny, bod aseswyr dibynadwy yn cael eu hystyried mewn rhai mannau fel dewis arall yn lle defnyddio therapyddion galwedigaethol. Yn hyn o beth, awgrymwyd yn gryf y dylai'r cyntaf gael eu defnyddio ar gyfer addasiadau syml yn unig i bobl heb gyflyrau cudd, ac y dylai unrhyw beth mwy cymhleth gael ei asesu gan yr olaf.

> *"Weithiau rwy'n credu y defnyddir y dadleuon ar gyfer aseswyr dibynadwy i ddisodli'r angen am therapyddion galwedigaethol ychwanegol. Nid oes gen i unrhyw beth yn eu herbyn ond dim ond yn y lle cywir ar yr amser cywir … os yw'n addasiad syml ac rydych yn sicr nad oes unrhyw gyflyrau cudd y byddai therapydd galwedigaethol sydd wedi'i hyfforddi'n briodol yn eu canfod, yna mae'n iawn. Fodd bynnag, ni fyddwn yn hyderus mai asesydd dibynadwy fyddai'r ateb ym mhob sefyllfa oherwydd y bydd therapyddion*

*galwedigaethol yn gwneud asesiad priodol yn seiliedig ar anghenion a gallant ddefnyddio eu gwybodaeth, cymwysterau a phrofiad ychwanegol i nodi rhai o'r pethau sylfaenol. Nid yw aseswyr dibynadwy yn disodli therapyddion galwedigaethol."*

Ystyrir bod cofrestrau eiddo a addaswyd yn ddymunol, ond yn brin

10.36 Gwnaeth un cynrychiolydd awdurdod lleol nodi bwlch lle, er bod ganddynt gofrestr o anghenion, nid oes ganddynt restr o stoc tai hygyrch / wedi'u haddasu i baru'r anghenion hyn ag argaeledd. Er mwyn goresgyn materion o'r fath (nad ydynt yn unigryw i'r awdurdod hwn yn ôl pob tebyg), dywedwyd y dylai'r holl ddarparwyr lleol gydlynu eu cofrestrau i gyflymu dyraniad stoc sydd eisoes wedi'i haddasu – dull sydd wedi bod yn hynod lwyddiannus mewn un awdurdod lleol yng Nghymru yn ôl pob tebyg.

*“Mae gan yr [awdurdod lleol] y buddsoddiad mwyaf a nifer o therapyddion galwedigaethol. Mae ganddo system wedi'i mireinio ar gyfer dyrannu tai a hefyd ynghylch gwybodaeth am addasiadau yn y stoc. Byddwch yn gweld, os oes gan sefydliad syniad da o'i gofrestr tai hygyrch, yna mae ei systemau eraill yn dueddol o fod wedi'u datblygu'n dda …”*

10.37 Fodd bynnag, tynnwyd sylw at argaeledd stoc dai addas yn y Cymoedd fel problem o ran ei dyrannu – fel yr oedd yr angen i fodloni 'safonau eiddo gwag' ac anghenion tenantiaeth frys, sy'n gallu, y dywedwyd, arwain at stoc dai sydd eisoes wedi'i haddasu yn cael ei dyrannu i'r rheiny nad oes ei hangen arnynt.

*“Mae'n heriol oherwydd natur y stoc dai … yn y Cymoedd nid oes llawer o dai hygyrch, deg cam i'r drws blaen …”*

*“Lle y bo'n bosib, rydym yn paru tenant ag eiddo ond weithiau mae'r angen am denantiaeth gynaliadwy'n goresgyn y ffaith fod eiddo wedi cael ei addasu …”*

Ar hyn o bryd, mae mesur a diwallu angen yn 'wallus' yn ôl pob tebyg

10.38 Roedd rhai cyfweleion o'r farn y dylai bod ffocws ar fesur angen rhagweledig drwy ddatblygu set ddata yn seiliedig ar newidiadau rhagweledig mewn poblogaeth a thueddiadau iechyd, wedi'i hallosod i alinio â data lles.

> *"Mae angen i ni gydweddu data iechyd a heneiddio yn lleol i fodelu'r angen posib. Nid oes angen defnyddio cynllunio'n seiliedig ar berfformiad cyfredol oherwydd gall effaith diddymu profion modd newid hyn yn sylweddol. Nid yw ystyried yr hyn rydym yn talu i'w wneud mor ddefnyddiol â rhagweld y galw yn y dyfodol."*

> *"Mae angen defnyddio data iechyd a lles ynghyd â data tai i lunio barn ar faint o addasiadau mae eu hangen arnom …"*

> *"Mae landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn dechrau darparu data i Lywodraeth Cymru ar addasiadau, felly rydym yn gobeithio y gall y darlun o angen ac effaith wella … Dylai hyn ddechrau rhoi darlun gwell o'r angen tebygol yn y dyfodol, ond mae angen gwneud gwaith ehangach ar hyn i gysylltu â setiau data iechyd a'r Adran Gwaith a Phensiynau."*

10.39 Adleisiwyd hyn gan gyfwelai arall, a ddisgrifiodd bylchau sylweddol o ran deall anghenion ar hyn o bryd. Honnodd yn benodol, oherwydd nad yw ceisiadau sydd wedi'u 'gwrthod' a'u 'terfynu' yn cael eu cofnodi, yna mae'r broses casglu data yn ddiffygiol ac nid yw'n adlewyrchu'r 'angen cudd'. Mae'n werth nodi, os dyma yw'r achos, gall y galw cudd gael goblygiadau ar gyfer diddymu'r broses prawf modd.

> *"Nid oes unrhyw un yn cofnodi ymholiadau a cheisiadau sy'n cael eu gwrthod oherwydd y prawf modd … Mae hyn yn cuddio'r darlun cyffredinol o'r angen sy'n bodoli. Mae yna nifer mawr hefyd o bobl nad ydynt yn ymholi nac yn cyflwyno cais oherwydd eu bod yn meddwl nad ydynt yn gymwys …Mae angen i ni hefyd fesur y rheiny sy'n cysylltu ac nad ydynt yn derbyn unrhyw beth, a'r rheiny sy'n cysylltu ond nad ydynt yn cyflwyno cais."*

10.40 Roedd cyfwelai arall (cynrychiolydd awdurdod lleol) yn poeni nad yw'r fformwlâu cyllido cyfredol yn rhoi ystyriaeth ddigonol i wahanol lefelau o angen mewn gwahanol ardaloedd o ganlyniad i boblogaethau oedrannus mawr.

"*Nid yw* [ariannu] *yn ystyried ein poblogaeth hen iawn na'n cyfraddau dementia; mae gennym lawer o bobl hŷn y mae eu teuluoedd yn byw ymaith. Nid oes gennym ddemograffig o bobl ifanc … oherwydd nid ydynt yn gallu fforddio byw yma …"*

10.41 Mewn ardaloedd lle nad yw cyllidebau'n tyfu gyda'r galw, dywedwyd bod yn rhaid i ddarparwyr wneud yn iawn am y diffygion – sy'n gallu cael effaith ar a yw unigolyn yn cael yr addasiad 'delfrydol' neu'r 'opsiwn gorau nesaf'.

> *"Mae'n dylanwadu ar arfer. Mae pobl yn gwybod bod arian yn brin, felly yn aml mae pobl yn meddwl am yr ail opsiwn gorau yn lle'r opsiwn gorau i rywun … nid yw pobl yn derbyn rhywbeth delfrydol ond maent yn derbyn gwasanaeth sy'n seiliedig ar yr hyn y gallwn ei fforddio. Nid yw'n deg bod hyn yn wahanol gan ddibynnu ar ble'r ydych yn byw."*

<u>Mae casglu data ar effeithiau a chanlyniadau wedi bod yn wael yn hanesyddol, ond mae'n gwella</u>

10.42 Yn gyffredinol, gwnaeth cyfweleion ddadlau, er bod effeithiau addasiadau'n newid bywyd a bod y buddion cost ehangach yn amlwg, mae'r rhain yn fwy anodd eu mesur.

10.43 Yn wir, roedd dymuniad cryf am fesuriadau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol gwell o ran angen ac effaith i bennu buddion a chostau gwirioneddol addasiadau tai ledled Cymru.

> *"Mae'n anodd dweud pa mor dda y mae system yn cyflawni yn erbyn anghenion unigol a sut mae'n diwallu'r angen posib yn fwy eang … Nid yw data [cyfredol] yn ystyried llawer sut mae'r addasiadau'n cyflawni yn erbyn anghenion pobl … Mae'r adroddiad addasiadau diweddaraf gan Lywodraeth Cymru yn gam cyntaf i wneud pethau'n fwy tryloyw a sefydlu data ar effeithiau a chyflawniad … mae'n siarad am y costau a'r sefydliadau sy'n rhan o'r broses yn ogystal â boddhad tenantiaid neu berchnogion, ond nid oes unrhyw beth ar yr angen yng Nghymru a sut y gwnaethant gyflawni yn ei erbyn."*

> *"Mae angen mesur mwy tymor hir o ran yr effaith ar yr unigolyn. Er enghraifft, byw'n annibynnol am hwy, lleihau'r angen am ofal cymdeithasol neu iechyd arall yn y tymor hir … O ystyried y cyllidebau sy'n rhan o'r broses, dylai fod mwy o waith craffu ar effeithiau buddsoddiadau mwy ar ansawdd bywyd, gwerth am arian a'r buddion o ran cost …"*

10.44 O ran yr angen am ddata, gwnaeth un cyfwelai dynnu sylw at ofyniad gweddol newydd Llywodraeth Cymru ar gyfer data addasiadau gan gymdeithasau tai, a'r dryswch mae hyn wedi'i achosi mewn rhai sefydliadau oherwydd yr effaith mae ei hangen i'w goladu. Wedi dweud hynny, roedden nhw'n ystyried ei fod yn ymarfer pwysig, yn enwedig wrth ystyried y diffyg data a oedd ar gael yn flaenorol.

10.45 O ran mesur effaith, gwnaeth cyfweleion ddisgrifio sut caiff holiaduron eu rhoi i denantiaid i fesur eu boddhad gyda'r broses addasiadau, ond dywedasant efallai nad yw'r canlyniadau o'r rhain yn dangos y darlun gwirioneddol oherwydd gallai'r rhai y mae eu canlyniadau'n dda fod yn gyndyn adrodd am broses negyddol – ac yn gyffredinol bod gan bobl hŷn ddisgwyliadau is ac yn gyndyn beirniadu gwasanaeth a ddarperir.

10.46 Roedd defnyddio dull sy'n seiliedig ar ganlyniadau personol o'r cychwyn yn arbennig o ddefnyddiol wrth fesur effeithiau mewn ffordd ddiriaethol gan gyfranogwyr.

> *"Rydym yn gweithio ar sail canlyniadau personol, felly rydym yn mesur effaith o ran yr hyn sy'n eu cefnogi i gael bywyd gwell ac rydym yn ailymweld i ganfod a yw'r canlyniad wedi cael ei gyflawni ar ôl i'r gwaith gael ei wneud. Rydym yn dueddol o ddweud pethau fel 'Rwyf am fynd i fyny'r grisiau er mwyn darllen stori amser gwely i'm plant, ac un o'r camau gweithredu hyn fydd gweld a ydym wedi bodloni'r canlyniad hwn."*

10.47 Yn wir, roedd sawl cyfwelai yn meddwl bod ffordd o weithio sy'n seiliedig ar ganlyniadau yn hanfodol wrth sicrhau effeithiau tymor hir cynaliadwy a mesuradwy.

> *"Os oes gennych chwe mis i wneud rhywbeth, rydych yn mynd i gymryd chwe mis. Ond os ydych yn canolbwyntio ar ganlyniadau, os y rheswm*

*rydych yn gwneud rhywbeth yw oherwydd ei fod yn bwysig, bydd gennych ddull gwahanol sy'n eich gorfodi i ystyried datrysiadau mwy cost-effeithiol a chynaliadwy…"*

10.48 Wrth ystyried golwg tymor hir, yn enwedig o amgylch cynaliadwyedd, gwnaeth rhai rhanddeiliaid y cyfwelwyd â nhw bwysleisio'r angen i ystyried ai addasiad yw'r peth gorau i'w wneud, neu a fyddai'n ddoeth cael sgyrsiau 'anodd' gydag unigolion ynghylch symud i lety mwy addas sy'n gweddu eu hanghenion tebygol yn y dyfodol.

*"Efallai y dylen ni fod yn gofyn i bobl ystyried tai gwahanol os dyna'r peth gorau iddynt yn hytrach na darparu addasiadau. Efallai fod eu hangen a gallant eu gwneud yn gyflym, ond ai hyn yw'r peth gorau yn y tymor hir a'r darlun mwy? Mewn rhannau gwledig o Gymru, er enghraifft, a allwch chi addasu ffermdy, a allwch chi sicrhau y bydd gofalwyr yno drwy'r amser, ac a yw'n well i'r unigolyn hwnnw fyw mewn tŷ sy'n agosach at staff ac adnoddau?*

10.49 Yn y cyd-destun hwn, awgrymwyd bod angen mwy o ystyriaeth o gartrefi gydol oes, a chyllid ar eu cyfer, er mwyn gwella tai ar gyfer y dyfodol i'r deiliaid, a lleihau'r angen felly am addasiadau drud.

<u>Mae cydweithio a gweithio ar y cyd yn hanfodol, ond mae'n dameidiog yn ôl pob tebyg</u>

10.50 Gwnaeth sawl rhanddeiliad y cyfwelwyd â nhw ddisgrifio sut maent yn gweithio'n agos nid yn unig gyda'i gilydd, ond hefyd gyda sefydliadau eraill sy’n cyflawni addasiadau ledled Cymru. Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf yn cydnabod bod angen gwneud mwy yn y maes hwn.

10.51 O ran arfer da, mae un awdurdod lleol wedi datblygu asiantaeth gwella cartrefi i weithio gyda'r holl bartneriaid yn y sir. Telir am y model gwasanaeth hwn gan ddefnyddio 10% o'r grantiau i dalu'r costau, ac mae'n cynnwys llunio cynlluniau, rheoli prosiectau a sicrhau ansawdd.

*“Rydym yn cyflogi swyddog technegol i oruchwylio'r cynlluniau a gwella ansawdd y gwaith ac ymgysylltu â chontractwyr ac ati. Mae'r gwasanaeth*

*asiantaeth yn gweithredu fel cyswllt rhwng cleientiaid, contractwyr ac arianwyr, yn adolygu perfformiad, ac yn mewnbynnu hyn ar system graddio contractwyr. Rydym yn defnyddio taliadau ac adolygiadau cyfnodol i sicrhau gwerth am arian, bod yr addasiadau yn diwallu anghenion yr unigolyn, a bod y gwaith o safon."*

10.52 Yn ogystal, mae gan yr un awdurdod lleol ddau grŵp addasiadau rhanbarthol sy'n cwrdd i ddatblygu gweithio ar y cyd a rhannu arfer da – sydd yn eu hardal yn cynnwys rhagor o ddefnydd o aseswyr dibynadwy, caffael o fframwaith contractwyr unigol, a phwynt mynediad unigol ar gyfer ceisiadau.

10.53 Er y gwnaeth cyfweleion nodi y bu cynnydd mewn gwaith ar y cyd a chydweithio, credwyd bod angen rhagor o ymdrech wrth alinio blaenoriaethau adrannau gofal cymdeithasol a thai o fewn awdurdodau lleol. Un enghraifft a nodwyd (y tynnwyd sylw ati'n gynt yn y bennod hon hefyd) oedd bod yr olaf yn dueddol o ddymuno cael addasiadau yn gynt na'r cyntaf, sy'n gweld hyn fel *"opsiwn olaf"*.

*"Rydym yn gweithio'n agos gyda'r adran dai ond yn aml nid ydynt yn dod o'r [un safbwynt].Mae yna gam aliniad rhwng polisi'r gwasanaethau cymdeithasol a'r system grantiau gyfredol. Mae'r system ariannu'n gwrthdaro â'r polisi hwnnw oherwydd bod gennym ddatrysiad gwahanol bellach … dylai addasiadau fod y dewis olaf bob tro. Mae addasiadau'n cymryd amser ac nid ydynt yn ddatrysiad cyflym. Mae'r cyfarpar i gefnogi pobl wedi gwella ac mae'n llai drud ac yn llai amharol rhoi cynnig arno'n gyntaf. Mae cydweithwyr tai am wneud yr addasiadau bob tro, ond nid dyma'r peth gorau bob tro …"*

10.54 Un maes lle credwyd bod angen mwy o gydweithio yw ynghylch y defnydd o grantiau addasiadau bychain er mwyn cyflymu rhyddhau pobl o'r ysbyty. Er yr ystyrid bod hyn yn beth cadarnhaol, gwnaeth un cyfranogwr (o awdurdod lleol) rybuddio rhagddo, gan ddweud bod angen cydweithio gwell wrth ymgymryd ag asesiadau i sicrhau'r annibyniaeth fwyaf ac felly'r effeithiolrwydd mwyaf i dderbynwyr.

*"Hoffwn weithio'n agosach gyda sefydliadau fel Gofal a Thrwsio i ddatblygu ethos mwy cefnllwm Llywodraeth Cymru wedi rhoi arian i sefydliadau Gofal*

*a Thrwsio i fynd i ysbytai - wel, nid yw hynny'n ddefnyddiol heb gydweithio gyda ni. Mae yna dueddiad i weld addasiad fel y peth cyntaf i'w wneud, ond nid i ni: y peth cyntaf i'w geisio yw iddynt fod yn annibynnol; darn o gyfarpar yw'r ail ddewis o ran ymyrryd … Rydym am i bobl ddod allan o ysbytai, ond nid yw pobl yn meddwl am y datrysiadau mewn ffordd mor holistaidd ag y gallent."*

10.55 Gwnaeth cynrychiolydd o gymdeithas dai awgrymu y gallai ef a'i gyd-ddarparwyr ddatblygu cyfleoedd am weithio ar y cyd lle mae cymdeithasau tai mwy yn cynnig eu gwasanaethau i rai llai i asesu, dylunio a gosod addasiadau i breswylwyr. Dywedwyd bod gan Lywodraeth Cymru a Chartrefi Cymunedol Cymru rôl i'w chwarae wrth helpu i hwyluso cysylltiadau i alluogi hyn.

*"Mae angen gwaith mwy integredig rhwng gofal cymdeithasol, iechyd a thai … Mae angen arian i ystyried sut mae hyn yn digwydd neu ddim yn digwydd … i adolygu'r graddau y mae'r systemau hyn yn gweithio'n lleol, ynteu peidio."*

<u>Mae angen rhannu arfer da</u>

10.56 Yn olaf, roedd y sawl y cyfwelwyd â hwy'n cytuno bod rhannu arfer da'n ofyniad o hyd, gan gynnig bod *"angen crynodeb o arfer da arnom i'w rannu ledled Cymru …"*

## Atodiad C: Canllawiau testun cyfweliadau

**Canllaw testun ar gyfweliadau cwmpasu â rhanddeiliaid (drafft)**

### Cyflwyniad

**1. A allwch chi ddweud ychydig wrthyf am eich sefydliad a'ch rôl?**

**2. A allwch ddweud ychydig wrthyf am rôl eich sefydliad wrth ddarparu addasiadau tai a dyrannu cyllid?**

*[Holwch yn fanwl: Pa sector(au) ydych chi'n ymwneud ag ef/nhw? Ers pryd ydych chi wedi bod yn cymryd rhan?]*

a) Pa ran o'r broses ydych chi'n rheoli/gweithio ynddi (e.e. prosesu ceisiadau, dyrannu arian, cyngor, grantiau, adeiladu/addasiadau, goruchwylio a/neu gyflawni gwaith adeiladu, y cyfan)?

b) Pa sefydliadau eraill, os o gwbl, ydych chi'n gweithio ochr yn ochr â nhw?

*Pa raglen grantiau Llywodraeth Cymru sy'n ariannu'r addasiadau rydych chi'n eu darparu?*

*A yw'ch sefydliad yn ariannu addasiadau o'ch adnoddau eich hun?*

*Ydych chi'n gwybod sut mae swm y cyllid y mae eich sefydliad yn ei dderbyn yn cael ei gyfrifo?*

*Ydych chi'n gweithio gyda'r canlynol: Perchen-feddianwyr? Tenantiaid yn y sector rhentu preifat? Tenantiaid yn y sector cymdeithasol?*

### Barn gyffredinol am y system gyfredol ar gyfer dyrannu cyllid

**3. Yn gyffredinol, i ba raddau ydych chi'n meddwl bod y system bresennol ar gyfer dyrannu cyllid ar gyfer addasiadau wedi'i chynllunio'n ddigonol i ddiwallu anghenion pobl hŷn ac anabl yng Nghymru?**

*[Holwch yn fanwl: Pa eiriau fyddech chi'n eu defnyddio i ddisgrifio'r system gyfredol o ddyrannu grantiau a chyllid ar gyfer addasiadau tai?]*

a) Beth yw cryfderau a/neu wendidau allweddol y system gyfredol?

i. Sut y gellid mynd i'r afael â'r gwendidau?

4. **I ba raddau, yn eich barn chi, y mae'r system bresennol yn sicrhau mynediad teg at gyllid ar gyfer addasiadau tai?**
   *[Holwch yn fanwl: I ba raddau mae system a safonau cyson ar gyfer dyrannu grantiau?]*
   a) Sut, os o gwbl, y mae ffactorau eraill yn dylanwadu ar y gwasanaeth?
      *[Holwch yn fanwl am: y lleoliad, maint yr addasiad sydd ei angen, y sefydliad/corff cyhoeddus dan sylw]*
   b) Pa welliannau, os o gwbl, sydd eu hangen i fynd i'r afael â'r materion rydych chi wedi'u codi?

5. **Yn gyffredinol, sut fyddech chi'n asesu'r defnydd o Safonau Gwasanaeth Llywodraeth Cymru?**
   a) A ydyn nhw'n cefnogi sefydliadau i ddefnyddio dull cyson i ddarparu gwasanaethau ar gyfer addasiadau tai?
   b) Os yw'n anghyson, beth sydd ei angen i unioni hyn?
      *[Holwch yn fanwl: Sut ddylai Llywodraeth Cymru wella'r defnydd o'r safonau gwasanaeth ar draws pob sefydliad sy'n cyflwyno addasiadau yng Nghymru? Pa effeithiau y gallai hyn eu cael? Cadarnhaol/negyddol?]*

### Mynediad at gronfeydd

6. **Beth yw eich barn am y ffrydiau cyllido sydd ar gael ar hyn o bryd i ddyrannu arian ar gyfer addasiadau tai?**
   a) I ba raddau, ai peidio, y mae nifer y gwahanol ffrydiau cyllido sydd ar gael yn y strwythur presennol yn cymhlethu'r system?
      *[Holwch yn fanwl: Anodd eu gweithredu? Cymhleth i'w gweinyddu? Yn ddryslyd i fuddiolwyr?* Diffinio cymhorthion ac addasiadau? *Diffinio angen neu nodweddion cwsmeriaid? Ar gael i bobl â deiliadaethau penodol?]*

***Gwybodaeth am wahanol ffrydiau cyllido:***

*Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl a delir i awdurdodau lleol ar gyfer perchen-feddianwyr, tenantiaid/landlordiaid rhentu preifat a rhai tenantiaid tai cymdeithasol*

*HWYLUSO –a delir i awdurdodau lleol ar gyfer perchen-feddianwyr, tenantiaid/landlordiaid rhentu preifat a rhai tenantiaid tai cymdeithasol*

*Grantiau Addasiadau Ffisegol ar gyfer tenantiaid cymdeithasau tai traddodiadol a chymunedol*

*Rhaglen Addasiadau Brys ar gyfer perchen-feddianwyr a thenantiaid/landlordiaid rhentu preifat*

*Addasiadau ar gyfer tenantiaid awdurdodau lleol a chymdeithasau tai Trosglwyddo Gwirfoddol ar Raddfa Fawr wedi'u cyllido o raglenni cynnal a chadw*

*Addasiadau ar gyfer rhai tenantiaid cymdeithasau tai a ariennir gan eu landlord o'u rhaglen cynnal a chadw i ategu Grantiau Addasiadau Ffisegol*

*Cronfa Gofal Integredig a ddefnyddir i gyllido addasiadau tai mewn rhai rhanbarthau.*

**7. Beth yw eich barn ar effeithiolrwydd gwybodaeth i ddarpar fuddiolwyr ynghylch cyllid grantiau a chymhwysedd?**

a) Os yw'r system yn wael yn eich barn chi – beth sydd ei angen i fynd i'r afael â hyn?
*[Holwch yn fanwl: gwell gwybodaeth am grantiau / hysbysebu grantiau'n well a chyllid i godi ymwybyddiaeth o argaeledd; gwybodaeth o ansawdd gwell; cynllunio a chyfathrebu gwell ar draws cyrff strategol iechyd, gofal cymdeithasol a thai?]*

## Y broses ymgeisio

**7. Beth yw eich barn ar gyflymder ac effeithlonrwydd y broses ymgeisio?**

a) Pa systemau sydd gennych ar waith ar gyfer cymeradwyo ceisiadau am gyllid ar gyfer addasiadau?
b) I ba raddau mae'r rhain yn gyson â sefydliadau eraill sy'n darparu gwasanaethau tebyg yng Nghymru?

c) Beth yw'r prif heriau? Sut y gellir goresgyn y rhain?

**8. Beth yw eich barn ar gyflymder ac effeithlonrwydd cymeradwyo ceisiadau am gyllid ar gyfer addasiadau?**

a) Yn eich barn chi, beth yw'r ffactorau sy'n ysgogi hyn?
b) Pa systemau sydd gennych ar waith ar gyfer cymeradwyo ceisiadau am gyllid?
c) I ba raddau mae'r rhain yn gyson â sefydliadau eraill sy'n darparu gwasanaethau tebyg yng Nghymru?
d) Beth yw'r prif heriau? Sut y gellir goresgyn y rhain?
*[Holwch yn fanwl: Barn ar barhad profion modd ar gyfer Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl? Barn ar symleiddio'r broses cymeradwyo Grant Addasiadau Ffisegol?]*

## Dyrannu cyllid

**9. Beth yw eich barn am gyflymder ac effeithlonrwydd y prosesau dyrannu?**
*[Holwch yn fanwl: Unrhyw ffactorau oedi (e.e. argaeledd therapyddion galwedigaethol, cyllid digonol, amseriad cyllido?]*

a) Os oes oedi, beth yw effeithiau'r rhain?
*[Holwch yn fanwl: Ar ddeiliaid tai, tenantiaid, ar sefydliadau? A oes cyfleoedd cyfartal i bobl ar draws mathau o ddeiliadaeth?]*
b) Beth ellid ei wneud i fynd i'r afael â'r materion rydych chi wedi'u nodi?
*[Holwch yn fanwl: Safbwyntiau ar ddefnyddio aseswyr dibynadwy yn y broses asesu? Safbwyntiau ar gadw rhestrau o stoc dai sydd eisoes wedi'i haddasu – gwneud gwell defnydd ohoni? Gwella cyfleoedd cyfartal?*

## Cyflwyno addasiadau

**10. Beth yw eich barn ar sut mae’r gwaith o gyflwyno addasiadau yn cael ei oruchwylio a'i werthuso ar ôl ei gymeradwyo?**
*[Holwch yn fanwl: Sut mae ansawdd gwaith y contractwyr yn cael ei fonitro ac sut mae'r perfformiad yn cael ei adolygu, e.e. gwerth am arian? Yn eich sefydliad chi, ar lefel ranbarthol a chenedlaethol?]*

11. **Pa newidiadau neu welliannau fyddech chi'n eu cynnig i wella'r ffordd y cyflwynir addasiadau lle bo angen?**
*[Holwch yn fanwl: Barn ar sefydlu rhestr contractwyr/cyflenwyr cymeradwy, sut fyddai'r rhain yn bwydo i'r dyraniad cenedlaethol?]*

### Buddion ac effeithiau

12. **Yn eich barn chi, pa effaith y mae cyllid ar gyfer addasiadau tai wedi'i chael ar ddiwallu anghenion pobl hŷn ac anabl yng Nghymru?**
*[Holwch yn fanwl: Ym mha ardaloedd y mae'r effeithiau mwyaf? Ym mha ardaloedd y bu'r effaith leiaf?]*

13. **I ba raddau, os o gwbl, y mae'r system ar gyfer dyrannu grantiau ar gyfer addasiadau yn arwain at fuddion o ran costau mewn meysydd eraill?**
*[Holwch yn fanwl: Os ydyw, ym mha feysydd y mae'r buddion yn cael eu gwireddu? Os nac ydyw, beth yw'r prif rwystrau i wneud y mwyaf o'r buddion hyn? Oes ganddyn nhw gynlluniau neu systemau ar waith i fesur cost a budd?]*

14. **Pa systemau sydd ar waith i fesur a gwerthuso a yw cyllid yn gwneud gwahaniaeth lle mae ei angen fwyaf?**
    a) Pa ddata dangosydd perfformiad sy'n cael ei gasglu a'i rannu gan eich sefydliad?
    b) Sut, os o gwbl, y mae'r data hwn yn bwydo i setiau data cenedlaethol i ddarparu darlun cyffredinol o Gymru? A ellir gwella hyn? Os felly, sut?

*Ar hyn o bryd, dim ond ar gyfer Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl a ddarperir gan awdurdodau lleol y mae data dangosyddion perfformiad yn cael ei gyhoeddi, felly nid yw'n bosibl cymharu perfformiad ar draws yr holl sefydliadau cyflenwi.*

*Mae'r dangosydd perfformiad cenedlaethol ar gyfer Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl yn dangos gostyngiad yn yr amser cyfartalog a gymerir i gwblhau addasiadau, ond nid yw'r fethodoleg yn gadarn ac mae angen diweddaru'r dangosydd perfformiad.*

*Mae Llywodraeth Cymru, drwy'r system fonitro 'Hwyluso', yn mynd i'r afael â gwendidau adrodd ar berfformiad, ond mae gan y system newydd rai bylchau.*

**15. Pa newidiadau, os o gwbl, yr hoffech eu gweld o ran sut mae effaith cyllid ar gyfer addasiadau tai yn cael ei gwerthuso a'i thystio?**

### Dulliau cydweithredol ac arfer da

**16. Pa gyfleoedd, os o gwbl, sy'n bodoli i sicrhau'r buddion mwyaf posibl o weithio ar y cyd rhwng y sefydliadau sy'n ymwneud ag ariannu/hwyluso addasiadau tai?**

*[Holwch yn fanwl: Cyfuno adnoddau; timau unigol integredig; cydleoli timau iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a thai?]*

**17. Pa enghreifftiau o weithio ar y cyd sydd eisoes yn bodoli?**

a) Pa effeithiau, os o gwbl, y mae hyn yn eu cael ar gyflawniad a pherfformiad gwasanaethau?
b) Sut, os o gwbl, y gellid ei wella?

**18. Pa enghreifftiau, os o gwbl, o arferion da sydd ar gael a allai helpu Llywodraeth Cymru i lunio dyfodol dyraniadau cyllid ar gyfer addasiadau tai yn y dyfodol?**

*[Holwch yn fanwl: O fewn eich sefydliad; ledled y sefydliad; ar lefel polisi / Llywodraeth Cymru? Pwy sy'n arwain wrth yrru'r gwelliannau/newidiadau hyn?]*

### Crynhoi

**19. Pa negeseuon terfynol yr hoffech eu darparu i Lywodraeth Cymru i helpu i lywio'r ymchwil hon? Unrhyw beth arall nad ydym wedi ei drafod sy'n bwysig ei grybwyll?**

## Canllaw testun ar gyfweliadau â defnyddwyr gwasanaethau (drafft)

### Cyflwyniad

1. **A allwch chi ddweud ychydig wrthyf amdanoch chi'ch hun a pham roedd angen addasiad arnoch chi?**

   *[Holwch yn fanwl: band oedran; deiliadaeth lleoliad; nifer y bobl sy'n byw yn y tŷ; anabledd]*

   a) Pwy, os o gwbl, a ddywedodd wrthych am yr addasiadau a allai fod ar gael ichi?

      a. Os na ddywedodd unrhyw un wrthych, sut ddysgoch chi am y peth?

b. A gawsoch chi unrhyw help i archwilio pa addasiadau a allai fod ar gael ichi?

c. Beth yw eich barn am y wybodaeth sydd ar gael i bobl sy'n edrych i mewn i addasiadau?
*[Holwch yn fanwl: y fformatau a ddefnyddir, a'r fformatau a ffefrir (h.y. wyneb yn wyneb, ffôn, copïau print ac ati]*

b) Pa fath o addasiad a gawsoch?

**Mae addasiadau 'bach' yn cynnwys y canlynol:** *canllawiau cydio (dan do ac awyr agored); canllawiau ar gyfer grisiau; rampiau bach; tapiau hygyrch; blychau cadw allweddi'n ddiogel; goleuadau allanol / ar risiau; socedi trydanol ychwanegol*

***Mae 'addasiadau canolig' yn cynnwys y canlynol:*** *cawodydd heb ris i fynd i mewn iddynt; lifftiau grisiau; rampiau mawr*

***Mae addasiadau 'mawr' yn cynnwys: estyniadau; lifftiau; addasiadau strwythurol (e.e. adleoli cegin / ystafell ymolchi)***

## Gwneud cais am addasiad

**2. A allwch ddweud wrthyf sut yr aethoch ati i wneud cais am arian tuag at yr addasiad?**

b) Allwch chi gofio at bwy y gwnaethoch gais?

c) A ydych chi'n gwybod pa gronfa gyllido, os o gwbl, y gwnaethoch gais iddi?

***Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl:*** *fe'u telir i awdurdodau lleol ar gyfer perchen-feddianwyr, tenantiaid/landlordiaid rhentu preifat a rhai tenantiaid tai cymdeithasol*
***HWYLUSO****: yn cael ei thalu i awdurdodau lleol: ar gyfer perchen-feddianwyr, tenantiaid/landlordiaid rhentu preifat a rhai tenantiaid tai cymdeithasol*
***Grantiau Addasiadau Ffisegol****: ar gyfer tenantiaid cymdeithasau tai traddodiadol a chymunedol*
***Rhaglen Addasiadau Brys****: ar gyfer perchen-feddianwyr a thenantiaid/landlordiaid rhentu preifat*

*Addasiadau ar gyfer tenantiaid awdurdodau lleol a chymdeithasau tai Trosglwyddo Gwirfoddol ar Raddfa Fawr wedi'u cyllido o raglenni cynnal a chadw*

*Addasiadau ar gyfer rhai tenantiaid cymdeithasau tai a ariennir gan eu landlord o'u rhaglen cynnal a chadw i ategu Grantiau Addasiadau Ffisegol*

*Defnyddir y Gronfa Gofal Integredig i gyllido addasiadau tai mewn rhai rhanbarthau*

***Hunangyllido***

d) A wnaeth unrhyw un eich helpu gyda'ch cais?

**OS DO …**

i. Pwy wnaeth eich helpu chi?
ii. Gyda beth wnaethon nhw eich helpu chi?
iii. Pa fuddion, os unrhyw rai, a gafodd hyn?
iv. Sut, os o gwbl, y gallai'r cymorth a gawsoch fod wedi bod yn well?

**OS NADDO …**

i. Pa gymorth, os o gwbl, a allech fod wedi elwa ohono? Sut?

d) Faint o amser gymerodd i gymeradwyo'r cais am gyllid?

e) Ar y cyfan, sut brofiad oedd y broses o wneud cais am addasiad?

i. Beth oedd y prif bethau cadarnhaol? *[Holwch yn fanwl: symlder; effeithlonrwydd; cyflymder]*
ii. Beth oedd y prif rwystrau? *[Holwch yn fanwl: cymhlethdod; aneffeithlonrwydd; oediadau]*
   - Pa effaith a gawsant arnoch chi?
   - Sut y gallent fod wedi cael eu goresgyn?

### Cael eich asesu ar gyfer addasiad

**3. A gawsoch chi asesiad i weld a oeddech chi'n gymwys i gael cyllid ar gyfer addasiad?**

**OS DO …**

a) Pwy wnaeth yr asesiad?
*[Holwch yn fanwl: therapydd galwedigaethol, asesydd dibynadwy]*

b) Pa mor hir oedd rhaid i chi aros am asesiad?

c) Yn gyffredinol, sut brofiad oedd y broses o gael asesiad?

i. Beth oedd y prif bethau cadarnhaol? *[Holwch yn fanwl: symlder; effeithlonrwydd; cyflymder]*
ii. Pa rwystrau neu anawsterau a gafwyd yn ystod y cyfnod hwnnw, os o gwbl?
iii. Sut y gellid goresgyn y rhain? *[Holwch yn fanwl: cymhlethdod; aneffeithlonrwydd; oediadau]*

d) Yn dilyn eich asesiad, pa mor hir gymerodd hi i ddarganfod a oeddech chi'n llwyddiannus ai peidio? Sut ydych chi'n teimlo am hyn?

**OS NADDO …**

a) A gawsoch chi esboniad o'r rheswm dros hynny? Beth oeddech chi'n feddwl o'r esboniad hwn?

### Cael cyllid ar gyfer addasiad

**4. O ganlyniad i'ch cais/asesiad, a gawsoch chi gyllid tuag at eich addasiad?**

**OS DO …**

a) Sut roedd hyn o fudd i chi?

**OS NADDO**

b) Pa oblygiadau oedd gan hyn?

c) A gawsoch chi esboniad o'r rheswm dros hynny? Beth oeddech chi'n feddwl o'r esboniad hwn?

5. **A oedd yn rhaid i chi gael 'prawf modd' ar gyfer y cyllid?**

   **OS OEDD …**

   a) Beth oedd canlyniad y prawf hwn?

      *[Holwch yn fanwl: a ofynnwyd iddynt wneud cyfraniad ac, os felly, beth oedd y rhaniad?]*

   b) At ei gilydd, sut brofiad oedd y broses o gael prawf modd?

      i. Sut, os o gwbl, y gallai fod yn well? *?*

### Cael yr addasiad wedi'i osod

6. **Sut oedd y broses o gael eich addasiad ei osod?**
7. **Beth, os o gwbl, oedd y prif bethau cadarnhaol?** *[Holwch yn fanwl: symlder; effeithlonrwydd; cyflymder; ansawdd]*
8. **Beth, os o gwbl, oedd y prif bethau negyddol?***[Holwch yn fanwl: cymhlethdod; aneffeithlonrwydd; oediadau; ansawdd]*
   a. Pa effaith gawsant arnoch chi?
   b. Sut y gallent fod wedi eu goresgyn?

### Effeithiau'r addasiad

9. **A oes unrhyw un wedi ymweld â chi i asesu ansawdd eich addasiad?**
   a. Beth oedd canlyniad yr asesiad hwnnw (os ydych chi'n gwybod)?
10. **A yw eich addasiad wedi cael yr effaith yr oeddech yn gobeithio y byddai'n ei chael?**

    *[Holwch yn fanwl: anghenion uniongyrchol; anghenion tymor canolig; anghenion hirdymor]*

    **OS YDY …**

    a. Beth fu'r prif fuddion i chi?
    b. Pwy, os unrhyw un, sydd wedi bod i asesu/mesur a yw'r addasiad yn diwallu eich anghenion?
       i. Beth oedd canlyniad yr asesiad hwnnw (os ydych chi'n gwybod)?

**OS NAC YDY …**

a. Pam ydych chi'n dweud hyn?
b. Pa oblygiadau y mae hyn wedi'u cael i chi?
c. Beth, os unrhyw beth, y gellid fod wedi'i wneud yn wahanol i gael effaith fwy cadarnhaol?

## Crynhoi

**11. At ei gilydd …**

a. Beth (os o gwbl) yw prif gryfderau / pethau cadarnhaol y broses ar gyfer cael addasiad?
b. Beth (os o gwbl) yw prif wendidau / pethau negyddol y broses ar gyfer cael addasiad?
c. Beth (os o gwbl) yw'r prif welliannau sydd eu hangen?

**12. I ba raddau y mae'r argyfwng COVID-19 wedi cael unrhyw effaith ar y broses o gael eich addasiad?**

## Atodiad D: Cyfranogwyr rhanddeiliaid

Gofal a Thrwsio Cymru

Cartrefi Cymunedol Cymru

Cyngor Sir Caerfyrddin

Cyngor Sir Ceredigion

Cymdeithas Tai Dewis Cyntaf

Tai Hafod

Linc-Cymru

McCarthy a Stone

Cartrefi Melin

Cymdeithas Tai Rhondda

Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol

Cymdeithas Tai Taf

Tai Pawb

Tai Tarian

TPAS Cymru

Trivallis

Cymdeithas Tai Cymoedd i'r Arfordir

Cymdeithas Tai Wales & West

Llywodraeth Cymru

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

## Atodiad E: Newidynnau a ddefnyddir ar gyfer dadansoddi data

Dyddiad geni

Deiliadaeth tai

Ffynhonnell yr atgyfeiriad

Darparwr/cyflenwr

Categori’r addasiad

Dyddiad y cyswllt cyntaf

Dyddiad yr asesiad cychwynnol

Dyddiad y nodwyd yr angen am addasiad

Dyddiad y cafodd yr atgyfeiriad/argymhelliad ei dderbyn gan wasanaethau tai

Dyddiad y gwnaed cais am addasiad/grant a'r dyddiad y cafodd ei gymeradwyo

Dyddiad yr oedd yr addasiad(au) yn barod i'w (d)defnyddio

Cost gyffredinol y gwaith, gan gynnwys TAW

A gynhaliwyd prawf modd ai peidio

A oedd angen cyfraniad ariannol gan yr ymgeisydd – os oedd, nodwch y gwerth

A roddwyd ffynhonnell cyllid

Canlyniadau a ragwelir

Barn defnyddwyr gwasanaethau ynghylch a yw'r addasiad/gosodiad wedi rhoi mwy o annibyniaeth iddynt, lleihau eu hangen am ofal, a gwella eu llesiant

Sgôr bodlonrwydd cwsmeriaid

## Atodiad F: Diffinio ardaloedd awdurdodau lleol

Dangosir yr ardaloedd awdurdod lleol diffiniedig isod.

**Tabl 1 (Atodiad F): Ardaloedd awdurdod lleol diffiniedig**

| Ardal yr awdurdod lleol | Sefydliadau o fewn ardal yr awdurdod lleol |
|---|---|
| Blaenau Gwent a Chaerffili | Awdurdod lleol – Blaenau Gwent<br>Awdurdod lleol – Caerffili<br>Gofal a Thrwsio – Blaenau Gwent a Chaerffili |
| Pen-y-bont ar Ogwr | Data awdurdod lleol ar goll<br>Gofal a Thrwsio – Pen-y-bont ar Ogwr<br>Cymdeithas dai – Cymoedd i'r Arfordir |
| Caerdydd a Bro Morgannwg | Awdurdod lleol – Caerdydd<br>Awdurdod lleol – Bro Morgannwg<br>Gofal a Thrwsio – Caerdydd a'r Fro<br>Cymdeithas dai – Cymuned Caerdydd |
| Sir Gaerfyrddin | Awdurdod lleol – Sir Gaerfyrddin<br>Gofal a Thrwsio – Carmarthenshire Ltd |
| Ceredigion a Sir Benfro | Awdurdod lleol – Ceredigion<br>Awdurdod lleol – Sir Benfro<br>Gofal a Thrwsio – Gorllewin Cymru<br>Cymdeithas dai – Tai Ceredigion |
| Conwy a Sir Ddinbych | Awdurdod lleol – Conwy<br>Awdurdod lleol – Sir Ddinbych<br>Gofal a Thrwsio – Conwy a Sir Ddinbych<br>Cymdeithas dai – Cartrefi Conwy |
| Sir y Fflint | Awdurdod lleol – Sir y Fflint<br>Gofal a Thrwsio – Gogledd-dwyrain Cymru (yn cwmpasu Sir y Fflint a Wrecsam ac felly ni ellir ei neilltuo i Sir y Fflint yn unig, nac i ardal Sir y Fflint a Wrecsam gan fod data ar gyfer Wrecsam ar goll) |
| Gwynedd ac Ynys Môn | Awdurdod lleol – Gwynedd<br>Awdurdod lleol – Ynys Môn<br>Gofal a Thrwsio – Canllaw (Eryri) Cyf |
| Merthyr Tudful | Data awdurdod lleol ar goll |

| | |
|---|---|
| Sir Fynwy a Thorfaen | Awdurdod lleol – Sir Fynwy<br>Awdurdod lleol – Torfaen<br>Gofal a Thrwsio – Sir Fynwy a Torfaen<br>Cymdeithas dai – Cymdeithas Dai Sir Fynwy |
| Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe | Awdurdod lleol – Castell-nedd Port Talbot<br>Awdurdod lleol – Abertawe<br>Gofal a Thrwsio – Bae'r Gorllewin |
| Casnewydd | Awdurdod lleol – Casnewydd<br>Gofal a Thrwsio – Casnewydd |
| Powys | Awdurdod lleol – Powys<br>Gofal a Thrwsio – Powys |
| Rhondda Cynon Taf | Awdurdod lleol – Rhondda Cynon Taf<br>Gofal a Thrwsio – Cwm Taf<br>Cymdeithas dai – Cymdeithas Dai Rhondda |
| Wrecsam | Data awdurdod lleol ar goll |

Ffynhonnell: Gwefannau Llywodraeth Cymru, asiantaethau Gofal a Thrwsio a chymdeithasau tai

Mae'r cymdeithasau tai canlynol yn gweithio mewn sawl awdurdod lleol ac nid yw'n bosibl neilltuo'r gwaith a wneir ganddynt i un ardal awdurdod lleol ddiffiniedig. Mae’r rhain wedi’u labelu fel rhai ‘heb eu neilltuo’.

Mae’r holl addasiadau trwy Ofal a Thrwsio Gogledd-ddwyrain Cymru heb eu neilltuo yn y data. Mae hyn yn cyfyngu ar gymaroldeb Sir y Fflint trwy gydol y dadansoddiad gan fod addasiadau a ddarperir gan asiantaethau Gofal a Thrwsio yn yr ardaloedd awdurdodau lleol eraill yn cael eu cyfrif.

**Tabl 2 (Atodiad F): Cymdeithasau tai heb eu neilltuo**

| Cymdeithas dai | Awdurdodau lleol lle mae cymdeithasau tai yn weithredol |
|---|---|
| Cartrefi Cymunedol Gwynedd (bellach wedi'i enwi'n Adra) | Conwy, Sir Ddinbych, Gwynedd, Wrecsam |
| Dewis Cyntaf (anableddau dysgu yn unig) | Sawl un |
| Grŵp Cynefin | Chwe awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru ac ardaloedd gogledd Powys |
| Linc-Cymru | Blaenau Gwent, Caerdydd, Casnewydd, Torfaen, Caerffili, Pen-y-bont ar Ogwr |
| Cartrefi Melin | Blaenau Gwent, Sir Fynwy, Casnewydd, Powys, Torfaen |
| Tai Canolbarth Cymru | Powys a Cheredigion |
| Newydd | Canolbarth a De Cymru |
| Sir Benfro | Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro |
| Grŵp Pobl | Sawl ardal – Caerffili, Casnewydd ac Abertawe? dim rhestr glir |
| Cymdeithas Tai Unedig Cymru | 11 awdurdod lleol |
| Wales & West | 15 awdurdod lleol |

Ffynhonnell: Gwefannau Llywodraeth Cymru a chymdeithasau tai

## Atodiad G: Asesiad cryno o ba mor dda y mae ffrydiau cyllido yn cyflawni eu nodau

Mae'r tabl isod yn nodi crynodeb o'r canlyniadau gan ddefnyddio pedwar dangosydd i asesu pa mor dda y mae pob ffrwd gyllido yn cyflawni'r nodau a nodwyd ganddi. Bwriedir i hwn fod yn ‘gipolwg’ yn hytrach nag asesiad llawn. Dewiswyd y dangosyddion i gwmpasu ystod o ffactorau gan ddefnyddio set fach o ddangosyddion i ganiatáu cymhariaeth gyflym a syml: cost, y grŵp cleientiaid a wasanaethir, cyflymder cyflawni, ac ansawdd (gan ddefnyddio'r mesur o annibyniaeth gynyddol, sy'n fesur cymharol bendant o'i gymharu â mesurau perfformiad ansoddol eraill fel bodlonrwydd). Mae dadansoddiad manylach o'r rhain a sawl ffactor arall yn dilyn isod.

| | **Cost ganolrifol fesul addasiad (£)** | **Addasiadau yn ôl grwpiau oedran** | **Canolrif y nifer o ddyddiau rhwng nodi'r angen a bod yr addasiad yn barod i'w ddefnyddio** | **A yw'r addasiad wedi cynyddu eich annibyniaeth** |
|---|---|---|---|---|
| LIC (HWYLUSO) | £146<br><br>Cost ganolrifol isel yn unol â'r nod o ddarparu addasiadau bach | Pobl hŷn yn bennaf: mae 87% yn 65 oed neu'n hŷn | 13 diwrnod<br><br>Mae cyfweliadau â chwsmeriaid yn awgrymu eu bod yn ystyried bod yr amser hwn yn dderbyniol, er bod y cyfweleion yn tueddu i fod yn gwsmeriaid bodlon. | Mae 99% yn cytuno'n gryf neu'n tueddu i gytuno |
| LIC (Grant Addasiadau Ffisegol) | £3,570<br><br>Cost ganolrifol uchel sy'n briodol gan fod y Grant Addasiadau Ffisegol yn delio ag addasiadau mwy | Wedi'u taenu yn gyfartal ar draws grwpiau oedran. Mae pobl iau sydd angen addasiadau yn fwy tebygol o fod angen addasiadau canolig neu fawr | 119 diwrnod<br><br>Yn dibynnu ar gymhlethdod y gwaith. Mae'r Grant Addasiadau Ffisegol yn amrywio o un diwrnod i dros dair blynedd. Mae'r gweithdai rhanddeiliaid yn | Mae 96% yn cytuno'n gryf neu'n tueddu i gytuno |

| | Cost ganolrifol fesul addasiad (£) | Addasiadau yn ôl grwpiau oedran | Canolrif y nifer o ddyddiau rhwng nodi'r angen a bod yr addasiad yn barod i'w ddefnyddio | A yw'r addasiad wedi cynyddu eich annibyniaeth |
|---|---|---|---|---|
| | | | taflu goleuni ar ffactorau fel gwaith adeiladu a sefyllfaoedd teuluol cymhleth sy'n gohirio gwaith. | |
| Cyllid Awdurdodau Lleol (Grant Cyfleusterau i'r Anabl) | £3,780<br><br>Cost ganolrifol uchel sy'n briodol gan fod y Grant Cyfleusterau i'r Anabl yn delio ag addasiadau mwy | Er bod 72% yn 65 oed neu'n hŷn, mae cyfran sylweddol o gleientiaid – dros chwarter – o dan 65 oed. Roedd 4,135 o addasiadau gan y Grant Cyfleusterau i'r Anabl o gymharu â 717 trwy'r Grant Addasiadau Ffisegol, felly mae'r Grant Cyfleusterau i'r Anabl yn cyflwyno nifer fwy i bobl ifanc na'r Grant Addasiadau Ffisegol | 99 diwrnod<br><br>Mae'n dibynnu ar gymhlethdod y gwaith. Mae'r Grant Cyfleusterau i'r Anabl yn amrywio o un diwrnod i bedair blynedd a naw mis. Mae'r gweithdai rhanddeiliaid yn taflu goleuni ar ffactorau fel gwaith adeiladu a sefyllfaoedd teuluol cymhleth sy'n gohirio gwaith. | Mae 99% yn cytuno'n gryf neu'n tueddu i gytuno |
| Cyllid Awdurdodau Lleol (Arall) | £135<br><br>Mae hyn yn briodol o ystyried ffocws y ffrwd gyllido ar bobl hŷn a gymerir ochr yn ochr ag addasiadau mwy ar gyfer pobl hŷn sy'n cael eu darparu trwy'r | Pobl hŷn yn bennaf. Mae 77% yn 65 oed neu'n hŷn. | 16 diwrnod<br><br>Mae'n dibynnu ar gymhlethdod y gwaith. Yn amrywio o un diwrnod i dros dair blynedd. Mae'r gweithdai rhanddeiliaid yn taflu goleuni ar ffactorau fel | Mae 97% yn cytuno'n gryf neu'n tueddu i gytuno. |

| | Cost ganolrifol fesul addasiad (£) | Addasiadau yn ôl grwpiau oedran | Canolrif y nifer o ddyddiau rhwng nodi'r angen a bod yr addasiad yn barod i'w ddefnyddio | A yw'r addasiad wedi cynyddu eich annibyniaeth |
|---|---|---|---|---|
| | Grant Cyfleusterau i'r Anabl | | gwaith adeiladu a sefyllfaoedd teuluol cymhleth sy'n gohirio gwaith. | |
| Rhaglen Addasiadau Brys | £96<br><br>Cost ganolrifol isel yn unol â'r nod o ymateb yn gyflym | Mae 93% yn 65 oed neu'n hŷn. Mae hyn yn briodol o ystyried y nod o ddychwelyd adref a chwblhau gwaith ataliol yn gyflym. | 7 diwrnod<br><br>Mae cyfweliadau â chwsmeriaid yn awgrymu eu bod yn ystyried bod yr amser hwn yn dderbyniol. Nid yw'r Rhaglen Addasiadau Brys? Efallai y bydd prosesau angenrheidiol sy'n gohirio'r Rhaglen Addasiadau Brys i sicrhau bod yr addasiadau mwyaf priodol yn cael eu cyflawni. | Mae 97% yn cytuno'n gryf neu'n tueddu i gytuno |
| Cronfa Gofal Integredig | £90<br><br>Cost ganolrifol isel yn unol â'r nod o atal derbyniadau i'r ysbyty a gallu rhyddhau pobl o'r ysbyty | Mae 93% yn 65 oed neu'n hŷn. Yn unol â ffocws y Gronfa Gofal Integredig i bobl hŷn, gyda'r nod o atal derbyniadau i'r ysbyty a gallu rhyddhau pobl o'r ysbyty | 4 diwrnod<br><br>Mae cyfweliadau â chwsmeriaid yn awgrymu eu bod yn ystyried bod yr amser hwn yn dderbyniol. | Mae 100% yn cytuno'n gryf neu'n tueddu i gytuno |
| Cyllid Landlord Cymdeithasol Cofrestredig Traddodiadol | £91 | Mae 52% o dan 65 oed | 18 diwrnod<br><br>Yn llawer hirach na ffrydiau cyllido eraill sydd â chost ganolrifol debyg. | Mae 67% yn cytuno'n gryf neu'n tueddu i gytuno. Mae 33% yn anghytuno'n gryf |

| | Cost ganolrifol fesul addasiad (£) | Addasiadau yn ôl grwpiau oedran | Canolrif y nifer o ddyddiau rhwng nodi'r angen a bod yr addasiad yn barod i'w ddefnyddio | A yw'r addasiad wedi cynyddu eich annibyniaeth |
|---|---|---|---|---|
| Cyllid Trosglwyddo Gwirfoddol ar Raddfa Fawr | £171 | Mae 65% yn 65 oed neu'n hŷn. | 21 diwrnod | Mae 93% yn cytuno'n gryf neu'n tueddu i gytuno |
| Arall (yr holl gyllid 'Arall') | £138 | Mae 84% yn 65 oed neu'n hŷn | 9 diwrnod | Mae 100% yn cytuno'n gryf neu'n tueddu i gytuno |
| Pob un | £130 | Mae 83% yn 65 oed neu'n hŷn | 13 diwrnod | Mae 98% yn cytuno'n gryf neu'n tueddu i gytuno |

Ffynhonnell: Data a dadansoddiad yng nghorff yr adroddiad hwn

## Atodiad H: Dadansoddiad o'r costau yn ôl y ffrwd gyllido a maint yr addasiad

| LIC (HWYLUSO) | Bach | Canolig | Mawr | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Cost (£) | 1,209,204 | 1,373,755 | 85,566 | 2,668,525 |
| Cymedr (£) | 251 | 2,781 | 7,131 | - |
| Canolrif (£) | 120 | 2,285 | 5,336 | - |
| Modd (£) | 98 | 825 | 8,828 | - |
| Lleiaf drud (£) | 3 | 53 | 325 | - |
| Mwyaf drud (£) | 6,265 | 11,220 | 32,195 | - |
| Nifer yr addasiadau | 4,816 | 494 | 12 | 5,322 |
| Canran o gyfanswm y gost | 45% | 51% | 3% | 100% |

| LIC (Grant Addasiadau Ffisegol) | Bach | Canolig | Mawr | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Cost (£) | 79,899 | 2,353,991 | 984,871 | 3,418,762 |
| Cymedr (£) | 423 | 5,117 | 14,483 | - |
| Canolrif (£) | 180 | 4,450 | 10,923 | - |
| Modd (£) | 168 | 2,281 | Amherthnasol | - |
| Lleiaf drud (£) | 40 | 100 | 4,071 | - |
| Mwyaf drud (£) | 9,439 | 37,260 | 78,247 | - |
| Nifer yr addasiadau | 189 | 460 | 68 | 717 |
| Canran o gyfanswm y gost | 2% | 69% | 29% | 100% |

| Cyllid Awdurdodau Lleol (Grant Cyfleusterau i'r Anabl) | Bach | Canolig | Mawr | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Cost (£) | 731,675 | 12,424,235 | 4,837,976 | 17,993,886 |
| Cymedr (£) | 488 | 5,627 | 17,985 | - |
| Canolrif (£) | 150 | 5,283 | 13,943 | - |
| Modd (£) | 96 | 2,927 | 36,000 | - |
| Lleiaf drud (£) | 3 | 130 | 3,329 | - |
| Mwyaf drud (£) | 26,263 | 35,912 | 109,279 | - |
| Nifer yr addasiadau | 1,500 | 2,208 | 269 | 3,977 |
| Canran o gyfanswm y gost | 4% | 69% | 27% | 100% |

| Cyllid Awdurdodau Lleol (Arall) | Bach | Canolig | Mawr | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Cost (£) | 1,212,988 | 2,155,552 | 586,068 | 3,954,608 |
| Cymedr (£) | 195 | 3,905 | 18,905 | - |
| Canolrif (£) | 120 | 3,498 | 11,810 | - |
| Modd (£) | 96 | 2,802 | Amherthnasol | - |
| Lleiaf drud (£) | 3 | 67 | 5,186 | - |
| Mwyaf drud (£) | 16,739 | 15,525 | 64,144 | - |
| Nifer yr addasiadau | 6,227 | 552 | 31 | 6,810 |
| Canran o gyfanswm y gost | 31% | 55% | 15% | 100% |

| Rhaglen Addasiadau Brys | Bach | Canolig | Mawr | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Cost (£) | 1,297,228 | - | - | 1,297,228 |
| Cymedr (£) | 126 | - | - | - |
| Canolrif (£) | 96 | - | - | - |
| Modd (£) | 90 | Amherthnasol | Amherthnasol | - |
| Lleiaf drud (£) | 1 | - | - | - |
| Mwyaf drud (£) | 894 | - | - | - |
| Nifer yr addasiadau | 10,329 | - | - | 10,329 |
| Canran o gyfanswm y gost | 100% | 0% | 0% | 100% |

| Cronfa Gofal Integredig | Bach | Canolig | Mawr | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Cost (£) | 130,648 | - | - | 130,648 |
| Cymedr (£) | 132 | - | - | - |
| Canolrif (£) | 90 | - | - | - |
| Modd (£) | 90 | Amherthnasol | Amherthnasol | - |
| Lleiaf drud (£) | 30 | - | - | - |
| Mwyaf drud (£) | 1,167 | - | - | - |
| Nifer yr addasiadau | 989 | - | - | 989 |
| Canran o gyfanswm y gost | 100% | 0% | 0% | 100% |

| Cyllid Landlord Cymdeithasol Cofrestredig Traddodiadol | Bach | Canolig | Mawr | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Cost (£) | 22,243 | 2,869 | - | 25,112 |
| Cymedr (£) | 117 | 1,434 | - | - |
| Canolrif (£) | 91 | 1,434 | - | - |
| Modd (£) | 101 | Amherthnasol | Amherthnasol | - |
| Lleiaf drud (£) | 18 | 1,187 | - | - |
| Mwyaf drud (£) | 823 | 1,682 | - | - |
| Nifer yr addasiadau | 190 | 2 | - | 192 |
| Canran o gyfanswm y gost | 89% | 11% | 0% | 100% |

| Cyllid Trosglwyddo Gwirfoddol ar Raddfa Fawr | Bach | Canolig | Mawr | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Cost (£) | 140,973 | 601,985 | 123,694 | 866,652 |
| Cymedr (£) | 230 | 2,853 | 8,246 | - |
| Canolrif (£) | 103 | 2,837 | 5,073 | - |
| Modd (£) | 41 | 5,500 | Amherthnaso l | - |
| Lleiaf drud (£) | 6 | 89 | 1,250 | - |
| Mwyaf drud (£) | 13,920 | 10,579 | 21,186 | - |
| Nifer yr addasiadau | 614 | 211 | 15 | 840 |
| Canran o gyfanswm y gost | 16% | 69% | 14% | 100% |
| **Canran o gyfanswm y gost i gyd** | **Bach** | **Canolig** | **Mawr** | **Cyfanswm** |
| Cost (£) | 4,824,85 8 | 18,912,38 6 | 6,618,175 | 30,355,42 0 |
| Canran o gyfanswm y gost | 16% | 62% | 22% | 100% |